



CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

# Y Naturiaethwr

Cyfes 2

Rhif 13

Rhagfyr 2003

Rhifyn Dathlu



Cymdeithas Edward Llwyd

yn **25** oed

## Lluniau'r Clawr

### Clawr blaen:

Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, Llywydd a sylfaenydd Cymdeithas Edward Llwyd, yn astudio Lili'r Wyddfa ar Glogwyn Du'r Arddu, Yr Wyddfa, Mai 2003

*Llun: Ifor Williams*

### Clawr ôl:

Lili'r Wyddfa (neu Brwynddail y Mynydd) *Lloydia serotina*

*Llun: Goronwy Wynne*

## Cymdeithas Edward Llwyd

Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd yn 1978 a hi yw Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwir y Gymdeithas ar ôl Edward Llwyd, a anwyd yn 1660 ac a alwyd yn ei gyfnod "y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop".

Cymraeg yw iaith y Gymdeithas, ac y mae dros 1,200 o aelodau led-led Cymru a thu hwnt. Prif ddibenion y Gymdeithas yw astudio byd natur, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a chreigiau, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru ac ymgychu dros eu gwarchod. Mae'r Gymdeithas yn:

- trefnu cyfarfodydd awyr-agored ym mhob rhan o Gymru, i astudio ac i gerdded
- cynnal cyfarfodydd gwaith cadwriaethol
- trefnu darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol
- cynnal pabell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol
- cyhoeddi Y Naturiaethwr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi llyfrau ar enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion
- cynnig grantiau (£600) bob blwyddyn am waith gwreiddiol ym myd natur
- lleisio barn gyhoeddus ar faterion amgylcheddol
- trefnu pris gostyngol gyda nifer o siopau dillad ac offer awyr agored

Mae aelodaeth yn agored i bawb o bob oed sydd â diddordeb ym myd natur.

Dyma'r tâl blyneddol:

Unigolyn - £12

Teulu - £18

I ymaelodi neu am ragor o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth:

Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 4LJ.

# Y Naturiaethwr

Cyfres 2

Rhif 13

Rhagfyr 2003

*Golygydd:* Goronwy Wynne, “Gwylfa”,  
Licswm, Treffynnon, Sir Fflint CH8 8NQ.

**Cymdeithas Edward Llwyd 2002 – 03**

*Llywydd:* Dafydd Davies

*Cadeirydd:* Harri Williams

*Is-gadeirydd:* Ieuan Roberts

*Trysorydd:* Ifor Griffiths

*Ysgrifennydd:* Megan Bevan, “Y Blewyn  
Glas”, Porthyrhyd, Sir Gaerfyrddin  
SA32 8PR.

*Ysgrifennydd Aelodaeth:* Iwan Roberts,  
3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun,  
Sir Ddinbych LL15 1BT.



Y Naturiaethwr  
Cyfres 2, Rhif 13, Rhagfyr 2003.

Cyhoeddir Y Naturiaethwr gan Gymdeithas  
Edward Llwyd.

Dyluniwyd gan: MicroGraphics

Argraffwyd gan: Design 2 Print

Mae hawlfraint pob erthygl yn eiddo i'r awdur.


# Cynnwys

<b>Gair gan y Golygydd</b> <i>Goronwy Wynne</i>	3	<b>Coed Derw</b> <i>C. Ll. G.</i>	37
<b>Dilyn Afon Twrch</b> <i>Dafydd Dafis</i>	4	<b>Gwarchod y Wiwer Goch</b> <i>Craig Shuttleworth</i>	39
<b>Blodau'r Mynydd</b> <i>Elizabeth C. Ellis</i>	6	<b>Diogelu Planhigion Prin</b> <i>Rhodri Clwyd Griffiths a M. Dolores Lledò</i>	43
<b>Cofio'r Llwybrau</b> <i>Harri Williams</i>	9	<b>Brych y Gro</b> <i>Emrys Evans</i>	46
<b>Atgofion</b> <i>Gwyn Jones</i>	11	<b>Y Balerina Binc</b> <i>Gareth Wyn Griffiths a Gary Easton</i>	48
<b>Argraffiadau o Rydychen</b> <i>Bethan Wyn Jones</i>	13	<b>Craig-adwy-wynt</b> <i>John Davies</i>	51
<b>Dathlu Jiwibili Arian</b> <i>Dafydd Dafis</i>	16	<b>Llên y Llysiau</b>	54
<b>Y Fran Goesgoch</b> <i>Dave Lamacraft ac Adrienne Stratford</i>	18	<b>Cerddi</b> <i>Gwyn Thomas</i>	55
<b>Adar Conwy</b> <i>Alun Williams</i>	22	<i>Ehuned Mai</i>	56
<b>Addysg ar y Fferm</b> <i>Jonathan Neale</i>	24	<b>Llun Pwy?</b>	56
<b>Enwau Byd Natur</b> <i>Tom Elias</i>	25	<b>Nodiadau Natur</b> Llysiau	59
<b>Ieir Bach yr Haf</b> <i>Tom Elias</i>	30	Mamaliaid	60
<b>Gwella Bywoliaeth</b>		<b>Lleoedd a'r Bardd</b> <i>Lun Roberts</i>	61
<b>Ffermwyr Tlawd</b> <i>Einir M'Young</i>	31	<b>Wyddich chi</b>	63
<b>Cyfrinachau'r Cen</b> <i>Duncan Brown</i>	34	<b>Llythyrâu</b> <i>Beti Hughes</i>	64
<b>Erwau'r Pysg</b> <i>N. Closs-Parry</i>	35	<i>Dilys Parry</i>	65
		<b>Adolygiadau</b> Dysgl Bren	66
		High Summits of Wales	68
		Gwraig Orau o'r Gwragedd	68
		Wild Flowers	70

# Gair gan y Golygydd

*Goronwy Wynne, Gwylfa, Licswm, Treffynnon,  
Sir Fflint, CH8 8NQ.*

*Ffôn: 01352 780689*



Dyma ni yn bump ar hugain oed. Dywedodd rhywun nad oedd pen blwydd yn dweud pa mor bell y mae dyn wedi mynd, ond pa mor hir y bu ar y ffordd! Pa mor bell a gerddodd Cymdeithas Edward

Llwyd mewn chwarter canrif?

Dyma ychydig o ystadegau (dywedodd rhywun arall fod ystadegau fel bicini - yn dangos yr hyn sy'n ddiddorol ond yn cuddio'r hyn sy'n bwysig!).

Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1978 gan Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, Sir Gaerfyrddin. Erbyn hyn, mae gennym dros fil o aelodau.

Ar hyn o bryd, trefnir oddeutu 120 o gyfarfodydd maes bob blwyddyn (mae hwn yn well enw na 'theithiau cerdded' - gobeithio ein bod yn gwneud mwy na cherdded!). Mae'r stondin ar faes y 'Steddfod wedi bod yn llwyddiant mawr ac yn tyfu mewn poblogrwydd ac yn gwella mewn diwyg o flwyddyn i flwyddyn.

Trefnir nifer (dim digon) o gyfarfodydd gwaith e.e. codi waliau cerrig yn Rhes-y-Cae, plannu moresg yn Harlech, plannu coed yn Abergwyngregyn.

Cynhelir darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol yn rheolaidd e.e. y ddarlith flynyddol yn Licswm, Sir y Fflint. Ym mis Tachwedd eleni, roedd y neuadd yn orlawn i wrando ar Iolo Williams yn sôn am 'Adar Cymru'.

Mae'r Gynhadledd Flynyddol yn ymweld â gwahanol ardaloedd yng Nghymru, gyda darlithoedd, arddangosfeydd, cyfarfodydd maes ac ati ac mae'r Cyfarfod Blynyddol yn rhoi cyfle i bawb leisio barn.

Mae'r *Naturiaethwr* wedi ymddangos yn ddifwlch o'r cychwyn - rhyw 46 rhifyn erbyn hyn ac, ers rhai blynyddoedd, mae'r *Cylchlythyr* yn ein cadw gyda'n gilydd ac yn rhannu gwybodaeth a syniadau.

Mae gwerthu da ar ein llyfr newydd *Planhigion Blodeuol, Conwydd a Rhedyn*, yr ail yn y gyfres ar enwau Cymraeg.

Mae'r Is Bwyllgor Marchnata wedi datblygu'n gyson ac yn awr yn gwerthu pob math o nwyddau er budd y Gymdeithas.

Mae prosiect Llên y Llysiau yn paratoui erthyglau ar y berthynas rhwng dyn â'r planhigion.

Dros y blynyddoedd, bu'r Gymdeithas yn lleisio barn ar nifer o bynciau angylcheddol, megis melinau gwynt.

Rhoddir grantiau sylweddol i fyfyrwyr ac i eraill i helpu gyda gwaith ymchwil.

Mae gennym Lyfrgell fechan wedi'i lleoli ym Mhlas Tan y Bwlch, canolfan sydd bob amser yn ein cefnogi.

Chwiliwch amdanom ar y we, y cyfeiriad yw [www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk](http://www.cymdeithasedwardllwyd.org.uk)

Dylem gofio bod hyn i gyd yn dibynnu ar waith gwirfoddol yr aelodau. Rydw i newydd gwblhau tair blynedd fel Cadeirydd - cyfnod sydd wedi cryfhau fy argyhoeddiad o werth y Gymdeithas yn y Gymru gyfoes a charwn ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb sy'n cyfrannu mor hael mewn amser, arian a brwdfrydedd at Gymdeithas Edward Llwyd.

Mae 'na air yn y Beibl yn rhywle sy'n crynhoi'r cyfan -

"Canys yr oedd gan y bobl galon i weithio".

Pen blwydd hapus a daliwch ati.

G.W.



# Dilyn Afon Twrch

## Taith gyntaf Cymdeithas Edward Llwyd 8 Gorffennaf 1978

Dafydd Dafis

Derbyniais lythyr gan Alun Wyn Bevan, athro ysgol a darlledwr o Frynman, yn fy ngwahodd i arwain taith ar hyd yr afon Twrch, afon sy'n ymuno â'r afon Tawe yn Ystalfera yn rhanbarth uchaf Cwmtawe. Yn ei lythyr, gofynnodd i mi dynnu sylw'r grŵp at bethau'n ymwneud â byd natur. Dylwn sôn yma fy mod wedi bod yn darllen llyfr yng nghyfres Gŵyl Dewi ar *Edward Llwyd FRS 1660-1709* gan Frank Emery (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru 1971). Cafodd aelodau'r Gymdeithas gyfle i gwrdd â'r awdur pan oedd yn traddodi ei drydedd ddarlith yn y gyfres *Edward Llwyd Memorial Lectures* a gynhaliwyd yr adeg honno yn Oriel Eryri (Amgueddfa Genedlaethol Cymru) - ar 3 Mawrth 1985. Ei destun oedd 'Edward Llwyd and Snowdonia'. Gwnaeth ei lyfr ar Edward Llwyd argraff ddofn arnaf ac roedd i ddylanwadu ar ganlyniadau'r daith roeddwn ar fin ei harwain nid nepell o'm hen gartref yng Nghwmgiedd.

Man cyfarfod y daith oedd y bont (SN 755 126) dros yr afon Twrch yn Ystradowen, pentref ger Cwmllynfell yn Sir Gaerfyrddin. Dilynwyd y llwybr sy'n dechrau ym Mhowys ar ochr ddwyreiniol yr afon. Ymhlith y coed ar lan yr afon, mae'r ddwy dderwen, Derwen Goesog (*Quercus robur*) a'r Dderwen Ddigoes (*Quercus petraea*) ac ar eu dail gwelwyd Gwyfyn Gwyrdd y Dderwen (*Tortrix viridana*), gwyfyn sy'n perthyn i'r grŵp microlepidoptera ac sy'n bennaf gyfrifol am ddifa dail ein coed derw. Er iddyn nhw ddodwy wyau ar y brigau yn ystod Mehefin a Gorffennaf, ni fyddat yn deor tan fis Mai y flwyddyn ganlynol. O dan y coed ac ar y tomennydd glo ar hyd y rhan hon o'r daith gwelwyd y canlynol:

Bedwen Lwyd (*Betula pubescens*), Helygen Lwyd (*Salix cinerea* subsp. *oleifolia*), Edafeddog Lleiaf (*Filago minima*), Peradyl Bach (*Leontodon saxatilis*), Pysen y Ceirw (*Lotus corniculatus*), Creulys y Rhosydd (*Senecio sylvaticus*), Gruw Gwyllt (*Thymus polytrichus*), Meillionen Goch (*Trifolium pratense*), Meillionen Wen (*Trifolium repens*), Gliniogai (*Melampyrum pratense*), Caldrist Llydanddail (*Epipactis helleborine*), Marchrawn Mawr (*Equisetum telmateia*). Diddorol yw nodi pan oeddem ar y daith ugain mlynedd yn ddiweddarach, fod y Marchrawn Mawr yn dal i dyfu yn yr un man a thra roeddwn yn tynnu sylw at y planhigyn, estynnodd Dyfed Elis Griffiths ffosil i mi roedd wedi'i gasglu o'r domen lo gerllaw; darn o'r ffosil *Calamites* oedd ac yn perthyn i'r un grŵp, Sphenopsida, ag yw'r Marchrawn Mawr. Mae'r Sphenopsida wedi'u rhannu'n bedwar grŵp: Hyeniales, Sphenophyllales, Calamitales ac Equisitales a hwn yw'r unig grŵp sy'n fyw heddiw, ffosilau yw'r lleill i gyd. Tyf y Marchrawn Mawr hyd at uchder o chwe troedfedd a hwn yw'r talaf o'r genws ym Mhrydain.

Wedi i ni groesi'r bompren ar draws yr afon Twrch, cawsom ein hunain yn Sir Gaerfyrddin a'r peth cyntaf a dynnodd ein sylw oedd Aethnen (*Populus tremula*) unig ar lan yr afon. Roedd mewn man delfrydol gan fod y goeden yn mynnu cael digon o olau; ni all oddef cystadleuaeth gan goed sy'n taflu cysgod. Mae'n perthyn i'r grŵp o goed a elwir poplys ac, fel pob poplysen, mae'r coed gwryw a'r coed benyw ar wahân. Enw Cymraeg arall arni yw Tafod y Merched am fod y dail yn symud mewn unrhyw awel o wynt!



O'n blaen, roedd ceunant dwfn a thra bod y rhan fwyaf o'r parti yn cael hoe fach, mentrodd dau ohonom i mewn i'r hafn. Roedd ei ochrau'n uchel a serth, y golau'n wan a lleithder yr awyr yn uchel. Anodd oedd mynd iddo ond cawsom ein gwobrwyo pan ddaethom ar draws y Rhedynen Gyfrdwy (*Osmunda regalis*), Gwrychredynen Galed (*Polystichum aculeatum*), Duegredynen Werdd (*Asplenium viride*) a'r Gronnell (*Trollius europaeus*), tair rhedynen ac un llysieuyn blodeuog i lonni calon naturiaethwr.

Ar ôl i'r ddau ohonom ymuno â'r gweddill, roedd peth dringo o'n blaen i ddod o hyd i'r llwybr sy'n arwain at Ffrydiau Twrch. Aeth y llwybr â ni ar draws llethr gwlyb ac yma gwelsom Gorhedydd y Waun yn codi o'i nyth ac yna'n disgyn gan redeg o'n blaen a llusgo un aden ar y llawr mewn ymdrech i dynnu ein sylw o'r nyth. Rhestrwyd y planhigion oedd yn tyfu ar y llethr hwn fel bod record gennym ohonynt. Roeddent yn cynnwys un planhigyn annisgwyl:

Gwlyddyn Mair y Gors (*Anagallis tenella*), Grug (*Calluna vulgaris*), Grug Deilgroes (*Erica tetralix*), Creiglus (*Empetrum nigrum* subsp. *nigrum*), Llyisiau Crist (*Polygala vulgaris*), Helyglys Gorweddodl (*Epilobium brunnescens*), Briwydden y Rhosdir (*Galium saxatile*), Gefel-lys y Gors (*Hammarbya paludosa*), Eurinllys y Gors (*Hypericum elodes*), Llafn y Bladur (*Narthecium ossifragum*), Melog y Cŵn (*Pedicularis sylvatica*), Tafod y Gors (*Pinguicula vulgaris*), Tresgl y Moch

(*Potentilla erecta*), Corsfrwynen Wen (*Rhyncospora alba*), Clychlys Eiddew (*Wahlenbergia hederacea*). Gan fod y tegeirian bach Gefel-lys y Gors yn un anghyffredin ceir mwy o wybodaeth o'i gynefin trwy restru planhigion ychwanegol a nodwyd ar y daith gyntaf hon: Sbigfrwynen Goch (*Eleocharis quinqueflora*), Clwbfrwynen y Mawn (*Tricophorum cespitosum*), y mwsoglau *Scorpidium scorpioides* tebyg i fwydod du!, *Sphagnum auriculatum*, *S. cuspidatum* a *S. nitens*. Mae'r tri olaf o ddiddordeb arbennig am fod Gefel-lys y Gors yn aml yn tyfu mewn clustog o figwyn. Hefyd, nodwyd gerllaw'r tegeirian y llyisiau'r afu *Ricardia pinguis* a *R. multifida*.

Wedi cyrraedd Ffrydiau Twrch lle mae dŵr yn byrlymu o'r ddaear, dechreuodd fwrw glaw o ddifrif. Erbyn hyn, roedd dau arall wedi ymuno â ni ar ôl cerdded drwy'r niwl dros y mynydd o Benycae ym mlaenau Cwmtawe. Troesom ar ein sodlau a gwneud ein ffordd ar frys trwy'r glaw trwm yn ôl i'r ceir ac ymlaen i'r George IV yng Nghwmtwrch am bryd o fwyd. Yn y sgwrs a gawsom, roedd y grŵp am i mi baratoi adroddiad o'r daith ac yn awyddus am ragor o deithiau. Wedi cyrraedd adref, roeddwn wedi penderfynu beth oedd angen ei wneud - sefydlu cymdeithas a'i galw yn Gymdeithas Edward Llwyd gan ei fod ef wedi'i alw 'y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop' a chael cylchgrawn a'i alw Y *Naturiaethwr*. Roedd dod i'r fath benderfyniad yn hawdd; byddai gwireddu'r freuddwyd yn llawer anoddach.



# Blodau'r mynydd yn ardal Beddgelert

Elizabeth C. Ellis

Ar gais y diweddar Wil Jones, Croesor, y cofnodais daith Cymdeithas Edward Llwyd i weld blodau'r mynydd yn ardal Beddgelert ar yr ail ar bymtheg o Fehefin, 1995, a chyda caniatad parod Ann, ei briod, y mae'n ymddangos yma. Naturiaethwr oedd Wil a theithiau natur oedd y teithiau a arweinid ganddo - pob taith wedi ei threfnu'n ofalus, ei wybodaeth yn sicr a'i iaith yn goeth. Nid sawl milltir o daith oedd yn bwysig ond sawl anifail, sawl aderyn, sawl coeden, sawl blodyn a sawl cen y sylwyd arnynt. Cymdeithas i sylwi ar gyfoeth byd natur yw Cymdeithas Edward Llwyd yn ei hanfod, ac er mor ddifyr yr holl deithiau nid pob taith sy'n cyflawni'r gofynion hyn. Byddai'r teithiau a arweinid gan Wil yn cyflawni holl amcanion y Gymdeithas a phawb ar ddiwedd y teithiau yn gyfoethocach ei wybodaeth ac yn well naturiaethwr mi gredaf,

Ddydd Gwener, yr unfed ar ddeg ar hugain o Hydref 2003, ymunais ag Ann, a theulu a chyfeillion Wil i weld plannu Derwen yng Nghoed Llyn Mair ger Maentwrog - ei hoff fangre - i gofio amdano. Bydd y goeden yn tyfu ac yn harddu'r fan ac yn llawn atgofion. Bydd plac yno yn dynodi 'Coeden Wil'. Ewch draw i Goed Llyn Mair i wyllo'r tyfiant.

Troi o'r A4058 ger arwydd Menter Coedwigaeth Cae'r Gors - rhwng Rhyd Ddu a Beddgelert, a chyfeirio i faes parcio hwylus. Dyma fan cychwyn y daith oedd i

fynd â ni i Foel yr Ogof i weld rhai o flodau'r mynydd.

Bore digon llaith a thywyll ydoedd - yn sicr nid y tywydd a ddisgwyliid ar drothwy Gŵyl Ifan. Clywn amryw yn darogan glaw, "Glaw mae hi'n addo a gwaeth yn y p'nawn." Ond "am y tywydd gorau tewi," a dyma gychwyn - dau ar hugain ohonom dan arweiniad Wil Jones, y naturiaethwr o Groesor - heb anghofio cyfraniad Ann ei briod i'r daith.



Wil Jones, Croesor

O'n blaenau 'roedd Moel Hebog, Moel yr Ogof a Moel Lefn ac o'n cwmpas y cymoedd - Cwm Llwy, Cwm Bleiddiaid, Cwm Llefrith a Chwm Meillionen. Cyrraedd ffordd y goedwig - coedwig fytholwyrdd a blannwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r ffordd trwy'r goedwig yn ffordd dda hawdd i'w cherdded a rhoddai hyn fwy o gyfle i ni i sylwi ar natur o'n cwmpas ac nid oedd prinder o bethau diddorol i ddenu ein sylw.

Arhoswyd i sylwi ar amryw o flodau gwylltion. - rhai cyffredin fel Melog y Cŵn (*Pedicularis sylvatica*) a'r

Blodyn Menyn (*Ranunculus acris*) ond hefyd mewn pwll bychan gwelsom yr Ellesgen (*Iris pseudacorus*) ac ar ymyl y ffordd tyfai Helyglys Seland Newydd (*Epilobium nerterioides*). Sut yn y byd y death y blodyn hwn o hyd i Feddgelert tybed? Gwelwyd Tafod y Gors (*Pinguicula vulgaris*) a Mefus Gwyllt (*Fragaria vesca*). Oedwyd hefyd i wrando ar y Troellwr Bach







Craf y Geifr (*Allium ursinum*) ger ogof Owain Glyndwr

(*Locustella naevia*) y Dryw Eurben (*Regulus regulus*) a Thelor yr ardd (*Sylvia borin*) sydd mor debyg ei gân i gân y Telor Penddu (*Sylvia atricapilla*)

Trwy'r goedwig rhed Afon Meillionen, Afon Hafod 'Ruffydd Isaf ac Afon Cwm Du i ymuno ag Afon Colwyn ar ei thaith i Feddgelert. Roedd tir llaith y goedwig yn gynefin delfrydol i redyn. Gwelsom Redyn Mair (*Athyrium filix-femina*), March Redyn (*Dryopteris filix-mas*) a'r Rhedyn Gwib (*Blechnum spicant*) sydd â'i goesyn fel asgwrn pennog. Er mai coedwig fytholwyrdd yw Coedwig Cae'r Gors, gwelwyd ambell Ffawydden Gopr (*Fagus sylvatica*) â'i dail coch-ddu yn sefyll allan ynghanol y gwyrdd.

Cerdded ymlaen nes cyrraedd llecyn agored lle 'roedd llawer o goed wedi eu torri. Dyna pryd y clywyd y gair cinio - gair y mae croeso iddo ar bob taith! Aros, a hawdd fu cael lle i eistedd gan fod yno ddigonedd o fonion coed. O'r awyr rwy'n siwr yr edrychem fel criw o ddyneddon yn

cael parti. Roedd yn llecyn delfrydol i aros am ginio, onibai i bla o wybed benderfynu ciniawa yr un pryd â ni! Taniodd un o'r criw sigâr. Hamlet tybed? Wn i ddim, ond mi wn mai'r ysmygwr hwnnw oedd yr hapusaf yn ein plith yn ystod amser cinio.

Wedi'r wledd, ymlaen am ychydig cyn troi trwy goed, lle 'roedd angen cryn ofal wrth droedio - ac yna tros gamfa i le agored. Ymlaen ar i fyny at graig lle tyfai llwyni o Bren y Ddannoedd (*Sedum rosea*).

'Roeddem erbyn hyn islaw Ogof Owain Glyndŵr, ac 'roedd niwlen ysgafn yn chwarae mig rhwng y creigiau a'r ogof ei hunan fel pe'n gwgu arnom. Nid aethom i fyny i'r Ogof ond meroedd nifer ohonom i agen nepell oddi tani, ac yn wir dyma uchafbwynt y daith - cyfoeth o flodau mynydd.

'Roedd Pren y Ddannoedd yma eto, ei enw yn cyfeirio ato fel planhigyn llesol at boen y ddannoedd. Enw arall arno yw Rhoslys, sy'n cyfeirio at y persawr a geir wrth wasgu ei wraidd. Yn yr agen hefyd tyfai'r Tormaen Serennog (*Saxifraga stellaris*), planhigyn eiddil yr olwg ond rhyfeddol ei wytnwch. Serch ei enw Lladin 'saxum' yn golygu craig a 'frango' - yn golygu torri, go brin y gall ei wreiddiau holli cerrig. Ers talwm ar sail ei enw Lladin defnyddid ef fel meddyginiaeth at gerrig y bustl. Yn yr ail ganrif ar bymtheg honnid y gallai ei wreiddiau, pe cymysgid hwy a gwin â finegr, wella'r Pla. Gall ymwithio ei wreiddiau i'r hafnau culaf ac yn unol â'r Serennog yn ei enw ymddengys ei fod yma yn yr ucheldir yn ceisio ymgynraedd at y sêr.

Roedd Tormaen arall yma hefyd, y Tormaen Mwsoglyd (*Saxifraga hypnoides*). Yr ucheldir yw ei gynefin yntau ac mae'n gyffredin yng Nghymru, yn enwedig yn Eryri. Ceir ef hefyd yn y Pennines, yn



Ardal y Llynnoedd ac yn yr Alban a gall fyw cyn uchod â phedair mil o drodfeddi uwchlaw'r môr. Blodyn gwyn ydyw gyda gwawr binc ar ymylon ei flagur.

Tlws hefyd oedd y Rhedyn Corniog neu Redynen y Graig (*Phegopteris connectilis*). Tyfai'r Eurwialen (*Solidago virgaurea*) yma hefyd, ond nid oedd eto yn ei flodau. Pan flodeua bydd ei flodau euraidd yn gwrthgyferbynu â'i gefndir llwydaidd. Bu mynd mawr arno fel llysieyn llesol at wella clwyfau.

Sigla'r Pabi Cymreig (*Meconopsis cambrica*) ei ben euraidd yn yr awel. Aed â llawer o'r blodyn hwn o'i gynefin i erddi, ond mynnodd llawer ohono ddychwelyd i'r gwyllt. Gwelais ef yn siriol ymyl y ffordd yn Rhyd Ddu ar fy nhaith heddiw. Yn wahanol i bob pabi arall, gwasgar y Pabi Cymreig ei hadau trwy hollt ac nid fel o focs purur.

Tri blodyn arall a welwyd yn yr agen oedd y Gronnell (*Trollius europaeus*) Suran y Mynydd (*Oxyria digyna*) a'r Arianllys (*Thalictrum flavum*) a'r cwbl yn werth eu gweld.

Wrth gychwyn yn ôl daethom ar draws llwyni o Graf y Geifr (*Allium ursinum*) mewn pantle rhwng creigiau. Dyna i chwi olygfa - ei betalau gwyn fel lês gywrain yn

cyhwfan yn yr awel. Teulu'r Garleg yw'r planhigyn hwn, ac arferid ei ddefnyddio i roi blas ar fwyd. Rhoddai flas Garleg ar lefrith y gwartheg a'i bwytâi hefyd. Pe sathrech y planhigyn gallech aroglï Garleg. Ei enw saesneg yw Ransoms a nododd John Ray pan ar ei daith trwy Gymru ar drywydd planhigion yn 1662 mai ar ôl y planhigyn hwn yr enwyd Ramsay Island, - sef Ynys Dewi ar arfordir Penfro, a hynny oherwydd fod cymaint o'r blodau hyn yn tyfu ar yr ynys.

'Nôl â ni tros y gamfa i lecyn agored lle bu clicio prysur ar y camerau i roi ar gof a chadw lun o'r criw hwyliog.

Dychwelyd i ffordd y Goedwig i'w throedio'n ôl i'r maes parcio, - ond nid yn hollol yr un ffordd chwaith - mae'r Goedwig yn labrith o lwybrau.

Do wir cafwyd taith hynod ddiddorol ac agorwyd cil y drws ar fyd cyfoethog blodau'r ucheldir - a do - fe gadwodd y glaw y bu cymaint darogan amdano - draw. Ni chafwyd dim mwy na rhyw smwc o law mynydd.

Fuoch chi rywdro yng nghyffiniau Ogof Owain Glyndŵr? Os byth y cewch y cyfle, peidiwch â'i golli - yn enwedig ym mis Mehefin.

---

## Deng mlynedd yn ôl



Pabell y Gymdeithas, Eisteddfod 1993  
Iris Davies, Iwan Roberts, Joan Dafis, Dafydd Dafis

Llun: Brian Evans



# Cofio'r Llwybrau

Harri Williams

*Ein dymuniadau gorau i Harri, fel Cadeirydd newydd Cymdeithas Edward Llwyd.*

Mae'n rhyfedd darllen yr hen gopiâu o'r Naturiaethwr a cheisio cofio ar ba daith y bum ac ar ba ddyddiad. Mae'n wir bod aml i daith wedi'i gwneud droeon ond mae rhyw newydd-deb ynddynt bob tro.

Mae sawl taith o dan arweiniad y diweddar Dilwyn Roberts yn dod i gof, fel yr un ym 1988 ar Gefn Sidan, a'r cerdded i weld olion y llong Paul ar Ben y Tywyn. Fel y gŵyr llawer, nid traeth syth yw Cefn Sidan ond un tro hir a'r terfyn byth yn y golwg a'r cerdded hir yn ôl i'r maes parcio a hynny cyn dyfod y dyddiau blin a'r talu am fynd i'r traeth.

Ond yr amser gorau o fod gyda Dilwyn oedd yn nechrau'r 80au ac ar y troeon pan welwyd y gŵr hwnnw yn ei elfen yn cofnodi adar Dyffryn Tywi yn enwedig, y gwyddau gwylltion. Anodd yw dychmygu gwell golygfa na thros 3000 o'r gwyddau talcen gwyn (*Anser albifrons albifrons*) yn hedfan dros gastell Dryslwyn, ar ôl codi o'r meysydd pori rhwng Ro Fawr a Thŵ Pica. Daeth tro ar fyd, ac am amryw o resymau prinhaus wnaethant hyd at 1998 pan na ddaeth yr un teulu yn ôl.

Wn i ddim sawl tro y bu Ken Maddocks â thaith i lawr Ogof Ffynnon Ddu ond, ar un yn unig y bum i. Roedd y cerdded i lawr yn weddol hawdd trwy'r agenni cul yng ngolau'r lamp ond y cerdded yn ôl oedd waethaf. Roedd pob gris fel mynydd

yn y mwrlwch du ac erbyn cyrraedd golau dydd, roedd coesau pawb yn codi'n awtomatig ac felly y bu am bron i wythnos.

Wrth drefnu taith, rhaid cofio bron yn ddiethriad, bod yn rhaid dod yn ôl i'r man cychwyn. Da y cofiaf y cyfarfod ger Penlle'r Castell rhwng Rhydaman a Chlydach yn '83 a thaith i lawr yr afon Clydach gan olrhain yr hen ddiwydiant glo ac wedyn yn ôl i'r ffordd fawr a'r Filltir Fain o'n blaenau. Roedd rhan olaf y daith yn union fel hen lun o fyddin Napoleon yn dychwelyd o Foscow - un llinell hir o'r blinedig rai.

Ac o sôn am ddod yn ôl i'r dechrau, bu taith o Gefn Cribwr i'r Twmpath Dilwith uwch ben Maesteg pan gollwyd yr arweinydd (ni chofiaf ei weld ar daith wedyn) a rhywsut cael hyd i lwybr oedd yn mynd i lawr drwy'r coed. Rhyfeddod mawr i bawb oedd ein gweld yn nrws cefn Orendy Margam a'r cerbydau yng Nghefn Cribwr!!

Diddorol yw gweld yn Rhifyn 4 o'r Naturiaethwr, hysbysu taith ar 8 Tachwedd 1980 - 'Creigiau a Mwynau Manod'. Llinell hyfryd o gynganedd sain! Anodd yw credu mai ar ddamwain ei lluniwyd ac felly dyma her,- englyn i gynnwys y llinell hon.





## Llongyfarchiadau i'r Naturiaethwr ar ei benblwydd yn 25 oed!

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwarchod dros 43,000 hectar (107,000 o aceri) o gefn gwlad yn ogystal â dros 137 milltir o arfordir yng Nghymru. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r corff cadwraeth mwyaf yn Ewrop.

Os hoffech ein cefnogi neu ymuno â ni,  
**ffoniwch: 0870 458 4000**



# Atgofion am a fu (Dyledwr wyf)

Gwyn Jones (Gwyn Pen y Garn)

Drycin a'm gyrodd i babell Cymdeithas Edward Llwyd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergwaun ym 1986. Cael fy hun mewn pabell fach gyda gŵr a'm hamddifadodd o bum punt heb ddim trafferth a finnu'n credu y cawn yno loches di-dâl. Byddwn yn arfer cyfarfod Dafydd Dafis yn Rali Flynnyddol Adran Allanol y Brifysgol cyn iddo sefydlu'r Gymdeithas, yntau'n hyfforddwr dosbarthiadau a finnu'n ysgrifennydd Dosbarth Pen y Garn am tua ugain mlynedd. Cefais gyfle i barhau f'addysg yng nghwmni'r cymeriadau crwn y deuthum i'w nabod yn rhengoedd y Gymdeithas, gan ddechrau trwy ddilyn Brian Evans, yr ysgrifennydd ymroddgar, i ben Pumlumon Fawr. Nid oedd ond yn rhaid gwrando ar haearn yn hogi haearn i



Emrys Evans yn traethu ar daith Cylchu'r Manod Mawr, a'r awdur yn gwranddo.

elwa'n fawr a hynny mewn cwmni diddan a direidus. Ddoe ddiwethaf, Aled Jones, mathemategwr, seryddwr, hanesydd yn dyfynnu Wittgenstein yr athronydd ym Melin y Coed, Llarnwst. Deuthum yn ymwybodol o faint y gymwynas yr oedd olynnydd Twm Sion Cati, (onid oedd yr ogof yn gyfleus iddo ger Rhandirmwyn?) wedi'i gyflawni wrth fynd â'm pum punt oddi arnaf i ddyn braidd ar chwâl, ar ôl ymddeol ond cwta ddwy flynedd ynghynt.

Gallaf ddweud na fu fawr o Sadyrnau ar un adeg, pryd y byddai taith neu waith, na fyddwn wedi fy machu yn y tresi rhywle rhwng Mynydd y Rhiw a Mynydd y Gwair. Ni fu'n edifar gennyf chwaith fentro mor bell â Llanilltud Fawr yn y Fro, na chroesi'r ffin ddwy waith i Sir Amwythig gyda'n Golygydd galluog i astudio corsydd ac i droedio'r Long Mynd. Symbylodd hyn fi i fynd yn ôl i Wenlock Edge yng ngwlad A E Houseman ac i'r Stiperstones.

Buom ar goll mewn niwl ar y Mynydd Du ond gan fod Dewi Caerfyrddin gyda ni, buan iawn y daethom o hyd i'r 'bwlch tua thref'. Cymerodd fwy o amser i ni ddod trwyddi ar Fynydd Hiraethog cyn dod o hyd i'r hyn sy'n cyfateb i'r Hafod Lom. Bum yn cellwair efo Norman Closs Parry a Hari Huws gan edmygu eu gallu i broffwydo dyfodiad y Gwanwyn i Hafod Elwy lle ces 'eira'n uwch na chynffon buwch' heb gymorth y benllwyd neu 'bydd-byw-yr-eidion-du' sef blagur plu'r gweunydd. Clywais ymadrodd tebyg am y milfw gan John Cae'r Gof, y Foel, hanesydd y cawsom ein goleuo ganddo ar lawer i daith gan gynnwys hanes y Crynwyr ym Maldwyn. Tra'n sôn am John, daw cyfraniad dau hen gydymaith iddo a ninnau i'r cof: 'Olion ddoe dddadlennodd in/A nefoedd ein cynefin' o gywydd coffa i John Huw, Y Plasau ac 'Yn y wlad ysgol ydoedd/Yn ei gwm dysgedig oedd' i'w gymydog Tom yr Erw, Llanymawddwy gan aelod arall, y bardd/amaethwr Tegwyn Jones.

Er nad wyf yn fotanegydd, cefais grap ar gymunedau o blanhigion yr ucheldir, diolch yn bennaf i'r ecolegydd, Dr R Elwyn Hughes a chefais fudd o ddilyn Iorwerth Ellis Williams i Gwm yr Afon Goch i astudio effaith pori ac o ddilyn yr hen Wil,



Croesor i'r Arddu, Cnicht, a Chadair Idris. Gwnes ymdrech i helaethu'm gwybodaeth o blanhigion neilltuol trwy ddilyn Maldwyn Thomas i'r Gadair i weld y tormaen coch ar ddiwrnod gwlyb trybeilig; Dafydd Dafis i Melin Cwrt, Resolfen i weld rhedyn prin ac Iwan Roberts i Lanarmon yn Iâl i weld planhigion y garreg galch. Bum hefyd yng Nghwm Idwal yn gweld planhigion Edward Llwyd a chofiaf ddarllen am yr Athro John Lloyd Williams yn mynd â myfyrwyr yno o gwmpas y Pasg. Daethant i lawr o'r mynydd ar eu cythlwg i gael te mewn bwthyn ger Llyn Ogwen. Ceisiai'r Athro ffraeth brysuro'r hen wraig yno i wneud pethau ynghynt ond cafodd ei atgoffa ganddi nad oedd yn rhaid prysuro ond i wneud un peth, sef dal chwannen.

Dylwn gydnabod goddefgarwch a pharodrwydd y mwyafrif o aelodau'r Gymdeithas i'm derbyn i'r seiat, er gwaethaf f'ymdrechion i sicrhau dyfodol i'r fferm deuluol ar yr ucheldir. Cofiaf Williams Condry yn cellwair y dylai'r Gymdeithas deimlo'n bryderus 'am i mi lwyddo i ymdreiddio i'w rhengoedd'. Cawsom 'ryddid Ynys Hir' ganddo yng nghysgod Iwan, y mab hynaf ac aelod o'r RSPB ar ôl i ni fod yno fel teulu yn torri a llogsi'r 'rydidendrons' chwedl Twm Elias. Dylwn nodi ei farn digamsyniol ar gyfer y naturiaethwyr hynny nad ydynt eto'n wladwyr, bod yn rhaid llogsi grub. Bu'n holi am y gair hirluwr ac anfonais gyfieithiad bras o englyn y Cilie iddo ac awgrymu bod 'the long tarrying of winter' gan ei gyfaill R S Thomas yn berthnasol.

Bum ar bymtheng niwrnod gwaith, llai nag un y flwyddyn ar gyfartaledd. Torri brwgaets yn Niwbwrch a Chors Geirch a'r 'rydidendrons' ym Mhlas Tan y Bwlch a Nant Gwynant; plannu morhesg ar Forfa Harlech a choed yn Nhalgarreg a dinoethi chwarelly yn Llandeilo a Llangadog. Adeiladu giat mochyn yn Nhremadog a phompren yn Chwilog o dan gyfarwyddyd Dafydd Hughes, Tŷ Croes Bach, Rhiw a'r hen Wil, Efail Rhos yn hwsmon. Cefais wahoddiad i Dŷ Croes Bach i godi'r nenffyrch amser ail godi rhan o'r tŷ fferm yn yr hen ddull. Bellach mae'r tai allan yno



Tom Llwyngwilym gynt ac Erw Garegog wedyn, yn cofnodi, yn ôl ei arfer efo'i bwt o bensil

wedi'u toi â hesg gan gynnwys sguor newydd, lle gall plant ddod i ymarfer trin coed gyda hen offer.

Ni cheir y melys heb y chwerw a chefais ysgytiad ger Llannerch-yrfa gan mai fi oedd yr olaf i siarad ag Emrys Harries a'r cyntaf i'w ddarganfod wedi syrthio'n farw ar

daith i'r Drygarn Fawr o dan arweiniad Dafydd Dafis. Gwasgarwyd ei lwch ar daith gyda'i gyfaill Arwel Michael o Gwm Giedd i'r Tyle Garw ar y Mynydd Du ger carreg lle byddai Emrys yn hoffi mynd am dro, 'Carreg Emrys' erbyn hyn. Bellach, mae'r hen Howard Lloyd wedi ein gadael ond daliaf i glywed ei lais yn dyfynnu Landor i ni uwch Llanthony, Henry Vaughan, y Siluriad yn Nhre Tŷr ac yn adrodd hanes Carnhuanawc, un o 'Hen Bersoniaid llengar' a Bedwyr Lewis Jones yng Nghwm Du. Gwelsom gerrig beddau ym Mhatrisio a Chwm Iou wedi'u lliwio o lysiau gan deulu'r Brute sy'n dal i amaethu yn yr ardal. 'Et tu Brute', yn ôl Howard i gofio'r enw. Gogwyddai hen eglwys Cwm Iou i bob cyfeiriad ond, yn ôl adroddiad y cynllun atgyweirio yn y cyntedd, 'the church is now at rest'. Byddai Howard a minnau'n cwyno am hen arferiad gwarthus Dafydd a Dewi o ddiflannu ar ambell Sadwrn i ddilyn cwrs daeareg yn Abertawe. Buom yn dyfalu a oedd cydberthynas cadarnhaol rhwng hyn a'r amseroedd y byddai Llanelli yn chwarae Abertawe? Ta beth, bod 'too much yn ormod, oedd y dyfarniad ar y daeareg'.

Cyngor Dewi, yr hen gerddwr cadarn a phrofiadol, i mi yng Nghwm Wysg efo Hywel Price ar ôl i mi gwyno i'm cefn, oedd 'wado bant' ac mae'n werth yr ymdrech i fwrw mlân a cheisio dal ati ymhlith aelodau gwerinol, goleuedig a gwâr y Gymdeithas.



Fel rhan o ddathliad Cymdeithas Edward Llwyd yn 25 oed eleni, aeth rhyw 50 o'r aelodau ar ymweliad â Rhydychen i ddilyn ôl troed Edward Llwyd. Dyma ddau adroddiad yn cofnodi'r un profiad trwy lygaid gwahanol.

# Argraffiadau o'r dathlu yn Rhydychen

Bethan Wyn Jones

Talwrn, Ynys Môn

Ar un olwg roedd mynd i Loegr i ddathlu pen blwydd Cymdeithas sy'n edrych ar ryfeddodau naturiol Cymru yn ddewis od. Eto, credaf fod penderfyniad aelodau'r Gymdeithas i fynd i Rydychen i ddilyn ôl troed Edward Llwyd yn un cywir. Rhyw bedwar dwsin ohonom ni fentrodd i Goleg yr Iesu i ymuno yn nathliadau'r Gymdeithas, a braf iawn oedd cael cyfle i weld rhai hen gyfeillion ac i gyfarfod â rhai newydd.

I Goleg yr Iesu, Rhydychen yr aeth Edward Llwyd pan fu farw ei dad yn 1682, ac yntau'n ddwy-ar-hugain oed, ac roedd yn brofiad gwyach cael cyfle i aros yng Ngholeg yr Iesu a cheisio dychmygu sut roedd hi yno yn nyddiau Llwyd. Mae'n bur debyg fod y capel yn ddigon tebyg i'r hyn ydyw heddiw - yn gymharol fach a'r seti lawn mor galed ag unrhyw sêd capel mewn unrhyw le o addoliad yng Nghymru. Er mwyn i Llwyd gael derbyn addysg prifysgol, roedd yn rhaid iddo fod yn aelod o'r Eglwys Anglicanaidd ac roedd yn orfodol i'r myfyrwyr fynychu oedfa ar y Sul. Ond tybed ble roedd meddwl Llwyd yn crwydro wrth syllu ar y ffenestri lliw yn ystod yr oedfa? Mi wyddom nad oedd o'n derbyn athrawiaeth y Beibl am y dilyn er enghraifft, ac mae'n bur debyg fod ei wybodaeth am anifeiliaid, planhigion a ffosiliau eisoes yn ddigon eang i beri iddo ddechrau meddwl am ddamcaniaethau gwahanol i'r creu.

Roedd Edward Llwyd yn fab i Briget Pryse, Glanfrêd - un o deulu enwog Gogerddan ac Edward Lloyd, Llanforda,

Croesoswallt. Cafodd ei fagu gyda theulu ei dad yn Llanforda, ac yn ifanc iawn mi fyddai wrth ei fodd yn trampio'r ardal i



Ffiolredynen Frau (*Cystopteris fragilis*) Rhan o gasgliad Llwyd. Trwy ganiatad Fielding-Druce, Herbarium, Rhydychen

chwilio am blanhigion a ffosiliau. Mae'n fy atgoffa i braidd o hanes y Carl Linnaeus ifanc gan fod hwnnw hefyd o'r un anian ac yn gwirioni ar deitho'r wlad yn rhydd i chwilota a chasglu. Mae'n debyg fod Edward Llwyd hefyd wedi dod o ddan

ddylnwad y botanegydd Edward Morgan, Bodysgallen ac mae sawl hanesyn amdano yn crwydro'r wlad o gwmpas ei gartref yn casglu a chofnodi.

Cwta flwyddyn fu Edward Llwyd yng Ngholeg yr Iesu cyn iddo fo gael gwahoddiad gan Elias Ashmole ei hun i weithio'n ei amgueddfa newydd yn Rhydychen. Erbyn heddiw, y 'Museum of the History of Science' ydi'r Hen Ashmolean, ond mae'r adeilad fwy neu lai fel roedd o yn nyddiau Llwyd. Stephen Johnston o'r amgueddfa roes gyflwyniad i ni ar sut le oedd yna yng nghyfnod Llwyd a beth sydd i'w weld yno heddiw.



Roedd Elias Ashmole wedi etifeddu casgliad John Tradescant a'i fab oedd yn arddwyr i'r goron ac yn wŷr oedd wedi teithio a chasglu'n helaeth. Felly rhwng casgliad Ashmole ei hun a chasgliad Tradescant roedd yna gryn dipyn o waith rhoi trefn ar bethau, ac yn yr hen Ashmolean y dechreuodd Edward Llwyd wneud hynny.

Tri llawr sydd yna i'r adeilad, ac ar y llawr ucha mae'n debyg oedd yr ystafell ble dechreuodd Llwyd weithio yn 1683. Yn ddifyr iawn, mae gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud yno yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn y llwch dan un o'r lloriau, fe ddaethpwyd ar draws darn o seren fôr hefo rhif arni. Mae'n wybyddus fod gan Llwyd ddiddordeb byw yn yr Echinodermata a thybed oedd hon yn sbesimen o un o'r casgliadau y buodd o'n gweithio arny'n nhw?

Yn nghyfnod Edward Llwyd, labordy cemeg oedd yn y seler ac ystafell i edrych ar ryfeddodau byd natur ar y llawr cyntaf. Da oedd deall fod y cyhoedd, sef ffermwyr cyffredin o'r ardal o gwmpas Rhydychen, yn arfer galw i fewn ar ddiwrnod marchnad i weld y rhyfeddodau. Roedd rhai yn gwaredu at yr arferiad yma, ac yn synnu'n

fwy fyth eu bod yn gadael merched hyd yn oed i fewn yno!

Ond nid lle i astudio, trefnu, ymchwilio a chatalogio yn unig oedd yr Ashmolean yn y cyfnod yma. Roedd o hefyd yn fan ble roedd myfyrwyr yn cael eu dysgu, ac mi fyddai Llwyd wedi bod yn rhan anhepgor o'r dysgu a'r ymchwilio yn ogystal â'r catalogio. Yn yr ail ganrif-ar-bymtheg roedd yr Hen Ashmolean ar flaen y gâd o safbwynt arloesi ym myd ymchwil a dysgu am wyddoniaeth ac fe barodd y drefn yma o ddysgu ac ymchwilio am tua dau gan mlynedd.

Dr Robert Plot oedd ceidwad cyntaf yr amgueddfa ac fe benododd Llwyd yn is-geidwad ar yr amgueddfa yn 1687. Llwyd hefyd wnaeth ei ddilyn fel Ceidwad yr amgueddfa yn 1691 - swydd roedd o wedi bod yn ei llygadu ers tro. Dydi hi ddim cyfrinach fod Edward Llwyd wedi bod yn hynod o feirniadol o Plot yn ystod ei flynyddoedd olaf, serch mai Plot oedd wedi rhoi ei gyfle cyntaf iddo ac wedi bod yn fentor iddo am sawl blwyddyn.

Yn ogystal â gweld copi o'i lyfr fe gafwyd cyfle i weld peth o gasgliad Llwyd ei hun yn Amgueddfa Byd Natur y Brifysgol. Yno ein harweinydd oedd Mr



Rhan o gasgliad Llwyd o ffosiliau.







Coleg yr Iesu, Rhydychen

Paul Geoffrey oedd yn ddigon caredig i gasglu at ei gilydd ran o gasgliad Llwyd mewn llond dau gwydr. Fe nododd fod Llwyd yn hoff iawn o fynd ar deithiau i wneud gwaith maes a chasglu ei hun ac amryw o'r teithiau hynny i Gymru.

*"He was a man very much ahead of his time,"* meddai Paul Geoffrey am Llwyd, gan nodi mai ychydig iawn o'r 1766 o ffosiliau y gallai eu harddangos i ni. Hyfrydych oedd cael cyfle i weld llyfr Llwyd oedd yn trafod ffosiliau o Brydain ac a gyhoeddwyd yn 1699, a rhaid cofio mai 120 o gopiau a gyhoeddwyd yn wreiddiol. Gyda llaw, roedd o wedi ei ysgrifennu (mewn llawysgrifen yn naturiol!) mewn Lladin, ond mae ei ddisgrifiadau o mor gywir fel fod modd adnabod y ffosiliau roedd o'n cyfeirio atyn nhw hyd yn oed heddiw.

Cafwyd cyfle i ymweld â Llysieufa Fielding/Druce yn Rhydychen ble mae rhai o'r planhigion a gasglwyd gan Llwyd yn cael eu cadw. Difyr oedd edrych ar un enghraifft a gweld fod yna nodyn wedi ei sgrifennu yn Gymraeg yn nodi mai'r fan y casglwyd o oedd ar "Clogwyn Du yn yr Arddu - Snowdon", ac wedi cael ei arwyddo "D. Lloyd". Mae'n debyg ei fod yn arferiad yn y cyfnod hwnnw i alw unrhywun oedd wedi bod yn gweithio ac yn dysgu'n y brifysgol yn ddoctor o ran cwrteisi ac fel arwydd o werthfawrogiad o'r gwaith roedd o'n ei wneud. Dyna'r 'D' o flaen y Lloyd.

Amheuthun hefyd oedd gweld rhan o gasgliad Tradescant yn yr Ashmolean

Newydd, sef y casgliad y bu Llwyd yn gweithio arno. Mi gawsom ni hefyd weld y catalogau luniwyd gan Llwyd yn ystod y cyfnod cynnar dan gyfarwyddyd Dr Robert Plot, yn ogystal â 'Llyfr y Noddwyr', ble mae'r unig lun hyd y gwyddom ni o Edward Llwyd.

Mi fu Edward Llwyd farw o niwmonia yn 1709 ac yntau'n ddim ond 49 mlwydd oed - niwmonia roedd o wedi ei ddal drwy



Drws y Dwyrain, yr Hen Ashmolean, Rhydychen

weithio'n rhy galed a chysgu ar wely tamp yn yr Hen Ashmolean, yn ôl pob tebyg.

Roedd yn wych cael cyfle i ymweld â Rhydychen i weld ble roedd o wedi byw, meddwl, casglu, catalogio, ymchwilio a dysgu, ond i mi be sy hyd yn oed yn well ydi fod y Gymdeithas sy'n arddel ei enw yn dathlu ei phen blwydd eleni yn bump-ar-hugain oed. Mae'r diolch am hynny yn bennaf i Dafydd Davies, Rhandir Mwyn, oedd yn Rhydychen hefo ni ac oedd yn rhan mor allweddol o'r dathlu.



# Dathlu Jiwbili Arian

## Ymweliad y Gymdeithas â Rhydychen

### 18-20 Awst 2003

Dafydd Dafis (Llywydd Cymdeithas Edward Llwyd)

I goroni'r flwyddyn bwysig hon yn hanes Cymdeithas Edward Llwyd, penderfynwyd ymweld â Choleg Iesu, Rhydychen, lle bu Edward Llwyd yn fyfyrwr ym 1682 ac a adnabyddir fel y 'Coleg Cymreig'. Roeddem yn awyddus i weld lle bu Llwyd yn byw am y rhan helaethaf o'i fywyd gan weithio yno a marw yno. Gadawyd y cyfan o'r trefniadau cymhleth yn nwylo Mal James - mae ein dyled yn fawr iddo. Dymunol iawn oedd cael 47 aelod ar yr ymweliad a'u bod hwy wedi'u rhannu bron yn gyfartal rhwng gogledd a de Cymru.

Wedi cyrraedd Coleg Iesu ar brynhawn dydd Llun, 18 Awst, manteisiodd nifer ohonom ar y cyfle i grwydro o amgylch y coleg. Cawsom weld capel (1621) y coleg, un o'r enghreifftiau gorau sydd o bensaerniaeth grefyddol Jacobaidd. Agorwyd drysau'r Neuadd Fawr lle roeddem i gael ein prydau bwyd; mae'n enghraifft ardderchog o hen neuaddau coleg gyda'i nenfwd wedi'i foldio a'i baentio, waliau yn addurn o baneli a nifer o luniau sy'n cynnwys portread o Syr John Rhys (1840-1915) a fu'n brifathro ar Goleg Iesu o 1895-1915, y bachgen tlawd a anwyd ym mwthyn Aberceiro Fach wrth droed Pumlumon yng Ngheredigion ond, a dyfodd i fod yn ysgolhaig a ieithydd enwog. Roedd yr amser a gawsom yn llyfrgell y coleg yn rhy fyr o lawer o ystyried y drysorfa o lyfrau oedd yno. Un llyfr a ddangoswyd i mi oedd *Historia Conchyliorum*. Yr awdur oedd Martin Lister ac ym 1685, cyflwynodd ei gasgliad o gregyn i'r hen Amgueddfa Ashmole yn ogystal â thros fil o'r darluniau gwreiddiol ohonynt a wnaethpwyd gan ei ddwy ferch Susannah a Mary ar gyfer y llyfr. Cyflwynodd Llwyd ei gopi ef o'r *Conchyliorum* i Goleg Iesu a dyma'r llyfr a

welais i. Gerllaw'r coleg mae Eglwys Sant Mihangel. Aethom i mewn a mynd i'r Ale Gymreig gan fod Edward Llwyd wedi'i gladdu oddi tani ym 1709. Nid oes unrhyw arwydd ar y muriau fod Llwyd wedi'i gladdu yn yr eglwys. Wedi swper ar ein diwrnod cyntaf yn Rhydychen, aethom i Ystafell Habakuk i wrando ar Simon a Mererid Moffett yn sôn am eu profiadau fel myfyrwyr yn Rhydychen, Mererid yng Ngholeg Somerville i ferched a Simon yng Ngholeg Iesu. Ar ôl priodi, aethant i fyw yn Crundale ger Hwlfordd yn Sir Benfro.

Bore trannoeth, aethom ar daith fer o gwmpas y colegau. Rhannwyd ni yn ddau barti a chawsom ddau dywysydd proffesiynol i'n tywys. Mynd yn gyntaf i Theatr Sheldon a adeiladwyd ym 1664-70 gan Syr Christopher Wren. Yma y cynhelir y seremoniau graddio a'r cyfan trwy gyfrwng yr iaith Ladin. Cawsom olwg ar Lyfrgell Bodley. Hon yw prif lyfrgell Prifysgol Rhydychen ac mae'n un o'r rhai mwyaf, mwyaf cyfoethog a hynaf yn y byd. Cafodd yr hawl ym 1610 i gael copi o bob llyfr a gyhoeddir ym Mhrydain ac felly, daeth yn llyfrgell hawlfraint gyntaf; mae pump ohonynt erbyn hyn gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Aethom heibio i dŷ'r seryddwr Edmond Halley yn New College Lane; mae'n ŵr enwog am iddo broffwydo y byddai comed eto i'w gweld ym 1758. Yng Nghapel y Coleg Newydd (1379!), buom yn gwerthfawrogi ac yn rhyfeddu at drysorau'r adeilad - y ffenestri lliw o'r saith rhinwedd, cerflun Lasarus gan Epstein, llun Sant Iago gan El Greco a crosier William de Wykeham, Esgob Caerwynt

Yn y prynhawn, aethom ar daith gerdded i hen Amgueddfa Ashmole lle bu





Dilyn Edward Llwyd, Rhydychen, 2003

Llwyd yn Geidwad; erbyn hyn, fe'i gelwir yn Amgueddfa Hanes Gwyddoniaeth. Hon yw'r amgueddfa gyhoeddus hynaf ym Mhrydain - agorwyd ym 1683 pan oedd Llwyd yn fyfyrwr yng Ngholeg Iesu ac, yn ei amser ef, gelwid hi yn Amgueddfa Ashmole. Yn awr, mae ynddi offer gwyddonol sy'n dyddio'n ôl i amser maith; maent yn cynnwys: astrolabau watshis a chlociau, offer meddygol a bwrdd du Einstein. Cawsom ein croesawu gan y ceidwad, Dr Johnston ac aeth â ni i fynyr grisiau i'r ystafell lle bu Llwyd yn treulio llawer o'i amser. Soniodd am y newidiadau i'r amgueddfa ers dyddiau Llwyd, y defnydd a wneir ohoni yn awr ac yn y gorffennol. Crwydro wedyn drwy'r amgueddfa i weld offer gwyddonol sy'n dyddio'n ôl mor bell â'r nawfed ganrif.

Treuliwyd gweddill y prynhawn yn Amgueddfa Byd Natur Prifysgol Rhydychen. Yn yr adeilad hwn, mae casgliadau swlegol, daearegol, entomolegol a mwynyddol i ddiidori'r ymwelydd. Yr hyn sy'n eich taro ar unwaith wrth fynd i mewn yw deinosor deugain troedfedd o hyd ac un lleol yw. Yr arddangosion o ddiidorddeb arbennig i aelodau'r Gymdeithas oedd dau gas arddangos o ychydig o ffosilau Llwyd gan gynnwys yr ail argraffiad o'i lyfr ar ffosilau *Lithophylacii Britannici Ichnographai*, y catalog cyntaf o ffosilau a gyhoeddwyd ym Mhrydain. Roedd yr argraffiad cyntaf yn Lladin ond yr ail yn Saesneg; y llall oedd cas gwydr o'r ysgerbwdd mwyaf cyflawn o

ddyn Paleolithig ym Mhrydain y gwyddys amdano (camenwyd 'Dynes Goch Pafiland'). Lleolir Ogor Pafiland ar lan y môr ym Mro Gŵyr. Y noson honno, daeth Philip Powell, cyn Is Geidwad Adran Daeareg yr amgueddfa a oedd newydd ymddeol, i draddodi darlith i ni ar hanes yr amgueddfa. Gofynnodd Marian Davies o Dycoc, Abertawe iddo ar ddiwedd ei ddarlith: "Pryd allai Cymru ddisgwyl cael yr ysgerbwdd yn ôl?" Ni fodlonwyd yr un ohonom gyda'i ateb!

Dydd Mercher, 20 Awst, rhaid oedd brysio i Ardd Fotaneg Rhydychen ar lan yr afon Cherwell lle cawsom gyfle i fwynhau amrywiaeth eang o goed, llwyni a blodau o fewn golwg i dŵr Coleg Magdalen. Brysio eto wnaeth ychydig ohonom o'r ardd i ymweld ag Adran Gwyddorau Planhigol lle cedwir rhai o'r planhigion a gasglodd Llwyd ac a welir yn Herbariwm Fielding/Druce yno. Da oedd gweld y planhigion mewn cyflwr da tri chan mlynedd wedi'u casglu, rhai ohonynt yn brin iawn o fynyddoedd Eryri, fel: Derig (*Dryas octopetala*), Tormaen yr Eira (*Saxifraga nivalis*) a Choredynen Alpaidd (*Woodsia alpina*).

Yna, anelu at Amgueddfa Ashmole lle croesawyd ni gan Dr Arthur MacGregor. Aeth â ni i Ystafell Tradescant, ystafell y byddai gan Edward Llwyd gyfrifoldeb curadurol drosti pan oedd yn yr Hen Ashmole. Yn ei anerchiad, talodd deyrnged uchel iawn i Llwyd gan ei ddisgrifio fel un o'r goreuon a welodd Prifysgol Rhydychen. Dangosodd rai o gatalogau llawysgrifol Llwyd i ni. Roedd wedi casglu'r rhain pan oedd yn cynorthwyo Dr Robert Plot, ceidwad cyntaf yr Ashmole; Llwyd a'i dilynodd fel ceidwad. Gwelsom hefyd Llyfr y Cymwynaswyr.



# Gweithio dros y frân goesgoch yng Nghymru

Dave Lamacraft ac Adrienne Stratford

*Swyddfa Gogledd Cymru RSPB Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2DW*



## Y frân goesgoch

### *(Pyrrhocorax pyrrhocorax)*

Mae'r frân goesgoch yn aderyn prin sy'n prnhau yn Ewrop ac, o ganlyniad, mae'n cael ei hamddiffyn yn unol ag Atodiad 1 Cyfarwydddeb CE 79/409/EEC (Gwarchod Adar Gwyllt). Mae'r aderyn enigmatig hwn ar y rhestr ambr yng Nghymru a Lloegr fel aderyn o bryder cadwraeth, ac wedi'i restru fel prif rywogaeth bioamrywiaeth dan Adran 74 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru a rhywogaeth LBAP\* trwy'r rhan fwyaf o Gymru.

Aelod o deulu'r frân yw'r frân goesgoch. Gellir gwahaniaethu rhyngddi â brain eraill oherwydd ei phig coch, crwm, triwiadol, ei choesau coch a'i phlu du gloyw.

Roedd gynt yn gyffredin yn y DU, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y frân goesgoch yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, erbyn hyn, mae wedi'i chyfyngu i boblogaethau ynysig yng Nghymru, Cernyw, Gogledd Iwerddon a'r Hebrides Mewnol.

Yn ôl yr arolwg diweddaraf yn 2002, mae 262 o barau yng Nghymru, sy'n cynrychioli tua 75% o boblogaeth Prydain, a chynnydd poblogaeth fridio o 40% ers 1982. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r 142 pâr ym 1982 a 177 pâr ym 1992. (Thorpe a Johnstone, 2003). Nod cychwynnol yr arolwg oedd nodi nifer y parau bridio er mwyn cadarnhau statws





Map 1: Cynllun Adfer Cynefin y Frân Goesgoch: Ardaloedd Allweddol

cadwraeth y frân goesgoch yng Nghymru. Mae ei statws rhestr ambr yng Nghymru a'r DU yn adlewyrchu'r ymateb cadarnhaol i adfer cynefin ac yn dynodi pryder cadwraeth cymedrol. Cysylltir y frân goesgoch gydag amrywiaeth o gynefinoedd naturiol, lled-naturiol ac amaethyddol lle maent yn bwydo ar anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n byw mewn tail a phridd ac yn ddibynnol iawn ar reolaeth tir i ddarparu amodau bwydo addas.

### Prosiect Adfer Cynefin y Frân Goesgoch

Cyllidwyd y prosiect tair-blynedd, yn rhannol, gan raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd o Ebrill 2000 i Fawrth 2003. (Y dull sylfaenol oedd gweithredu amrywiaeth o gamau eiriolaeth, rheoli tir, rheoli profion a monitro yn canolbwyntio ar 19 Ardal Allweddol (gweler Map 1), sydd wedi'u dewis oherwydd eu pwysigrwydd i'r frân goesgoch, er mwyn cynnal a chadw'r cynefinoedd hyn ar eu cyfer).

### Rheoli Cynefin

Nodwyd prosiectau yn y cynlluniau rheoli Ardaloedd Allweddol a'u gweithredu wrth i gyfleoedd godi. Roedd prosiectau'n amrywio ac yn cynnwys rheoli rhedyn, adfer cloddiau a gwaith cyfalafol ar adfer tir pori.

### Gweithio mewn partneriaeth

Gweithredwyd y prosiectau gydag amrywiaeth eang o bartneriaid oedd yn cynnwys ffermwyr unigol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Prosiect Rhostiroedd Byw Sir Benfro a Grŵp Astudio Brân Goesgoch Sir Benfro.

Lluniwyd cynlluniau rheoli ar gyfer pob un o'r 19 Ardal Allweddol gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Cafodd cynefinoedd eu rheoli trwy gyllido prosiectau'n uniongyrchol neu trwy ddylanwadu ar ddulliau rheoli sefydliadau a chynlluniau eraill e.e. Tir Gofal, yr



Y Frân Goesgoch

Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.


### Y Frân Goesgoch yn Chwarel Penmaenmawr

Bu gweithwyr mewn chwarel yng Ngogledd Cymru yn helpu i sicrhau safle nythu pwysig i'r frân goesgoch yn ystod 2002 a 2003.

Mae'r frân goesgoch wedi bod yn magu yn chwarel Penmaenmawr ers blynnyddoedd, ond roedd y nyth yn darged



cyson i gasglwyr wyau anghyfreithlon. Soniwyd am y rhain ar raglen Crimewatch y BBC yn ddiweddar. Yn dilyn cyfarfod gyda staff prosiect RSPB Cymru, gwnaeth staff y chwarel newidiadau sylfaenol ond effeithiol i safle'r nyth. Mae'r frân goesgoch yn dychwelyd i'r un safle nythu am nifer o flynyddoedd. Bu brain croesgoch Penmaenmawr yn defnyddio sied wag ar safle'r chwarel i adeiladu nyth glyd, wlanog. Bu staff y chwarel yn adeiladu a gosod gridyllau metel cryf ar y ffenestri a'r drysau i rwystro pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn. Roedd y frân yn gallu mynd a dod fel y mynnai. Talwyd costau'r gwaith gan Hansons Aggregates, perchnogion chwarel Penmaenmawr, gwaith sydd eisoes wedi bod yn llwyddiant mawr gan i'r adar allu magu tri chyw iach yn 2003.



Brain Coesgoch yn bwydo ar dir glas.

### Y Frân Goesgoch ym Morfa Isaf

Gorchuddir darn o rostir arfordirol gan borfeydd bras trwchus gan nad oedd y tir wedi cael ei bori'n helaeth ers i ferlod fod yno. Mae'r brain croesgoch yn nythu a chlwydo gerllaw. Y farn oedd mai ail-gyflwyno merlod i bori'r safle oedd y ffordd orau i reoli'r lleoliad. Gwnaed gwaith ffensio a rhoddwyd cyflenwad o ddŵr ar y safle a bellach, mae merlod lleol yn pori'r tir.

### Prosiectau yn y Dyfodol

Mae prosiect newydd cyffrous wedi llwyddo i ennill grant sylweddol o dros £1m gan yr Undeb Ewropeaidd\*\*. Prosiect

partner cadwraeth yw 'On'd Ydi Adar Cymru'n Wych!' (AWBB) sy'n gweithredu gyda'r nod o uno cymunedau, tîrfeddiannwyr, ffermwyr, sefydliadau partner, a RSPB Cymru er mwyn gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd lleol, i'r cymunedau gwledig a threfol ac i'r adar lleol yn yr ardal Amcan Un.

Cyfanswm yr arian ar gyfer y prosiect yw £2.1m, gyda £1.1m yn dod o gyllid Ewropeaidd, £300,000 o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, £106,000 o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, £100,000 ychwanegol oddi wrth Enfys (rhan o raglen Meysydd Glas a Chymunedau Cynladwy Cronfa Cyfleoedd Newydd a weinyddir yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), a'r gweddill yn dod oddi wrth RSPB Cymru.

Saith rhywogaeth allweddol o adar tir fferm yw canolbwynt y prosiect sef y grugiar ddu, y frân goesgoch, y gornchwigen, y betrisen, coch y berllan, golfan y mynydd a'r bras melyn. Mae'r saith yn adar sy'n achosi pryder o safbwynt cadwraeth yng Nghymru.

Bydd prosiect AWBB yn dwyn manteision economaidd ac amgylcheddol i saith ardal weithredol yng Nghymru. Bydd amrywiaeth eang o brosiectau ar raddfa fechan yn cael eu cynnal yn Rhuthun (Sir Ddinbych), Pen Llŷn, Sir Fôn, Mawddach (Gwynedd), Ynys-hir (Ceredigion), Abergwaun (Sir Benfro), Abertawe a Gŵyr.

Bydd 'On'd Ydi Adar Cymru'n Wych!' yn hybu economïau lleol trwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfraniad gan y gymuned ac ennyn diddordeb twristiaid ac ymwelwyr â Chymru.

Bydd y prosiect yn parhau i ddatblygu'r gwaith a ddechreuwyd yn ystod prosiect adfer cynefin y frân goesgoch.

Bydd datblygu rhwydwaith mawr o brosiectau cadwraeth syml ond effeithiol yng ngogledd, gorllewin a de Cymru yn galluogi gwirfoddolwyr o bob oed a gallu i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywyd gwyllt yn eu cymuned. At hynny, nod AWBB fydd denu twristiaid ac ymwelwyr i Gymru i ymuno



â'r prosiectau hyn i gymryd rhan mewn teithiau a gweld y casgliad anhygoel o adar gwyllt sydd yng Nghymru.

Prosiect tair blynedd yw 'On'd Ydi Adar Cymru'n Wych!' ac mae'n un o'r rhaglenni cadwraeth cymunedol mwyaf a welwyd erioed yng Nghymru.

### **\*Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol\***

- \*\* Cyllidwyd 'On'd Ydi Adar Cymru'n Wych!' yn rhannol gan raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd trwy Gronfa Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewrop (EAGGF).
- Mae EAGGF yn gosod yr amcanion canlynol;
  1. Helpu i ddiogelu'r cyswllt rhwng ffermio arallgyfeiriol a'r tir.
  2. Gwella a chefnogi elfen gystadleuol amaethyddiaeth fel gweithgaredd allweddol mewn ardaloedd gwledig.
  3. Sicrhau arallgyfeirio economaidd mewn ardaloedd gwledig.
  4. Helpu i sicrhau bod cymunedau'n ffynnu mewn ardaloedd gwledig.
  5. Diogelu a gwella'r amgylchedd, y tirwedd a'r etifeddiaeth wledig.

Cyd-drefnir 'On'd Ydi Adar Cymru'n Wych!' gan RSPB Cymru mewn partneriaeth â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Enfys (rhan o raglen Meysydd Glas a Chymunedau Cynladwy Cronfa Cyfleoedd Newydd a weinyddir yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru).

### **Llyfryddiaeth**

Thorpe, RI a Johnstone, I (2003) The Status of the chough (*Pyrrhocorax pyrrhocorax*) in Wales 2002. *Welsh Birds* Cyf.3 Rhif. 5 (2003) 354-362. Cymdeithas Adareg Cymru.

Thorpe, RI a Young, A (2002) The Population Status of Birds in Wales: an analysis of conservation concern, 2002-2007 *Welsh Birds* Cyf. 3 Rhif. 4 (2002) 289-302. Cymdeithas Adareg Cymru.

Gregory, RD, Wilkinson, NI, Robinson, JA, Brown, AF, Hughes, J, Proctor, DA, Gibbons, DW a Galbraith, CA (2002) The population status of birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man: an analysis of conservation concern 2002-2007. *British Birds* 95: 410-450

## **Beth am hysbysebu?**

**Mae'r Naturiaethwr yn cyrraedd oddeutu 3,000 o ddarllenwyr ddwywaith y flwyddyn.**

**Tudalen lawn £100**

**1/2 tudalen £50**

**1/4 tudalen £25**

Cysylltwch â'r swyddog hysbysebion: Mrs. Heulwen Bott, Orchard Croft, Hill Road North, Helsby, Cheshire WA6 9AF (01928) 723351 neu â'r Golygydd.



# Adar Conwy

Alun Williams

*Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst*



Hwyaden Lwyd.

Yn ystod y degawd olaf, mae'r nifer o warchodfeydd gwylio adar wedi cynyddu ar hyd arfordir Gogledd Cymru, gwarchodfa yr RSPB yng Nghonwy, ym Madryn ger Llanfairfechan, Abergwyngregyn, Traeth Lafan a'r Foryd ger Caernarfon.

Datblygwyd dwy o'r gwarchodfeydd yma yn dilyn gwaith gwella yr A55 ac un o'm hoff lecynnau gwylio adar yw gwarchodfa'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yng Nghonwy. Yn wreiddiol, roedd yn llecyn i daflu llaid o wely'r aber wrth greu ffos i adeiladu twnel o dan afon Conwy. Cafwyd y syniad o droi'r domen yn warchodfa nature gan Mr David Phillips o Gyngor Aberconwy ac ers 1993 mae o dan ofal yr RSPB.

Crewyd 15 hectar o lynnoedd, 4 cuddfan a chanolfan ymwelwyr a thros dwy filltir o lwybrau natur. Mae gwarchod

cynefinoedd yn golygu gwaith caled i'r warden presennol Mr Alan Davies, golyga gadw golwg manwl ar lefel y dŵr fel bod digon o fwd a dŵr bas i ddenu adar mudo, torri'r borfa i ddenu cwtaid a phibyddion i nythu, creu cynefin arbennig i gornchwilogod a phlannu miloedd o goed.

Yr adeg orau i ymweld â'r warchodfa, yw pan fydd llanw uchel yn gwthio'r adar o'r aber i orffwys ar yr ynysoedd ac ar lannau y llynnoedd. Nid yw'n denu nifer mawr iawn o adar y glannau ond ceir amrywiaeth da gan gynnwys gylfinirod (*Numenius arquata*) rhostogod cynffonddu (*Limosa limosa*) rhostogod cynffonfraith (*L. lapponica*), pibyddion coesgoch (*Tringa totanus*), piody môr (*Haematopus ostralegus*), pibyddion (*Tringa nebularia*) a phibyddion y mawn (*Calidris alpina*). Mae'r llynnoedd yn dal nifer mawr o hwyaid







Pibydd Coesgoch

llydanbig (*Spatula clypaeta*), hwyaid llwydion (*Anas strepera*), hwyaid pengoch (*Aythya ferina*), hwyaid brongoch (*Mergus serrator*), chwiwellod (*Anas Penelope*) a hwyaid llygad-aur (*Bucephala clangula*) yn y gaeaf. Ar hyn o bryd sef mis Hydref mae sawl pâr o hwyaid cochion i'w gweld (*Oxyura jamaicensis*) gyda'r ceiliog a'i big glas yn amlwg iawn. Ysgwn i beth yw barn darllenywyr y Naturiaethwr am gynlluniau'r Llywodraeth i ladd yr hwyaid hyn, un o adar cynhenid America, gan fod y ceiliogod wedi hedfan i Sbaen ac yn bygwth yr hwyaden goch benwen (*Oxyura leucocephala*) sy'n aderyn prin iawn yn Sbaen. Mae'r ceiliogod pengoch yn trechu ceiliogod y benwen ac yn cymharu gyda'r ieir. Gan fod y croesiad yn ffrwythlon mae ofn y bydd nifer y benwen yn prinhaus ac yn diflannu o'r wlad.

Mae sawl pâr o gornchwiglod (*Vanellus vanellus*) wedi nythu ac mae cân yr ehedydd (*Alauda arvensis*) i'w chlywed yn weddol gyson, dau aderyn sydd wedi prinhaus a diflannu fel adar nythu o sawl rhan o Gymru.

Mae 42 o wahanol adar wedi nythu yn y warchodfa gan gynnwys y cwtiad torchog bach (*Charadrius dubius*) a rhegen y dŵr (*Rallus aquaticus*) ac mae 215 o adar gwahanol wedi'u cofnodi ers 1993. Ar bron i bob ymweliad yn ddiweddar, rwyf wedi gweld glas y dorlan (*Alcedo atthis*) yn pysgota o flaen y ganolfan ymwelwyr. Yn ystod mis Tachwedd, mae'r drudwy (*Sturnus vulgaris*) yn dod i glwydo, tua hanner miliwn ohonynt! Os am eu gweld, dylech gyrraedd rhyw awr cyn iddi nosi ac



Cornchwiglen

mae'n olygfa anhygoel gyda degau o filoedd yn troelli a chwyrlio fel un cyn clwydo. Mae sawl aderyn prin wedi'u gweld, gan gynnwys y fronlas (*Luscinia svecica*) a llydandroed Wilson (*Phalaropus tricolor*). Hefyd, gwelir gwalch y pysgod yn rheolaidd bob hydref. I athrawon sy'n darllen yr erthygl hon mae'n lle da iawn i fynd â phlant am ddiwrnod o waith maes ac mae athrawon Cymraeg ar gael i helpu.

Byddwch angen tua dwy awr i gerdded o gwmpas y warchodfa. Yn ogystal â'r adar, cofnodwyd dros 25 o loynnod byw, ac ar ddiwedd y gwanwyn, mae'r borfa yn llawn o flodau gwyllt. Ar lan yr afon, lle mae nifer o gerrig mawr, mae cyfle da i weld a thynnu llun y carlwm (*Mustela erminea*); ym mis Mai, rwyf wedi gweld teulu o chwech yn chwarae a'r rhieni yn lladd cwningen o flaen fy llygaid.

Cewch groeso cynnes yng Nghonwy bob amser ac os nad oes llawer o adar o gwmpas, mae cyfle i brynu llyfr, sbiendrych newydd, bwyd i fwydo'r adar neu gerdyn Nadolig.



Pioden y Môr



# Addysg ar y Fferm

Jonathan Neale

*Uwch swyddog cadwraeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru*

Rwy'n siŵr y gall y rhan fwyaf ohonom gofio trip ysgol i gefn gwlad, neu daith gerdded i hel pethau ar gyfer y 'Bwrdd Natur'. Yn ôl pob tebyg, roedd hi'n braf, y coed yn blaguro, yr awyr yn fyw a sŵn pryfetach yn hedfan hwnt ac yma. Rhamantaidd iawn; ond onid oes yna rywbeth arbennig mewn bod allan yn yr awyr agored yn dysgu am y byd o'n cwmpas?

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth cefn gwlad i fyd addysg ac mae wedi datblygu ambell i fenter i hyrwyddo hyn. Prif bwrpas cynllun Ffermio Tir Gofal yw gwella safonau amgylcheddol ar ein ffermydd ond mae hefyd yn gyfle i ffermwyr ddatblygu adnoddau addysgol yng nghefn gwlad. Ymwelais ag un o ffermydd Tir Gofal yn ddiweddar a braf oedd gweld beth oedd yno.

Mae Phyllis Evans yn ffermio defaid ac ychydig o wartheg ar lethrau Moel Ddu yn Y Gelli, Prenteg, ger Porthmadog. Mae cynllun Tir Gofal wedi galluogi Mrs Evans i ddatblygu 'Taith Gerdded Fynyddig' sy'n agored i grwpiau ysgol, trwy drefniant. Mae'r llwybr yn dilyn hen ffordd drol uwch ben Dyffryn Madog neu 'Traeth Mawr' fel y gelwid y lle cyn i'r cob gael ei adeiladu

ym 1831. Gynt, arferai'r môr gyrraedd Aberglaslyn ond, erbyn heddiw, mae tua phedair milltir o'r môr!

Yn wir, mae yna lawer o bethau i'w gweld ar y daith ac mae Mrs Evans wedi'u nodi mewn adroddiad cynhwysfawr a difyr. Ynndo, ceir braslun o hanes yr ardal, y brodorion a'u barddoniaeth. Gwelwyd bod teulu o 10 o bobl yn byw ym mwthyn Tai Cochion ym 1881 ond, erbyn heddiw, mae'n dŷ haf i deulu o Lundain. Mae yna lawer testun trafod ymysg y grug a'r brwyn yma a pha le gwell i blant ddysgu nag yn nosbarth eang ein cefn gwlad?

Mae cynllun Tir Gofal wedi helpu Phyllis Evans i gynnal amodau teg ar gyfer byd natur ac, ar yr un pryd, mae hi wedi gallu defnyddio'r cynllun at nod sydd yr un mor bwysig. Rydym i gyd yn gwybod bod ffermio wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn ond, tra bod modd defnyddio'r tir i greu rhywbeth o werth a safon, wel hir oes i gynllun Tir Gofal a brain coesgoch y Foel Ddu yw fy nghân!




# Enwau Byd Natur

Twm Elias

*Yn seiliedig ar sgwrs Twm Elias adeg lansio 'Enwau Planhigion Blodeuol, Conwydd a Rhedyn' yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod, Awst 2003*

Wyddoch chi be ydy picrelys, banhadlen Etna neu efwr enfawr? Enwau ar blanhigion ydyn nhw ac os edrychwch yn y gyfrol newydd 'Enwau Planhigion Blodeuol, Conwydd a Rhedyn' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Edward Llwyd yn ddiweddar, cewch eu henwau gwyddonol a Saesneg hefyd. Enwau ar blanhigion lled newydd i'r wlad yw y rhain - yn blanhigion gardd wedi dianc i'r gwyllt neu wedi cyrraedd yma'n ddamweiniol, mae'n bosibl. Mae'n dda cael yr enwau hyn oherwydd y galw mawr am enwau a thermau Cymraeg yn ymwneud â byd natur gan addysgwyr, cyfieithwyr, a naturiaethwyr yn gyffredinol y dyddiau hyn.



Ceir enwau Cymraeg ar greaduriaid a phlanhigion o gyfnod cynnar iawn a diddorol yw olrhain eu datblygiad a'r ymgais yn ddiweddar i'w safoni gan Banel Enwau Cymdeithas Edward Llwyd. Yn sicr, gall ein geirfa hanesyddol ddweud llawer amdanom ac am ein perthynas â'r

byd o'n cwmpas dros y canrifoedd. Yn y Mabinogi, er enghraifft, sydd â'u gwreiddiau mewn traddodiad llafar hynafol iawn, gwelwn gyffyrddiadau'r hen grefydd Geltaidd a llawer o gysylltiadau mytholegol â rhai o'r creaduriaid a'r planhigion a grybwyllir e.e. Eryr Gwernabwy, Carw Rhedynfre, Y Twrch Trwyth, Eog Llyn Llyw, yr Afanc chwedlonol a'r defnydd gan Gwydion y Derwydd o'r dderwen a'r erwaint i greu Blodeuwedd.

Yn Llawysgrifau'r Canol Oesoedd sy'n cynnwys y cywyddau, fersiynau o Gyfraith Hywel Dda a gweithiau Meddygon Myddfai ayyb, gwelir mai'r creaduriaid a'r planhigion defnyddiol neu economaidd bwysig megis anifeiliaid yr helwriaeth a'r anifeiliaid a phlanhigion sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, crefftau a meddyginiaethau, gaiff y prif sylw. Cofiwch nad planhigion yn unig a ddefnyddid mewn ryseitiau meddygol - sonir am waed llysywen a bustl ceiliog ynghyd â sug llysiâu'r wennol mewn un rysait ar gyfer y llygaid! Rhydd enwau lleoedd, llawer ohonynt yn hynafol iawn, nifer mawr o enwau i ni hefyd e.e. Carreg yr honwy, Coed y Bleiddiau, Eryri, Chwilog, Cegidfa ayyb. Prin yw'r enwau ar bethau nad oeddent yn economaidd bwysig ond mae ambell un yno e.e. y cyfeiriad at euryn - yr aderyn melyn prin hwnnw a gofnodwyd gan Gerallt Gymro ar ei daith drwy Gymru yn y 12fed ganrif ac oni sonir am y ddrudwen yn stori Branwen?

Erbyn yr 16eg a'r 17eg ganrif, rhwng llawysgrifau Williams Salesbury, y casgliad a elwir yn *Welsh Leech Book*, a chopiau o weithiau Meddygon Myddfai, gellir creu rhestr go sylweddol o enwau planhigion. Dyma hefyd pryd y cwyd yr hen broblem o ba blanhigyn yw p'run. Gwelwn, rhwng yr



enwau sydd erbyn hyn yn hynafol, yr amrywiaethau rhanbarthol a lleol ohonynt a chymysgwch pan fydd nifer o blanhigion



gwahanol yn cael yr un enw, fod angen cryn ofal weithiau!

Gwelir y casgliadau cyntaf o enwau yn y geiriaduron printiedig cynnar megis *Dictionary Duplex*, John Davies, Mallwyd (1632) ac yn *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, Thomas Jones (1688). Ceir atodiad difyr iawn o enwau Cymraeg/Saesneg ar blanhigion meddyginiaethol, coed a ffrwythau, oedd, yn sicr, yn sicr, yn adlewyrchiad teg o brif ddiddordeb pobl y cyfnod mewn planhigion. Ymgorfforwyd rhestrau tebyg mewn rhai geiriaduron Cymraeg byth oddi ar hynny e.e. *Geiriadur Llysieuol* (atodiad i *Geiriadur Llogell*), Ellis Jones (1840). Yn ddiweddarach, roedden nhw'n cynnwys enwau anifeiliaid ac adar hefyd e.e. *Y Geiriadur Mawr*, H Meurig Evans a W O Thomas (1958). Rhaid peidio ag anghofio ychwaith yr enwau o fydd natur yng nghyrol Edward Llwyd - yr *Archaeologica Britannica* (160&) ac yn ei *Parchialia* (a gyhoeddwyd mewn dwy ran ym 1909 ac 1910).

Nid oedd ymdriniaeth wyddonol o enwau planhigion yn y Gymraeg tan y *Welsh Botany*, Hugh Davies (1813) pan gyflwynodd yr awdur ei restr enwau mewn

trefn fotanegol. Aeth ati i fathu enwau pan oedd angen llenwi bylchau, gan greu, mae'n rhaid cyfaddef, ambell i erthyl rhyfeddol! Cafwyd rhestrau o enwau anifeiliaid, adar, ymlusgiaid, pysgod a phlanhigion yn *Faunula Grustnesis*, John Williams (1830) hefyd. Ond eto, yn gyffredinol, y pethau defnyddiol a gafodd y prif sylw o bell ffordd, fel y gwelwn yn y toreth o lyfrau meddygol a milfeddygol a gyhoeddwyd yn y 19eg ganrif e.e. *Llysieu-lyfr Teulucaidd*, R Price ac E Griffiths (1849); y *Llysieu-lyfr Teulucaidd* D T Jones (1881); *Y Meddyg Anifeiliaid*, E a J Edwards (1837). Bu'n rhaid aros tan yn ddiweddar iawn i'r pethau nad oeddent o werth economaidd, gael enwau.

Roedd y 19eg ganrif yn gyfnod o ddateni rhyfeddol mewn cyhoeddi yn y Gymraeg ac roedd y fersiwn Cymraeg o *Addysg Chambers* (2 gyfrol, 1851 ac 1860) a *Hanes y Ddaear a Chreaduriaid Byw* oedd yn gyfieithiad o weithiau Oliver Goldsmith (2 gyfrol 1866), yn uchelgeisiol ac yn arloesol. Ymdriniau'r cyfrolau hyn â byd natur o bob cwr o'r byd ond bod eu harddull yn sych grimp a'r enwau Cymraeg yn dra chlogyrnaidd! Siom enfawr oedd 10 cyfrol *Y Gwyddoniadur Cymreig* (a gyhoeddwyd rhwng 1856 ac 1879) oedd, er gwaetha'i enw, yn ddim amgenach na Geiriadur Beiblaidd!

Hefyd, ceir llawer o erthyglau yn ymwneud â byd natur yng nghylchgronau niferus y 19g ganrif e.e. *Cyfyll yr Aelwyd*, *Y Sylwedydd*, *Y Gwladgarwr*, *Gohud yr Oes* ayyb. Ymhlith y goreuon oedd *Cymru* O M Edwards, lle cyhoeddwyd nifer mawr o erthyglau difyr gan naturiaethwyr brwd megis Richard Morgan ac eraill, rhwng 1891 ac 1927.

Roedd diwedd y 19eg ganrif yn gyfnod o golli cyfle. Tra bod y gwyddorau biolegol disgrifiadol (tacsonomegol) yn eu bri ac ymgyrchoedd brwd i fathu a safoni enwau ar greaduriaid, adar, gwyfynod ayyb mewn nifer o wledydd Ewrop fel Lloegr a Ffrainc, ni chafwyd hynny yma. Yn hyn o beth, roedd y sefydliadau a ddylai fod wedi ymgymryd â'r gwaith - y Brifysgol a'r



Amgueddfa Genedlaethol yn ddiweddarch - yn esgeuluso eu dyletswyddau yn ddybryd drwy fethu/gwrthod â safoni a bathu enwau Cymraeg. Eto fyth, gwelwyd ambell lygedyn o oleuni wrth i rai unigolion brwd, o fewn a thu allan i'r cylchoedd academiaidd hyn, wneud gwaith arloesol e.e. Cymdeithas Llafar Gwlad, dan arweiniad T Shankland a fu'n defnyddio holiaduron (ym 1891) i gasglu'r enwau lleol ar adar. Ceir rhestrau enwau gwerthfawr yn *Flora of Anglesey and Carnarvonshire* J E Griffith (1895), *Adar ein Gwlad* J Ashton (1906) a *Fauna of North Wales* H E Forest (1907).

Er mai cymharol ychydig o gyfrolau byd natur a gyhoeddwyd dros yr hanner can mlynedd nesaf, heblaw am gyfrol fechan *Geiriadur o Enwau Blodau Gwyllt*, G Ifor Harry (1934); yr enwau Cymraeg yn *Welsh Ferns* H A Hyde ac A E Wade (1940) a *Geirfa Natur* Wynn P Wheldon (1945), roedd yn gyfnod llewyrchus i gylchgronau ar gyfer plant ac athrawon. Cafwyd *Cymru'r Plant* (1929 - ) a pheidied neb ag anghofio cyfraniadau naturiaethwyr fel T G Walker yn ei golofnau rheolaidd yn *Y Cymro a'r Herald Gymraeg* yn yr 1940au - 50au a Ted Breeze Jones yn *Yr Athro a Cymru'r Plant* yn yr 1950au - 80au.

Yna, yn yr 1960au, gwelwyd cyhoeddi dau gasgliad pwysig o enwau: *Enwau Adar* (1962) ac *Enwau Blodau, Llysiau a Choed* (1969) - y ddwy gyfrol gan Meirion Parry. Erbyn hyn, roedd cryn bwysau yn codi o'r



byd addysg am enwau a themau am fyd natur a'r amgylchedd yn y Gymraeg. Heb amheuaeth, roedd cyhoeddi cylchgrawn Y Gwyddonydd o 1963 ymlaen, yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes cyhoeddi gwyddonol yn y Gymraeg ac yn symbyliad i ddadeni eithriadol mewn cyhoeddi am bynciau technegol dros y deugain mlynedd nesaf. Do, cychwynnodd nifer o bethau yn y 60au ac roedd dechrau cyhoeddi o ddifrif yn y meysydd gwyddonol yn rhan o ddeffroad cenedlaethol ehangach y cyfnod pan na chymerai'r Gymraeg ei chyfyngu i'w rhigol ddiwylliannol mwyach.

Cyhoeddwyd *Termau Bioleg* (1967) ac *Enwau Planhigion* (1969) gan Wasg y Brifysgol - ill dau'n ymdrechion braidd yn

## Beth am hysbysebu?

**Mae'r Naturiaethwr yn cyrraedd oddeutu 3,000 o ddarllenwyr ddwywaith y flwyddyn.**


**Tudalen lawn £100**

**1/2 tudalen £50**

**1/4 tudalen £25**

Cysylltwch â'r swyddog hysbysebion: Mrs. Heulwen Bott, Orchard Croft, Hill Road North, Helsby, Cheshire WA6 9AF (01928) 723351 neu â'r Golygydd.





*Yn ymddiriedolaeth y Ffynhonnau a'r Gwyliau, "Adeu" y gŵd gan weller yn gollwng a gwynn.*

O Y Meddyg Anifeiliaid gan John Edwards, Caerwys a John Edwards, Abergele.

wan i safoni enwau, er yn llenwi bwlch ar y pryd. Cafwyd ychydig mwy o lwyddiant gyda'r *Geiriadur Termau Gwasg y Brifysgol* (1973), *Termau Bioleg, Cemeg a Gwyddor Gwlad CBAC* (1982) a *Flowering Plants of Wales* R G Ellis (1983). Ar y llaw arall, roedd *Rhestr o Adar Cymru* (Amgueddfa Genedlaethol Cymru) Ted Breeze Jones a P H Jones (1973) yn llwyddiant mawr o ran safoni enwau.

Y cam mawr nesaf, yn sicr, oedd sefydlu Cymdeithas Edward Llwyd ym 1979 a dechrau cyhoeddi *Y Naturiaethwr*. Daeth i'r amlwg yn syth ar deithiau'r Gymdeithas bod angen dybryd am enwau safonol ar greaduriaid a phlanhigion o bob math. Yn fwy na hynny, roeddem ar drothwy Oes Aur (1979-95) mewn cyhoeddi a darlledu ar radio a theledu am bynciau natur yn y Gymraeg - oedd yn pwysleisio'n fwy fyth yr angen am enwau. Roedd *Seiat Byd Natur* (1951-1994) ar y radio; *Awyr Iach, Bili Dowcar a Chefn Gwlad* ar y teledu; y cylchgronau *Cynefin* (1982-90), *Gwaith Maes* (1989 - ) a *Dan Haul* (1991 -99) mewn bri ac o 1975 hefyd, tyfodd poblogrwydd cyrsiau natur cyfrwng Cymraeg ym Mhlas Tan y Bwlch.

Sefydlodd Cymdeithas Edward Llwyd banelau o arbenigwyr mewn gwahanol feysydd ac yn gynnar yn yr 1980au, dechreuwyd cyhoeddi rhestrau o enwau safonol ar greaduriaid a phlanhigion yn *Y Naturiaethwr*:

*Enwau Mamoliaid* (1981); *Ieir Bach yr Haf* (1982); *Pysgod Dŵr Croew* (1983);


*Gwalchwyfynod* (1984); *Gwesynod a Mursenod* (1985); *Cregyn a Molwsgiaid eraill y Môr* (1985); *Creaduriaid y Traeth a Gwymonau* (1986); *Ffyngau* (1987); *Pysgod Môr* (1988); ac *Anffibiaid, Ymlusgiaid a Chrwbanod Môr* (1989).

Adolygwyd ac ehangwyd amryw o'r rhestrau hyn ac, ym 1994, casglwyd nifer ohonynt at ei gilydd a'u cyhoeddi yn *Creaduriaid Asgwrn Cefn*, sef y gyfrol gyntaf yn y gyfres arfaethedig: *Cyfres Enwau Creaduriaid a Phlanhigion* (Cymdeithas Edward Llwyd). Yn fuan wedyn, sefydlwyd panel newydd i fynd ati i baratoi'r ail yn y gyfres: *Enwau Planhigion Blodeuol, Rhedyn a Chonwydd* (a gyhoeddwyd yn 2003) ac aeth rhai ati i gasglu deunyddiau ar gyfer trydedd cyfrol a fydd yn ymwneud ag enwau creaduriaid diasgrwn cefn.

Yn y cyfamser, gwelwyd cyhoeddi nifer o gasgliadau pwysig o enwau lleol yn yr 1990au: *Enwau Adar Dewi E Lewis* (1994) ac *Enwau Blodau Gwen Awbery* (1995) - y ddau yng *Nghyfres Llafar Gwlad* ac *Enwau Planhigion* Dafydd Davies ac Arthur Jones (1995). Cafwyd hefyd *Flora of Flintshire* Goronwy Wynne (1993) gydag enwau Cymraeg ar y planhigion a *Planhigion Cymru a'r Byd* D Hayes (1995). Cam ymlaen sylweddol arall oedd *Geiriadur yr Academi* Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones (1995) sy'n cynnwys nifer mawr o enwau ar greaduriaid a phlanhigion o wledydd Prydain a rhannau eraill o'r byd hefyd.

Cafodd enwau ar adar tramor sylw gan Ted Breeze Jones a thra'n ffilmio dramor ar gyfer rhaglenni teledu *Awyr Iach*, aeth ati i baratoi rhestrau (heb eu cyhoeddi) o enwau *Adar Morocco* (1989) ac *Adar Gambia* (1990). Hefyd, lluniodd a chyhoeddodd *Rhestr o Adar Ewrop* Ted Breeze Jones a Ruurd Jorritsma (1996) i'w hymgorffori mewn rhestr o enwau adar yn y gwahanol ieithoedd Ewropeaidd: *Names of the Birds of the Western Palearctic* R Jorritsma (1996). Ceir hefyd *Rhestr o Adar Awstralia* Peter H Edwards (1999); *Rhestr o Adar Affrica Ddeheuol* D Fear (2000) ac mae *Rhestr o Adar y Byd* yn yr arfaeth





erbyn hyn hefyd. Yn yr un modd, talwyd sylw i'r mamaliaid ac ymgorfforwyd *Enwau Mamaliaid Ewrop* yn rhan o *Anviou Bronneged Europa* (2003) - cyfrol Lydaweg, Ffrangeg, Cymraeg a Saesneg a gyhoeddwyd gan Ofis ar Brezhoneg.

Bu sefydlu Cyngor Cefn Gwlad Cymru ym 1992 yn hwb mawr i'r ymgyrch i lunio rhestrau enwau a thermau Cymraeg. Roedd polisi dwyieithog statudol y corff newydd hwn a chyrrff eraill, yn golygu bod angen enwau safonol ar gyfer eu cyhoeddiadau cyhoeddus o bob math - yn dafleni gwybodaeth, byrddau dehongli ayyb. Cynyddodd y galw'n sylweddol erbyn diwedd yr 1990au wrth i'r Cynghorau Sir, y Parciau Cenedlaethol ayyb, fabwysiadu Cynlluniau Bioamrywiaeth i warchod rhywogaethau a chynefinoedd sy'n brin neu'n prinhaus.

Golyga'r Cynlluniau Bioamrywiaeth (sydd dan reolaeth y Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn) bod mwy o angen nag erioed am safoni enwau ac am fathu, yn ôl yr angen, ar gyfer rhai rhywogaethau prin (neu anghyfarwydd) na fu erioed

enwau Cymraeg na Saesneg arnynt o'r blaen - dim ond yr enwau gwyddonol. Amserol felly, yw cyhoeddi *Enwau Planhigion Blodeuol, Rhedyn a Chomwydd* (2003) ar bapur yn ogystal ag ar y we (gweler [www.cymdeithasedwardllwyd.com](http://www.cymdeithasedwardllwyd.com)).

Mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud eto, ond, o leiaf, rydym ar ein ffordd. Eisoes, darparwyd rhestrau lled gyflawn o enwau *Rhywogaethau Morol* Sion Roberts (Cyngor Cefn Gwlad); *Termau Coedwigaeth* (Arne Pommerening); *Gwyfynod, Mwsogau, Cen* ayyb (Panel Enwau Cymdeithas Edward Llwyd) ac mae'r panel i ymdrin ag enwau creaduriaid diasgwrn cefn, wedi dechrau ar ei waith. Yn naturiol hefyd, bydd angen ehangu a diweddaru'r rhestrau a gyhoeddwyd yn y Naturiaethwr yn yr 1980au e.e. enwau ffyngau - am ei fod yn faes sydd wedi cynyddu cymaint yn ei boblogrwydd ers hynny nes bod naturiaethwyr a chyfieithwyr yn gweiddi arnom am enwau!

Nid wyf yn mynd i sôn am yr ymgyrch fawr arall - i gysoni a datblygu corff o dermau cefn gwlad ac amgylcheddol. Mae honno'n stori arall! Digon yw dweud bod y galw yn fawr, fel y mae am yr enwau, i alluogi'r Gymraeg i ddatblygu'n rhwydd a naturiol i ddelio â phob agwedd o fyd natur a rheolaeth yr amgylchedd.

### Llyfryddiaeth

*Llyfryddiaeth y Cymru*, Gol: D Silvan Evans (1869)

Gweithgarwch Byd Natur a'r Dadeni Diweddar, Twm Elias, *Llais Llyfrau* (Rhan 1: Gaeaf 1983, Rhan 2: Gwanwyn 1984)

*Adar Cymru: Ffynonellau yn y Gymraeg* Dafydd Guto Ifan (1985)

*Libri Walliae*, Eluned Rees (1980)

*Llyfrau Ymarferol Echdoe*, R Elwyn Hughes (1998)

*Llyfryddiaeth Ddetholedig Ted Breeze Jones*, Dafydd Guto Ifan (2001)



# Ieir Bach yr Haf a Gwyfynod

Twm Elias

*Plas Tan y Bwlch (Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri)*

Mae'n debyg y cofir Awst a Medi 2003 fel un o'r tymhorau gorau i ieir bach yr haf a gwyfynod ers aml i flwyddyn. Cafwyd tymhorau da iawn yn 2000 a 1996 hefyd, ond ddim hanner cystal ag eleni. Yr uchafbwynt oedd nifer helaeth y rhywogaethau ymfudol o'r cyfandir. Roedd yr iâr fach dramor yn eithriadol o niferus nid yn unig drwy Gymru, ond, yn ôl gwraig o Ynysoedd Orkney a gyfarfyddais ganol Medi, roedd llawer yno hefyd ac ambell un wedi cyrraedd Ynysoedd y Shetland - sy'n anarferol iawn. Ceir cofnodion prin ohonynt, ambell flwyddyn, yn cyrraedd cyn belled â Gwlad yr Iâ. Bydd yn ddifyr clywed os digwyddodd hynny eleni.

Ymfudwyr eraill trawiadol oedd y fantell goch oedd mor niferus ymhobman ac yn "meddwi" ar yr alcohol epleswyd ar ffrwythau megis afalau ac eirin wedi cwmpo. Cafwyd cofnodion hefyd o'r iâr fach felen - yn Llŷn, Pendin, ac amryw o safleoedd yn ne a de-orllewin Cymru. Bu'n dymor eithriadol hefyd i'n hier bach brodorol, fel yr iâr fach amryliw fu â'i niferoedd yn boenus o isel ers rhai blynyddoedd, y peunog, brych y coed ac yn arbennig, mae'n dda cael dweud, y copor bach a'r adain garpiog. Gyda llaw, bu rhai ieir bach yn ymledu'n araf tua'r gogledd ers rhai blynyddoedd ac, eleni, cyrhaeddodd yr adain garpiog cyn belled â Fife a brych y coed cyn belled â'r Hebrides.

Nid yn aml y bydd y wasg yn rhoi llawer o sylw i wyfynod ond, ddiwedd Awst a Medi, roedd y papurau, y radio a'r teledu yn llawn hanes am y ddau lindysun gwalchwyfyn y benglog enfawr a ddarganfyddwyd yn gwledda ar wlydd tatws ar dir Prifysgol Bangor yn

Abergwyngregyn. Dywedwyd bod y patrwm penglog ar gefn yr oedolyn yn arwydd marwolaeth, ac y rhoddai'r gwalch, Hannibal Lecter, chwiler y gwyfyn yng ngheg y sawl a lofruddid ganddo yn *Silence of the Lambs!* Bu i'r lindys hyn chwileru a deor yn oedolion yng ngerddi'r Brifysgol yn Nhreborth.

Cafwyd cofnodion eraill o walchwyfynod y benglog - 4 oedolyn ar arfordir Môn ac un yn Abererch, Llŷn. Os clywsoch am fwy ohonynt, gadewch i'r golygydd wybod. Cofnodwyd gwalchwyfyn y briwydd, sy'n anghyffredin iawn, yng ngardd John Harold yn Rhiwlas, ger Bangor, a threuliodd Aled Jones orig ddifyr yn ei ardd ym Mhenrhyndeudraeth yn astudio campau'r creadur hynod o chwim hwnnw - y gwalchwyfyn hofran - yn hofran fel aderyn y si i sugno neithdar o wyddfid. Roedd Aled o fewn modfeddi iddo ac ar ôl tua awr cofiodd am ei gamera - ond roedd y creadur wedi gwibio ymaith erbyn iddo ddychwelyd!

Cafodd y gwyfyn ymfudol - y fforch arian - lwyddiant mawr hefyd ac roeddent ymhobman! Da hefyd yw nodi bod gwyfynod prin megis gwladwr Ashworth wedi'i weld ym Mhensychnant eto eleni ac y darganfuwyd safle newydd i'r *Blomer's rivulet* ger Porthmadog. Cofnodwyd hefyd y gwesyn oren, sydd wedi dechrau ymledu o dde Lloegr, am y tro cyntaf ym Meirionnydd - ger Llanuwchllyn.





# Gwella bywoliaeth ffermwyr tlawd gyda Sorgwm

(*Sorghum bicolor* (L.) Moench) a mild perlog (*Pennisetum glaucum* [L.] R. Br.) wedi'i drawsblannu.

Dr. Einir M. Young

*Canolfan Astudiaethau Tir Cras, Prifysgol Cymru, Bangor.*

*e.m.young@bangor.ac.uk*

## Crynodeb

Un o brif nodweddion ardaloedd cras a lled-gras y byd yw'r amrywiaeth yn yr hinsawdd. Mae modelau sy'n rhagweld y newid yn hinsawdd y byd yn darogan bod y gwahaniaethau yn mynd i waethygu. Mae'n debygol y bydd dechrau'r tymor gwlyb yn fwy anwadal a'r glawiad yn gawodydd trymach a llai aml. Yr her fawr i ffermwyr felly yw gallu gwneud y defnydd gorau posibl o'r dŵr sydd ar gael. Yn draddodiadol, mae'n rhaid i'r ffermwyr sydd heb ffordd o ddyfrhau eu cynydau, aros i'r glaw ddechrau cyn hau eu had. Canlyniad hyn yw y gall y tymor gwlyb ar brydiau fod yn rhy fyr i gnydau dyfu ac aeddfedu.

Mae ffermwyr a gwyddonwyr wedi ceisio goresgyn y problemau hyn drwy ddatblygu mathau o gnydau sy'n aeddfedu'n gynnar ac sy'n osgoi sychdwr; drwy ddatblygu dulliau o gynaeafu a chadw dŵr a thrwy ddefnyddio dulliau o ddyfrhau. Ond er gwaetha'r ymdrechion hyn, mae'r

ansicrwydd sy'n gysylltiedig â dechrau'r tymor gwlyb yn achosi problemau i ffermwyr, tlawd neu gefnog. Mae trawsblannu o feithrinfeidd yn ffordd o gynilo dŵr, lleihau'r perygl o golli cynydau ac egino clytiog, yn lleihau'r amser y mae'r cnwd yn ei dreulio yn y cae cyn aeddfedu ac yn cynyddu'r cynnyrch (cafodd 79-90% o ffermwyr fu'n gweithio gyda ni yng Ngogledd Ghana fwy o gnwd - mewn rhai achosion ddwywaith yn fwy o gnwd ar ôl trawsblannu).

## Gair am sorgwm a mild perlog

Sorgwm yw'r pumed grawnfwyd o bwys yn y byd (yn dilyn gwenith, reis, indrawn a barlys (haid)). Caiff ei dyfu yn bennaf yn ardaloedd lled-gras y trofannau a'r is-drofannau. Mae angen tymheredd uchel arno (27-28°C yw'r gorau) ac mae'n gwrthsefyll gwres yn well na'r grawnfwydydd eraill. Mae tipyn o amrywiaeth yng ngallu'r is-rywogaethau i wrthsefyll sychdwr ac mae rhai is-



Llun 1: Mrs Apangbun ar lain o filed perlog wedi'i hau.



Llun 2: Mrs Apangbun ar lain o filed perlog a gafodd ei drawsblannu. Mae mwy o blanhigion ac mae ganddynt dywysennau mwy.



rywogaethau yn gallu dioddef cyfnodau sych yn hynod o dda.

**Miled Perlog** yw un o'r miledau mwyaf poblogaidd ac mae'n tyfu mewn ardaloedd poeth. Mae miled cynnar - sy'n aeddfedu mewn 2-3 mis yn cael ei ystyried yn 'gnwd gwaredigaeth' mewn gwledydd fel Ghana gan ei fod yn torri'r newyn sy'n gyffredin pan fydd bwyd yn brin rhwng dau gynhaeaf. Mae miled hefyd yn gallu gwrthsefyll prinder dŵr.

### **Trawsblannu a phrinder dŵr**

Yn aml, mae'r glawiad yn anwadal ar ddechrau'r tymor a'r cnydau'n egino'n glytiog yn y caeau. O ganlyniad, bydd ffermwyr yn ceisio gwneud iawn am hyn drwy deneuo a thrawsblannu



Meithrinfa yn cael ei rhannu gan dair ffermwraig yn ardal Chivi, Zimbabwe.

eginblanhigion sorgwm a miled perlog i lenwi'r bylchau. Ond nid yw'r arfer hwn yn ddigon i ddatrys problemau'r ffermwyr gan fod y planhigion a drawsblannwyd yn aeddfedu'n hwyrach na'r rhai a heuwyd gyda llaw ac yn cael eu heffeithio gan blâu ac afiechydon yn ogystal â diffyg dŵr ar ddiwedd y tymor.

Mae gwaith a wnaed gan y Ganolfan Astudiaethau Tir Cras<sup>1</sup> wedi dangos bod modd addasu'r arfer hwn yn llwyddiannus. Mae codi eginblanhigion sorgwm a miled perlog mewn meithrinfeydd (Lluniau 1-4) cyn iddi ddechrau bwrw, ac yna'u

trawsblannu i'r cae pan eu bod rhwng 10-50 diwrnod oed ar ôl i'r glaw gysoni (Llun 5), yn fodd i oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â glawiad anwadal. Mae'r eginblanhigion, er eu bod yn dioddef rhywfaint o sioc trawsblannu, yn achub y blaen ar yr hadau sy'n cael eu hau'n syth ac angen llai o amser yn y cae cyn aeddfedu. Felly, mae'r cnwd yn llai agored i niwed petai'r glaw'n darfod yn gynnar. (Blwch 1). Mae canlyniadau treialon gyda ffermwyr ar eu caeau eu hunain yn dangos bod modd cynyddu'r cynnyrch hefyd. Mae mwy o fanylion i'w gweld ar wefan y prosiect

(<http://www.bangor.ac.uk/transplanting/>)

Yn Zimbabwe yn ystod y tymor diwethaf (2002), er yr holl broblemau yn y wlad, llwyddodd rhai ffermwyr i barhau â'r rhaglen drawsblannu a chawsom lythyr brwdfrydig gan Mrs Rumbidzai Dhodho yn dweud:

*“Rwyf am adael i chi wybod am y llwyddiant a gefais gyda'r cynllun trawsblannu sorgwm yn ystod tymor 2001-2002. Er gwaetha'r sychdwr ofnadwy a gawsom yn Zimbabwe eleni, rwy'n falch i adrodd fy mod wedi llwyddo i fedi 1 x 50kg o sorgwm oddi ar lain bach o dir (50m x 20m). Roedd hyn yn annisgwyl iawn o ystyried y glawiad anwadal a gawsom*

*drwy'r wlad, yn enwedig ym Masvingo. Rydym wedi dechrau paratoi ein meithrinfeydd ac yn gobeithio y cawn lawiad gwell eleni. Byddwn yn gadael i chi wybod yr hanes - mae'n bosib gwneud sadza a bara blasus iawn o'r sorgwm”.*

### **Diweddglô**

Mae nifer o nodweddion i'r dechneg. Gellir ei haddasu ar gyfer nifer o isrywogaethau sy'n cael eu tyfu ac sydd ar gael yn lleol. Mae'r ffermwyr yn gyfarwydd â chreu meithrinfeydd a thrawsblannu planhigion eraill (e.e. coed, llysiau, tybaco). Dim ond ychydig bach o ddŵr sydd ei angen. Gellir



plannu cyfres o feithrinfeydd nes i'r glaw ddechrau a thu hwnt i hynny er mwyn gwneud yn sicr bod eginblanhigion o'r oed priodol ar gael i'w trawsblannu os yw'r glaw'n hwyr, neu os bydd yn bwrw'n afreolaidd ar ddechrau'r tymor.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu strategaeth ar gyfer ymestyn y dechneg a'i haddasu ar gyfer sefyllfaoedd lleol mewn gwahanol wledydd.

### **Blwch 1**

Daeth ffermwyr yn Ghana a Zimbabwe i'r casgliad fod:

- Cnwd sydd wedi'i drawsblannu'n gallu cael ei gynaeafu ynghynt ar adeg pan fydd y bwyd sy'n weddill o'r tymor cynt yn brin a phrisiau bwyd yn y farchnad yn ddrud. Gellir cadw'r cynhaeaf fel bwyd i'r teulu neu ei werthu.
- Mae planhigion wedi'u trawsblannu yn aml yn cynhyrchu mwy o rawn - gan fod mwy o dywysennau arnynt a'r rheini'n fwy.
- Os yw'r glaw'n hwyr yn cyrraedd, gellir cadw'r eginblanhigion yn y meithrinfeydd a'u trawsblannu wedi iddi ddechrau bwrw.
- Gall y cnwd aeddfedu hyd yn oed os yw'r glaw'n peidio'n gynnar, gan fod y planhigion yn 10-50 diwrnod oed yn cael eu trawsblannu.
- Mae angen llai o lafur ar gnwd wedi'i drawsblannu ar rai adegau yn y tymor e.e. nid oes angen chwynnu mor aml. Fel arfer wrth chwynnu am y tro cyntaf bydd y ffermwyr yn teneuo'r tyfiant ac yn trawsblannu i lenwi bylchau. Wrth drawsblannu bydd y ffermwyr yn gwneud yn sicr bod y cnwd wedi'i blannu mewn rhesi taclus a chan nad oes angen teneuo, mae'r broses yn llai beichus ac nid oes cymaint o blanhigion yn cael eu difetha.
- Nid yw tyfu hadau mewn meithrinfeydd mor wastraffus â hau â llaw yn syth i'r pridd gan ei bod yn debygol iawn y bydd yn rhaid ail a thrydydd hau wrth i'r cnwd fethu oherwydd diffyg dŵr.

- Mae hadau yn y meithrinfeydd yn egino'n well nag yn y cae gan fod modd i'r ffermwyr edrych ar eu hól yn well.
- Gellir gwerthu eginblanhigion sy'n weddill er mwyn creu cyllid.
- Mae gofalu am feithrinfeydd ar ddiwedd y tymor sych pan fydd pob man yn frown ac yn sych yn codi calonnau'r ffermwyr.

Roedd Mrs Apangbun (Llun 1 a 2) yn un o'r ffermwyr o Ankpaliga yn Ardal Gorllewin Bawku, yn Rhanbarth Dwyrain Uchaf Ghana. Sylwodd hi, fel llawer, bod twf yn well a bod planhigion wedi'u trawsblannu yn cynhyrchu tywysennau mwy na'r rhai wedi'u hau'n draddodiadol.

Roedd ffermwyr eraill fu'n cymryd rhan wedi'u plesio gymaint â'r canlyniadau ar eu llain arbrofol 10m x 10m nes iddynt greu mwy o feithrinfeydd er mwyn trawsblannu yn y ffermydd sy'n bell o'r pentref. Honnai Mr Adam Abumumuni o Fumbisi, Ardal Builsa, fod gwneud hyn wedi "achub" ei fferm miled. Yn wir, llwyddodd rhwng 79-90% o'r ffermwyr oedd yn cymryd rhan, i gynyddu eu cynhaeaf gyda rhai ohonynt yn dyblu eu cnwd. Ffynhonnell: Young & Mottram 2001

### **Cydnabyddiaeth**

Cafodd y gwaith gwreiddiol yn Zimbabwe ei ariannu drwy haelioni'r canwr enwog, Mr Roger Whittaker drwy Ymddiriedolaeth Ddatblygu Prifysgol Cymru Bangor. Rydym yn ddiolchgar iddo ef ac i'r ffermwyr fu'n gweithio gyda ni.

Ariannwyd y gwaith o Ebrill 1998 i Ionawr 2003 gan Gronfa Hyblyg Adran Datblygiad Rhyngwladol (DFID) Llywodraeth y Deyrnas Unedig er budd gwledydd sy'n datblygu (Prosiect R7341). Nid yw'r farn a fynegir o angenrhaid yn farn DFID ac ni all DFID dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wybodaeth a gyflwynir.

1 Young, E., and Mottram, A. (2001). Transplanting sorghum and pearl millet as a means of increasing food security in semi-arid, low-income countries. *Tropical Agriculture Association Newsletter* December 2001, pp. 14-17.



# Cyfrinachau'r Cen

Duncan Brown



Llabed yr ysgyfaint (*Lobaria pulmonaria*)

Planhigion synhwyrol iawn yw cen y coed. Maen nhw fel petaen nhw'n ymateb i bob chwa ac awel, i bob pelydr o haul rhwng y dail ac i bob diferyn o law sy'n eu trochi. Mae rhai yn arwydd o awyr glân, rhai o risgl "melys" a rhai, hyd yn oed, yn arwydd o hirhoedledd y goedwig sy'n eu cynnal.

Yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber, ger Llanfairfechan, un o'r pymtheg a mwy o gen prin sy'n arwydd o barhad y coed yno dros gyfnod maith, yw

llabed yr ysgyfaint neu *Lobaria pulmonaria*. Cyfeiria enw Cymraeg hwn, gyda llaw, at gred yr hen feddygon bod planhigion yn gwella'r anhwylderau a ddaw i'r rhannau o'r corff y maent yn ymdebygu iddynt. Dyna oedd Dysgeidiaeth y Cyfeirnodau.

Er i ddyffryn Aber gael ei ddinoethi o'r goedwig hynafol dros y ddwy ganrif ddiwethaf, diau bod rhai coed wedi para yno'n ddiror dros ganrifoedd mewn llecynnau diarffordd. Pa lecynnau yw'r rhain felly? Gallwn resymu mai'r union fannau lle mae'r llabed yn ffynnu heddiw ydynt.

Nid yw'r mathau hyn o gen ar eu gorau ar y llethrau serth a gafodd eu hadfeddiannu gan goed yn ddiweddarach. Nid ydynt ychwaith ar yr ambell dderwen sy'n britho'r hen borfeydd. Coed y ceunant, ar lannau Afon y Rhaeadr Fawr, sy'n cynnig lloches iddynt heddiw. Bu'n geunant coediog erioed, mae'n debyg, diolch i erwinder y tir a'r trugaredd felly a gafodd rhag y fwyell a'r lli.

Mewn pethau bychain a dirodres y mae amryw gyfrinachau. Yma, croeniach disylw ar risgl coed sy'n datgelu pwt o hanes am ein tir a'r hyn a wnaeth, a'r hyn na wnaeth, ein cyndeidiau arno. O'i gofnodi'n fanwl, gall ddatgelu llawn cymaint â deddfau brenhinoedd.



# Bygythiadau yn erwau'r pysg

Norman Closs-Parry

Mewn rhai o lynnoedd Sutherland yn yr Alban y deuthum ar draws y llyngyren bysgod gyntaf. Wedi diwrnod da ar Badenloch a darparu'r brithyll i'r badell yn y gweryll gyda'r nos, sylwais ar y llyngyren denau goch rhyw 1cm o hyd, yn gwingo drwy gnawd cefn y brithyll!

Dywedodd y cipar wrthyf ei fod yn bla, mai adar bwydo-ar-bysgod oedd un o gludyddion y parasit, ond o rostio'r brithyll yn iawn, nad yw'n effeithio ar ddyn! Ni fedrwn feddwl am fwyta brithyll weddill yr antur honno.

Gellwch ddychmygu fy nhrallod o ddarganfod y parasit yng nghnawd brithyll yn Llyn Nantlle ym Mai 2001, Ebrill 2002 ac eto eleni, a'i fod wedi ymledu i Lyn y Gadair a Llyn Cwellyn hefyd. Mae rhai o bysgotwyr Llyn Padarn wedi'i gofnodi yno yn ogystal. Hyd yn hyn, nid wyf wed ei ddarganfod yn y torgochiaiad (*Salvelinus perisi*).

Dyletswydd pob naturiaethwr o bysgotwr pan wêl rhywbeth amheus ac allan o'r cyffredin, yw dweud wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Dyna a wnes a chael pob cydymdeimlad a chydweithrediad gan gynnwys canlyniadau eu hymchwil. Dyfynnaf ran o'i hadroddiad a chanlyniadau rhwydo Llynnoedd Nantlle, Llyn y Gadair a Llyn Cwellyn.

Cwestiwn diddorol yw "O ble y daeth y pysgod garw i Lyn Nantlle?"

Rhywogaeth	Nifer y □ pysgod a □ ddaliwyd	% ieir	Cyfartaledd□ hyd(cm)	Oed□ (Blynyddoedd)	% yn cario□ parasit
Brithyll Brown	30	53%	22	3+ i gyd	83%
Crothell (Roach)	15	87%	24	Hyd at 7+	0%
Tens (Tench)	1	100%	2.5	?	0%

Canlyniadau rhwydo tagell [*gill netting*] 22-23 Ebrill 2002 ar Lyn Nantlle; drwy garedigrwydd A.A.C.

Yn y blynyddoedd diwethaf, yr wyf wedi gweld cynnydd mawr yn yr adar canlynol o gwmpas y llynnoedd a enwyd:

- Yr Wylan Benddu
- Gwylan y Penwaig
- Yr Wylan Gefnddu Leiaf

Mae cynnydd hefyd yn nifer y Fulfran a'r Hwyaaden Ddanheddog. Sefydlog yw nifer y Creyr Glas sydd hefyd yn bwyta pysgod.

Tybed ai'r domen sbwriel enfawr ger Nantlle sy'n denu'r gwyland?



Parasit	Eustrongylides	Diphyllobothrium
Math o barasit	Nematod	Llyngyren (cestode)
Gwestai cyntaf	Oligochaete (llyngyren)	Copepods (e.e Cyclops)
Gwestai olaf	Adar sy'n bwyta pysgod (efallai nid gwylanod)	Adar sy'n bwyta pysgod gan gynnwys gwylanod
		gyda dyn yn bosibilrwydd
Statws	Mae'r ddau fath o barasit yn gyffredin. Efallai mai <i>Diphyllobothrium</i> sydd fwyaf cyffredin	
Statws lleol:	Dargaanfuwyd y ddau fath yn Llyn Natlle, Llyn y Gadair a Llyn Cwellyn. Mae tystiolaeth pysgotwyr yn awgrymu bod y parasitau hyn yn Llyn Padarn hefyd	
Graddau heintio:	Mae graddau heintio yn lled uchel ar bod rhifau parasit yn y pysgod unigol yn isel yn gyffredinol yn nheip <i>Eustrongylides</i>	
Bygythiadau i bysgod	Mewn hen bysgod gyda chynnyd yn niferoedd y parasit gall frwythloni ddigwydd	Gall pysgod gario nifer mawr (500) cyn marw. Uchafswm hyd yn hyn ym mhysgod Gogledd Cymru yw 40 mewn un pysgodyn
Bygythiadau mwyaf:	Lleihad yn nifer y pysgotwyr oherwydd gwrthwynebiad cyhoeddus yn arwain i golled yn yr economi leol	Gall rhai rhywogaethau dreiddio famaliaid megis y dyfrgi a'r minc a hyd yn oed dyn. Dalier sylw - dylid coginio pysgod yn drylwyr.
Bygythiad tymor hir:	Lleihad yn nifer y pysgod gan achosi colledion ecolegol ac ariannol yn lleol drwy gollir'r pysgota	

Rhai ffeithiau am y parasitau:-



# COED DERW

C.L.I.G.



Dôl y Moch, Dyffryn Maentwrog

Prynhawn Sadwrn, 22 Ebrill 1876 oedd hi pan aeth Francis Kilvert a'i gydymaith i gerdded ym Mharc Moccas<sup>1</sup> ar lan yr Afon Gwy â'r gwanwyn yn byrlymu drwy'r goedwig. Wrth ddychwelyd yn y gwyll i Reithordy Monnington, ei lety am y noson honno ar gyfer gwasanaethu yn yr Eglwys drannoeth, daethant ar draws yr hyn a gredai ar y dechrau oedd yn hen adfail llwyd, tŵr anferth a weddnewidiwyd wrth agoshau ato, yn dderwen fawr 'the king oak of Moccas Park', fel y cofnododd yn ei ddyddiadur. Coeden anferth, doredig a chafniog oedd hi, eto'n glasu blagur newydd, ei chwmpas yn mesur 33 troedfedd. Tybiodd Kilvert ei bod yn 2000 (2 fil!) o flynyddoedd oed! Edmygai'n fawr goed derw Parc Moccas - 'those grey old men of Moccas' gan ddefnyddio 12 ansoddair yn un ribidires i'w disgrifio.

Drannoeth, fore Sul, sonia am dawelwch ysbrydoledig y llecyn o gwmpas yr Eglwys wrth glywed y tair cloch yn canu tu draw i hen blasdy llwyd teulu Glyndwr a sylwi ar 'the flat and broken gravestone of Owen Glendwr dwy (sic) divine' wrth fynd i mewn i'r addoldy. Dros gan mlynedd yn ddiweddarach euthum i mewn i'r Eglwys fechan, wyngalchog ac ar ôl holi ble'r oedd y fan, cael fy nhywys gan ŵr lleol at y feddfaen a orweddai ar ei hyd yn ddiennw ynghanol chwyn a glaswellt wrth ymyl y drws. Bum yn pendronni ynglŷn â

tharddiad yr enwau Moccas a hen blasdy Dôl y Moch yn Nyffryn Maentwrog a oedd yn adnabyddus am yr hen goedwig fawr a berthynai i'r stâd yn y gorffennol, y rhan fwyaf ohoni yn cynnwys coed derw. Ond dyna ddarllen hanes Dôl y Moch gan G J Williams (1854-1933), ysgolfeistr, daearegwr a hynafiaethydd, brodor o Flaenau Ffestiniog a chael yr eglurhad hwn:

Credwn nad oes a fyno 'moch' yn enw yr hen Balasdy hwn, mwy nag mewn enwau lleoedd eraill yn y plwyf a'r wlad, ddim â'r creaduriaid a adwaenir wrth yr enw hwnw, ond mai môch (rapids) yw yr ystyr. Sylwer fod rapids, mwy neu lai, yn agos i bob lle o'r enw yn y plwyf hwn, er enghraifft, Bwlch y Moch, Llenyrch y Moch a Dôl y Moch, yn gystal a Llanrhaiadr-moch-nant etc., mewn rhanau o Gymru.2

Dôl y Môch felly ac nid Dôl y Moch!

(Ond! gw. Ifor Willimas, *Enwau Lleoedd* (1945) t.23. Gol.)

Yng nghopïau cynnar 'Y Naturiaethwr', ceir gan gyn Uwch Warden Gwarchodfeydd Dyffryn Maentwrog, William I Jones Croesor, lawer o hanes y Dyffryn o safbwynt gwyddonol yr arbenigwr a chofnodion yn disgrifio teithiau cerdded diddorol a arweiniodd yno i aelodau'r Gymdeithas. Yng nghylchgrawn Ionawr 1980, cawn hanes 'Gwarchodleoedd Dyffryn Maentwrog a'r Cylch' ganddo ac yn yr erthygl, pwysleisia William Jones mai'r Dderwen Mes Di-goes Orllewinol (*Quercus petraea*) yw'r pren sy'n ffynnu orau yno oherwydd y tirwedd addas a'r glaw trwm (dros 70" y flwyddyn) sy'n disgyn ar y Dyffryn<sup>3</sup>. Dywed fod y cynefin a grëir gan y derw gyda'r cyfoethocaf sydd ar gael i gynnal adar ac anifeiliaid a rhydd restrau manwl o adar, blodau, mwsogau a



llyisiau'r afu a ddibynna ar y gynhaliaeth hon.

Mewn sgwrs dros y ffôn efo Twm Elias, Uwch Ddarlithydd Plas Tan y Bwlch am Ddyffryn Maentwrog, dywedodd mai safle'r goedwig hon yn Sir Feirionnydd, yn hytrach na'r coed eu hunain, oedd dros gannoedd o flynyddoedd oed, oherwydd plannu coed a'u tyfu i'w torri i lawr er lles yr economi, ac yna ail blannu fu'r patrwm yma. Gan fod llethrau'r Dyffryn yn serth, nid oedd modd cynhyrchu tir pori na phlannu llyisiau ar raddfa eang, ond gellid llwyddo ar waelod y Dyffryn ac ar y copaon, i dyfu coed. Safai'r angen amdanynt yn ddisyfl, barhaol ar hyd y canrifoedd. Ar waelod y Dyffryn, gwnaed dodrefn, trawstiau adeiladu, mastiau llongau ayyb o'r coed talsyth a dyfai yno mewn pridd da. Ond, roedd mynd hefyd ar goed y copaon. Coed ceimion, fforchog, cryfion y byddai seiri coed yn chwilio amdanynt i gael tameidiau arbennig i adeiladu tai a llongau gan fod darnau coed ar siâp fforch yn gryfach na darnau wedi'u hoelio at ei gilydd os oedd y graen yn rhedeg efo'r tro. Y rhain oedd y gorau a'r cryfaf yn y byd. Ceid bod plyg mewn coeden gam yn arbed gwaith stemio ac felly'n ddefnyddiol iawn. Cesglid y rhisgl wrth gwrs i baratoi lledr. Fel ym Mharc Moccas, arferid troi moch i'r goedwig yn yr hydref i wledda ar fes, cnau a madarch.

Rydym yn ffodus bod un cofnod i'w gael yn yr ail ganrif ar bymtheg o'r galw a fu ar goed derw Dôl y Moch. Prynwyd y plasdy ym 1643 gan Siôn Sions, mab Richard Jones, Craflwyn<sup>4</sup>, i fab Siôn Sions a'i wraig Ann o Fraich y Bib, sef Richard Jones, Dôl y Moch, y canodd William Phylip y 'Cywydd i ofyn derwen dro' Ed. Prys i Rich. Jones, Dôl y Moch<sup>5</sup>. Wyr i'r Archddiacon Edmwnd Prys oedd Edward Prys<sup>6</sup> a deallwn o ddarllen y cywydd mai angen pren da sydd arno ar gyfer gwneud distiau, coffrau a byrddau. Dywed y bardd yn union sut bren y dymunai Edward Prys ei gael a sut bren na wnaiff y tro o gwbl:

Rhodd a gais y gŵr rhwyddwydych -  
Dierwin wedd derwen wych,

Bur, llawngorph o bren llingoed,  
O bren cu o burion coed.  
Nid derwen flin, grin 'i gwraidd,  
Fregus ac yn afr'ogaidd,  
Derwen heb un irbren ail  
Ail i Edward yn 'i adail.

Coeden o lawr y dyffryn, felly, nid un o'r copaon, sy'n addas yn y cyswllt hwn. A'r bardd ymlaen i ganmol derwen - ei thyfiant gwrthiol o'r fesen, ei chryfder ac ystod ei bywyd:

Ni luniwyd un pren lanach  
Na'r dderwen o'r fesen fach,  
Gorau erioed o'r holl goedydd  
Yw'r dderwen ar gangen gwýdd.  
Cryfa'i bara'n y byd,  
Hynaf a hwyaf hefyd.

Sonia am rinwedd y rhisg a'r dail rhag llawer dolur, y mes rhag cur a'r mangoed at wneud tân buddiol i bawb. Does dim modd byw hebddi:

Rhaid i holl Gred lle'i cedwir  
Fyw wrth hon ar fôr a thir.  
Ym mhob glyn er cyn canoed  
Y hi yw Pen Capten y coed.

Mae'r hen blasdy yn dal i sefyll heddiw ac yn ganolfan i blant ysgol o Swydd Gaerhirfryn. Erys y simneiau tal yn dystion i'w oed a gellir gweld rhai o hen arfbeisiau Pymtheg Llwyth Gwynedd ar y waliau yn y lloffttydd. Ond i gerddwyr talog Cymdeithas Edward Llwyd, trysor Dyffryn Maentwrog yw ei warchodfeydd cyfoethog a'r myrdd llwybrau drwy goedwigoedd hardd un o ddyffrynnoedd tlysaf Cymru.

1 Kilvert, Francis, *Kilvert's Diary* 1870-1879, (1986), Century Hutchinson Ltd.

2 Williams G.J *Hanes plwyf Ffestiniog o'r Cyfnod Boreuaf* (1882), Hughes a'i Fab.

3 Jones, W.I. Gwarchodleoedd Derw Maentwrog a'r Cylch Y *Nauriaethwr* (1980),

4 Hemp, W.J. Plas Dôl-y-Moch, *Archaeologia Cambrensis* (1949) t.301.

5 Davies, Glenys, *Noddwyr Beirdd ym Meirion* (1974) Archifdy Sir Feirionnydd.

6 Llsg. M 130,35, LIGC

7 Griffiths, J.E. (gol.) *The Pedigrees of Anglesey and Caernarvonshire Families*, (1914)





# Gwarchod y Wiwer Goch

## *Sciurus vulgaris* yng Nghymru:

### Gwersi o Ynys Môn

Craig Shuttleworth

*Swyddog Cynllun y Wiwer Goch, Menter Môn*



Wiwer goch llawn dwf.

#### Cyflwyniad

Ar un adeg roedd y wiwer goch *Sciurus vulgaris* yn gyffredin mewn nifer o goetiroedd yng Nghymru, ond dros y deg mlynedd ar hugain diwethaf, mae'r niferoedd wedi gostwng yn drawiadol. Digwyddodd hyn i raddau helaeth iawn oherwydd iddi gael ei disodli gan y wiwer lwyd ddwyreiniol ddiethr, *Sciurus carolinensis*, o Ogledd America. Y dyddiau hyn, dim ond ychydig o boblogaethau o wiwerod coch sydd ar gael a'r rheini wedi eu gwasgaru yn eang, a dim ond mewn tair fforest y mae niferoedd hyfyw i'w canfod bellach. Lleolwyd y boblogaeth fwyaf yng nghoedwig Clocaenog, Sir Ddinbych, tra bo niferoedd llai i'w canfod o hyd yn fforestydd Tywi a Chrychan yng nghanolbarth Cymru. Yr olaf o'r tri prif safle yng Nghymru yw planhigfa Mynydd Llwydiarth ar Ynys Môn, lle yr achubwyd y boblogaeth o wiwerod coch oedd ar fin eu colli gan raglen gadwraeth wedi ei chydgysylltu.

Tra bod poblogaethau wiwerod coch yn parhau i ostwng yn genedlaethol, mae'r

cynnydd yn y niferoedd ar Ynys Môn yn anghyffredin, ac o ganlyniad gall y canlyniadau fod yn fuddiol i brosiectau cadwraeth mewn mannau eraill. Fodd bynnag, cyn i ni edrych ar y gwaith yn Ynys Môn, efallai y bydd yn ddefnyddiol i roi amlinelliad byr o'r rhesymau pam fod y wiwer lwyd wedi disodli'r goch frodorol ar raddfa mor eang.

#### Wiwerod llwyd a choch

Mae wiwerod coch llawn dwf yn gymharol fychan, gan bwyso 270-320g fel arfer. Mae hyn gryn dipyn yn llai na'r 500-650g a gofnodwyd ar gyfer wiwerod llwyd llawn dwf. Hadau coed yw prif fwyd y ddau fath o wiwer; byddant hefyd yn bwyta ffyngau, blodau oddi ar goed a blagur. Fodd bynnag, er gwaethaf y gorgyffwrdd cyffredinol yma o ran diet, mae'n amlwg fod gan wiwerod llwyd fantais gystadleuol, yn enwedig felly mewn nifer o fathau o goetiroedd llydanddail.

Mewn cynefin llydanddail, bydd dwyseddau poblogaeth wiwerod llwyd llawn dwf yn amrywio'n aml rhwng 3 a 8 o anifeiliad yr hectar, lle bo dwyseddau yn llai nag un anifail yr hectar mewn clystyrau conwydd fel arfer. O'u cymharu, anaml y bydd poblogaethau o wiwerod coch llawn dwf yn fwy nag un anifail yr hectar yn y naill fath o goetir na'r llall. Os edrychwn ni'n fanylach ar y gwahaniaethau rhyngrywiogaethol hyn mewn cynhwysedd cario cynefin, gallwn ddechrau deall dull y wiwer lwyd o ddisodli'r wiwer goch yn ecolegol.

Dangosodd ymchwil a wnaed yn niwedd y 1980au fod wiwerod llwyd yn gallu



treulio'r protein mewn mes derw yn well na wiwerod coch oherwydd bod eu system dreulio yn gallu trin y polyphenols yn yr hedyn yn well. O ganlyniad, mewn cynefinoedd sy'n cynnwys coed derw, bydd gan y wiwer llwyd fantais sylweddol. Gall hyn gael ei wneud yn waeth oherwydd eu bod yn dwyn storffeydd bwyd y wiwerod coch. Mewn un astudiaeth, canfuwyd fod wiwerod llwyd wedi manteisio ar hyd at 66% o gelciau bwyd a guddiwyd gan wiwerod coch. Nid yw'n syndod deall felly fod presenoldeb poblogaeth sefydlog o wiwerod llwyd yn gostwng graddfa cynnydd wiwerod coch ifanc yn lleol ac yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth.

Yn lleol, bydd poblogaethau o wiwerod coch yn goroesi'n hwy mewn clystyrau conwydd, yn wir mae rhai achosion sydd a chryn dystiolaeth iddynt, er nad ydynt yn rhai cynrychioladol iawn, o boblogaethau cymysg coch/llwyd yn cydfyw am sawl degawd. Bydd mantais y wiwer llwyd yn llai mewn clystyrau conwydd yn amlwg, yn enwedig mewn cynefinoedd lle bo'r byrwydden (sbriws) yn tyfu yn bennaf. Gall hyn fod oherwydd fod y cynefinoedd yma yn brin o adnoddau, lle bo maint bychan hadau'r coed yn ei gwneud hi'n anodd i'r wiwer llwyd fwy orosi. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio'r ffaith mai'r wiwer llwyd yw'r unig rywogaeth o wiwer sydd i'w ganfod bellach mewn nifer o blanhigfeydd conwydd yng Nghymru er bod niferoedd mawr o'r rheini i'w cael yma (185,000 o hecтарau). Os oes unrhyw fath penodol o gynefin conwydd yn cynnig loches tymor hir i'r wiwer goch mewn

gwirionedd nid yw hyn wedi ei brofi hyd yma.

Yn olaf, hyd yn oed os gallwn ddod o hyd i'r math o gynefin sy'n cyfyngu ar ymosodiad gan wiwerod llwyd mae'r perygl o drosglwyddo clefyd yn para. Bydd wiwerod llwyd yn aml yn cario'r firws '*red squirrel para-pox*' er nad ydynt yn arddangos unrhyw symptomau clinigol. Fodd bynnag, os bydd yn cael ei drosglwyddo i boblogaeth o wiwerod coch, gall y firws arwain at gollodion sylweddol. Bu'r firws para-pox yma'n rhan o'r broses o ddisodli wiwerod coch gan wiwerod llwyd yn lleol.

### Cyfle unigryw

Dechreuodd prosiect wiwerod coch Ynys Môn yn niwedd yr 1990'au, pan gydnabuwyd fod yr ynys yn cynnig cyfle unigryw i wrthdroi, yn lleol, y patrwm cenedlaethol o boblogaethau'n mynd i'w colli. Erbyn hynny roedd y sefyllfa'n ddifrifol iawn, â dim ond cipolygon achlysurol o wiwerod coch yn cael eu cofnodi ym mhlanhigfa conwydd Mynydd Llwydiarth, sy'n cynnwys 244 hecтар. Roedd poblogaethau o wiwerod llwyd wedi hen sefydlu ledled yr ynys.

Yn Ionawr 1998 cychwynnwyd ar raglen systematig ar gyfer wiwerod llwyd gan ganolbwyntio'n arbennig ar Fynydd Llwydiarth a'r coetiroedd llydanddail hynny o fewn 3km i'r saffle. Daliwyd wiwerod llwyd gan ddefnyddio maglau dalyn-fyw a'u lladd wedyn. Pwyswyd y wiwerod coch a ddaliwyd, a chawsant eu mesur ac aseswyd eu cyflwr atgynhyrchiol. Rhoddwyd tatŵ clust yn nod parhaol ar

Blwyddyn	Maint poblogaeth llawn dwf gwanwyn *(n)	Atgenghedlu gan rhai benywaidd llawn dwf a rhai blwydd (%)	Cyfradd goroesi rhai llawn dwf o'r flwyddyn flaenorol (%)	Cynnydd rhai ifanc o'r flwyddyn flaenorol (%)
1999	38-43	73	72	Dim data
2000	72-82	65	74	75
2001	79-114	58	70	40
2002	78-95	70	65	16

Deinameg poblogaeth y wiwer goch ym mhlanhigfa Mynydd Llwydiarth



bob wiwer goch unigol. Bu'r data a gasglwyd o ganlyniad i'r maglu yn fodd o amcangyfrif maint y boblogaeth ac asesu faint oedd yn cael eu hatgenhedlu (Tabl 1).

\* Cyfrifiadau poblogaethau 'caeëdig' o ran y Lleiafswm o rai Byw a Thebygolrwydd Cyson eu dal.

Tynnwyd cyfanswm o 68 o wiwerod llwyd o'r blanhigfa yn ystod 1998 a dim ond dyrnaid o anifeiliaid a ddaliwyd mewn blynyddoedd diweddarach. Canfuwyd y wiwer lwyd estron olaf yn haf 2001. Mewn manau eraill lladdwyd sawl mil o wiwerod llwyd mewn clystyrau llydanddail. Bu



Archwilio wiwer goch.

ymateb poblogaeth y wiwerod coch yn drawiadol â graddfeydd ffafriol o atgenhedlu a goroesi. Dyblodd y boblogaeth yn ei maint ac erbyn 2002 roedd y goedwig bron â chyrraedd ei chynhwysedd cario os nad oedd wedi ei gyrraedd. Adlewyrchwyd hyn gan ostyngiad graddol yng nghyfraddau cynnydd mewn rhai ifanc yn lleol (Tabl 1). Yn ystod 2001, canfuwyd y torllwyth cyntaf o wiwerod coch mewn coetir llydanddail gerllaw. Gwelwyd wiwerod coch yn chwilota'n aml mewn clystyrau cyll ac, er boddhad mawr iddynt, dywedodd pobl leol fod anifeiliaid yn ymweld â byrddau adar mewn gerddi.

### Camau cadwraeth ychwanegol

Bu cynnal awtopsia ar wiwerod llwyd yn fodd i'r prosiect fonitro lefelau cyflwr y corff, dyddodiad braster a graddfa atgenhedlu. Byddai'r wybodaeth yma yn gallu cael ei defnyddio i amcangyfrif niferoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, er

bod data maglu o'r fath yn ddefnyddiol, roedd angen gwaith ychwanegol os am warchod y wiwer goch yn llwyddiannus.

Codwyd blychau nythu wiwerod i ddarparu data ynglyn â rhag-ddiddefnu a graddfeydd marwolaeth ymhlith rhai heb gyrraedd llawn dwf, maint y torllwyth a dyddiau esgoriadau. Gallai blychu nythu fod yn werthfawr o ran canfod cychwyn clefydau difrifol.

Mewn partneriaeth â'r Comisiwn Coedwigaeth, sefydlwyd cyfarwyddiadau ynglyn â rheoli coetiroedd er mwyn cynyddu cynhwysedd Mynydd Llwydiarth i ddal wiwerod coch. Roedd maint cymharol fychan y coetir, a'r ffaith fod clystyrau llydanddail gerllaw, yn golygu nad oedd polisi'r DU o reoli clystyrau i gau wiwerod llwyd allan yn bennaf yn un addas.

Er mwyn mesur y perygl o glefydau gan wiwerod llwyd mewnfuldol, profwyd samplau gwaed am wrthgyrff i'r firws *red squirrel para-pox* mewn nifer o anifeiliaid a laddwyd. Dangosodd hyn fod tua 60-70% o unigolion wedi dod i gyffyrddiad â'r firws a bod ganddynt wrthgyrff yn eu gwaed. Mae ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i'r effaith y mae rheolaeth drylwyr yn ei gael ar raddfeydd clefydau ymhlith poblogaethau'r wiwer lwyd.

Yn olaf, er bod amrywiaeth eang o gyrff gwledig yn cefnogi'r rhaglen o warchod y wiwer goch, roedd cefnogaeth y bobl leol yn hanfodol. Sefydlwyd 'Cyfeillion y Wiwerod Coch' ac erbyn hyn mae dros ddau gant o aelodau.

### Y Cochion yn Dychwelyd

Yn fuan yn 2002 cydnabuwyd nad oedd anifeiliaid yn debygol o ledu llawer y tu draw i rywfaint o goetiroedd llydanddail bychan cyfagos oherwydd bod fforest Mynydd Llwydiarth yn gymharol anghysbell. Yn wahanol i'r wiwer lwyd, mae'r wiwer goch yn llai tueddol o groesi darnau eang o dir agored. O ganlyniad, pe byddai wiwerod coch yn dychwelyd i gynefinoedd y buont ynddynt o'r blaen ar Ynys Môn, yr unig ffordd y gellid cyflawnu hyn fyddai drwy brosiect o ailgyflwyno wedi ei gynllunio'n ofalus.



Byddai hwn yn gam dadleuol, gan na fu'r mwyafrif o achosion diweddar o ryddhau yn y DU yn llwyddiannus. Er hynny penderfynodd Menter Môn, mewn partneriaeth â Sw Mynyddig Cymru, i ymgymryd â rhaglen ryddhau. Fel rhagarweiniad i'r astudiaeth, archwiliwyd canlyniadau'r treialon blaenorol yn y DU. Roedd yr astudiaethau hyn wedi dangos fod methiant i gael gwared ar wiwerod



Wiwer llwyd ifanc a ddaliwyd

llwyd o fannau rhyddhau yn ffactor hanfodol bwysig.


Planhigfa binwydd arfordirol fawr (770 hectar) fforest Niwbwrch fydd safle'r ailgyflwyno yn Ynys Môn. Mae'r ffaith fod y coetir ar wahân i glystyrau llydanddail cyfagos yn ei wneud yn safle delfrydol. Mae niferoedd y wiwerod llwyd sy'n preswyllo yno wedi eu gostwng yn sylweddol eisoes (Ffigur 1) ac y mae maglu'n mynd rhagddo. Os bydd y broses o ryddhau wiwerod coch yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd coedwig Niwbwrch yn cynnwys un o'r poblogaethau mwyaf o wiwerod coch yng Nghymru yn y pen draw.

### Wiwerod coch Cymreig

Mae prosiect Ynys Môn wedi dangos y gall rhaglen gadwraeth leol wedi ei chydgyssylltu

achub poblogaethau o wiwerod coch rhag mynd i'w colli. Mae'n hollol bosib' wrth gwrs y bydd y prosiect yn methu â chael gwared ar y wiwer llwyd yn gyfangwbl o'r ynys, er gwaethaf ein bwriadau gorau. Er bod hwn yn bosib', byddai gwneud dim wedi golygu y byddai'r anifail hyfryd a phoblogaidd hwn wedi diflannu'n fuan iawn o Ynys Môn.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa leol yn gadarnhaol ar hyn o bryd; lleihawyd poblogaeth wiwerod llwyd yr ynys ar raddfa eang a sylweddol. Mae gennym gofnod da o ddsbarthiad daearyddol y ddau rywogaeth erbyn hyn a dealltwriaeth fanwl o ddemograffeg poblogaeth y wiwer goch. Mae hyn i'r gwrthwyneb yn hollol i fannau eraill yng Nghymru, lle mae poblogaethau yn dal i gael eu disgrifio ar sail ffiniau daearyddol y coedwigoedd lle y'u canfyddir yn unig, yn amlach na pheidio. Wrth gwrs mae hyn yn ei gwneud hi'n amhosib' i asesu newidiadau yn y boblogaeth, i deilwrio cadwraeth i sefyllfaoedd lleol, ac i fesur pa mor effeithiol yw cyfarwyddiadau rheoli lleol. Os yw poblogaethau wiwerod coch am gael eu gwarchod ar y tir mawr, yna bydd rheoli wiwerod llwyd mewn modd ymosodol yn hanfodol ac y mae'n rhaid cael dealltwriaeth well o boblogaethau wiwerod coch.



Ffigur 1 Rheoli wiwerod llwyd yn Niwbwrch yn ystod 2002. Canlyniadau tair sesiwn maglu 20 diwrnod gan ddefnyddio 90 o faglau dal-yn-fyw.



# Diogelu planhigion prin Cymru

Rhodri Clwyd Griffiths a M.Delores Lledò

*Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.*



Cerddinen Daren Fach (*Sorbus leyana*)

Mae planhigion yn rhan hanfodol o dreftadaeth naturiol y byd ac yn elfen allweddol yng nghynnaladwyedd y byd. Maent yn adnoddau angenrheidiol: awyr a anadlwn, ffynhonnell fwyd ddiguro, sawl deunydd craidd a meddyginiaethau. Ac eto, petai'r gyfradd gyfredol o golli cynefinoedd yn parhau, bydd 30-50% o holl rywogaethau planhigion y gwyddom amdanynt yn diflannu erbyn diwedd y ganrif hon. Mae hon yn her fyd eang anferthol.

Yn gynyddol ledled y byd, mae gerddi botaneg yn datblygu'n bwysig ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth gan chwarae rhan hanfodol yn yr ymdrech hon i greu

dealltwriaeth o blanhigion sydd angen eu gwarchod.

Newid cymharol ddiweddar oedd newid rôl gerddi botaneg o fod yn arddangosfeydd planhigion i fod yn sefydliadau sy'n seiliedig ar gadwraeth, ac y mae'n adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd mewn swau. Unig ddiben swêrs talwm oedd arddangos casgliad o anifeiliaid. Erbyn heddiw, maent yn cynnal ymchwil rhyngwladol a rhaglenni magwraeth ar gyfer cadwraeth ac yn ailgyflwyno anifeiliaid prin. Mae'r un peth yn wir am erddi botaneg - cedwir planhigion yn gaeth o fewn 'Arch Noa' rhag ofn i'r boblogaeth wylt ddiplannu a bod angen ei hailgyflwyno. Gwneir gwaith ymchwil ar y safle ac allan yn y maes er mwyn cadw'r planhigion yn eu cynefinoedd naturiol.

Roedd sefydlu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn cyd-ddigwydd ag ymwybyddiaeth ddigwyffelyb o'r angen brys am ddogfennu, deall a chadw planhigion y Ddaear. Mae'n fenter llawn dychymyg sy'n cyflwyno cyfle i Gymru ddatblygu sefydliad cenedlaethol o arwyddocâd a bri rhyngwladol - yr ardd fotaneg genedlaethol gyntaf a grëwyd gyda chadwraeth yn graidd iddi.

I ddechrau, bydd ein rhaglen wyddoniaeth yn canolbwyntio ar gadwraeth planhigion Cymreig prin a rhai sydd mewn perygl. Nid yw hyn yn bersbectif plwyfol ond yn hytrach yn bersbectif rhyngwladol. Bydd hyn yn cyflawni nod allweddol y gymuned fotanegol ryngwladol, sef gosod cyflawni cadwraeth o fflora ei hardal ei hun yn brif nod gerddi botaneg .

Mae rhai yn ystyried bod y sawl sy'n ymwneud â chreu gardd fotaneg yng Nghymru wedi cymryd cam gwag. Oni



fyddai'n fwy cyffrous creu gardd fotaneg ym Mrasil gyda'i amrywiaeth toreithiog a'r bygythiad tra hysbys i'r fforestydd glaw trofannol? Gwaetha'r modd, gan amlaf nid ydym yn gwerthfawrogi na chymryd diddordeb yn yr hyn sydd ar garreg ein drws.

Mae Cymru yn wlad gydag amrywiaeth o dirwedd, hinsawdd, daeareg a phriddoedd. Adlewyrchir hyn yn yr amrywiaeth o wahanol gynefinoedd, pob un â'i fflora ei hun, er enghraifft: clogwyni yn uchel i fyny ar fynyddoedd Eryri sy'n darparu lloches i gymunedau arctig-alpaidd gan gynnwys planhigion megis Lili'r Wyddfa (*Lloydia serotina*) a'r Tormaen Siobynnog (*Saxifraga cespitosa*). Twyni tywod de Cymru sy'n gartref i Grwynllys y Twyni (*Gentianella uliginosa*), a Gefell-lys y fignen (*Liparis loeselii*), a chreigiau calchfaen, a chlogwyni Bannau Frycheiniog sy'n cynnal poblogaethau o rai o'n Heboglys prinnaf. Mae nifer o blanhigion Cymreig yn brin iawn ac y mae eu bodolaeth dan fygythiad. Tyf rhai yng Nghymru yn unig ac ni chanfyddir hwy yn unman arall yn y byd. Efallai na fyddai eu colli yn effeithio ar ein bodolaeth ni, serch hynny gall fod iddynt briodweddau meddyginiaethol. Pwy sy'n ddigon dewr i benderfynu pa blanhigion sy'n werth eu cadw a pha rai na ddylid eu cadw? Sut gellir gwahaniaethu? Yn bwysicach fyth, os yw gwlad megis Cymru yn methu amddiffyn ei phlanhigion, sut y gallwn ddisgwyl i wledydd sy'n datblygu, a gaiff fanteision tymor byr o ddifa'r amgylchedd, wrando arnom a chynllunio ar gyfer dyfodol hirdymor cynaladwy.

Ar y cyd â nifer o fudiadau, yn bennaf Prifysgol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielaau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, rydym yn cynnal ymchwil i gadwraeth planhigion prin Cymru. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar faes systemeg gadwraeth gan ddefnyddio technegau moleciwlaidd DNA.

Mae'r planhigion yr ymchwilir iddyn nhw'n cynnwys:

### **Lafant Penfro, (*Limonium transwallianum*)**

Planhigyn sy'n endemig i Gymru yw hwn, a dim ond mewn un safle mae'r blodyn porffor prydfferth hwn yn tyfu, yn Sir Benfro, ar glogwyni môr carreg galch sy'n wynebu'r de ger Dinbych y Pysgod.

### **Penboeth yr ŷd, (*Galeopsis segetum*)**

Ar hyn o bryd, mae'r rhywogaeth hon wedi diflannu o Ynysoedd Prydain. Cafodd ei gweld ddiwethaf ger Bangor, Gwynedd ym 1975, lle'r oedd yn tyfu fel chwynnyn tir âr. Rydym yn ceisio ail-sefydlu'r rhywogaeth hon.

### **Cerddinen Darren Fach, (*Sorbus leyana*)**

Dim ond yn Ne Cymru mae'r rhywogaeth hon yn tyfu'n wyllt, ar ddau glogwyn garreg galch ym Mannau Brycheiniog, lle cafodd ei darganfod gyntaf ym 1896. Mae'n debygol nad yw'r boblogaeth fyd-eang wyllt yn fwy na 16 o goed aeddfed. Yn ystod mis Awst 1998 cafodd *Sorbus leyana* ei disgrifio gan y Gronfa Fydeang ar gyfer Natur, Canolfan Fonitro Genedlaethol y Byd ac Undeb Cadwraeth y Byd fel "coeden brinnaf Prydain" a chafodd ei gosod yn y categori uchaf o rywogaethau dan fygythiad: rhywogaeth "dan Fygythiad Enbyd". Mae gan yr Ardd Fotaneg gasgliadau o bob un ond dwy o'r coed gwyllt, naill ai'n hadblanhigion neu'n gasgliadau wedi'u trawsblannu.

### **Heboglys Nedd, (*Hieracium nidense*)**

Mae Heboglys Nedd yn brin ac yn endemig i Gymru, a dim ond tua 30 o blanhigion sydd ar ôl ar lond llaw o gerrig mawrion mewn un afon yn Sir Frycheiniog, ac, o bosibl, mewn un safle arall yng Ngogledd Cymru. Mae planhigion yn cael eu tyfu mewn niferoedd sylweddol yn yr Ardd Fotaneg er mwyn diogelu'r poblogaethau hyn ac er mwyn gwneud yn sicr bod planhigion ar gael i'w hailgyflwyno i safleoedd addas yn y dyfodol.



### **Heboglys y Ffiol, (*Hieracium cyathis*)**

Mae Heboglys y Ffiol yn blanhigyn Prydeinig prin ac endemig sy'n tyfu mewn pum safle'n unig yng Nghymru a Gwlad yr Haf

### **Canri Dryflwyddol, (*Centaureum scilloides*)**

Mae gan y Ganri Dryflwyddol flodyn pinc hardd iawn, ac mae'n aelod o deulu'r crwynllys. Mae'n wahanol i'r Ganri Gyffredin gan fod ganddo flodau mwy ac mae'n dryflwyddol, gan ymledu drwy gyfrwng ymledyddion sy'n ffurfio mat sy'n para drwy gydol y flwyddyn.

Mae unig boblogaethau cynhenid Prydeinig y planhigyn hwn yn gyfyngedig i Gymru, mewn rhan fechan o arfordir Gogledd Penfro. Roedd y rhywogaeth hon yn arfer tyfu yng Nghernyw ond, yn anffodus, collwyd poblogaethau Cernyw ers 80au'r ugeinfed ganrif. Mae rhai poblogaethau'n tyfu ar lawntiau yn neddwyrain Lloegr ac yn Iwerddon ond credir mai planhigion sydd wedi 'dianc' o erddi yw'r rhain. Yn fydeang, dydi'r Ganri Dryflwyddol ddim yn blanhigyn cyffredin, ac mae bron yn endemig i Ewrop, gan dyfu

ar arfordir Ffrainc, Sbaen, a Phortiwgal. Mae'n tyfu hefyd yn Ynysoedd yr Asores lle mae ganddo flodau gwynion, a chredir ei fod yn is-rywogaeth wahanol yno.

Rydym yn cydweithio â Dr Tim Rich yn yr Amgueddfeydd, a Stephen Evans o Gymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, i ddiogelu'r rhywogaeth.

### **Creyllys Cymreig (*Senecio cambrensis*)**

Rhywogaeth newydd a darddodd o Sir Fflint ac un o'r rhywogaethau mwyaf diweddar i esblygu hyd y gwyddom. Gwyddom iddo ddatblygu ar ôl croesiad rhwng *S. vulgaris* brodorol a *S. squalidus* a gyflwynwyd drwy ardd fotaneg Rhydychen. Gan ddefnyddio technegau moleciwlaidd rydym yn astudio sut y daeth y rhywogaeth hon i fodolaeth a sut y mae'n esblygu.

\*\*\*\*\*

Dr Rhodri Clwyd Griffiths: Rheolwr-Gyfarwyddwr BioTechniwm, menter ar y cyd rhwng y WDA a'r ardd fotaneg.

Dr M. Delores Lledò: Yn enedigol o Valencia, Sbaen, ymunodd â'r Ardd Fotaneg fel botanegydd cadwraeth yn Awst 2002 o'r Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew.



**Ewch allan i weld, ac wedi gweld,  
rhowch gymorth i ddiogelu  
prydfferthwch tirluniau unigryw, amrywiol a  
bregus Cymru.**

Am wybodaeth pellach: 01938 552525 / 556212  
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig  
Tŷ Gwyn,  
31 Y Stryd Fawr,  
Y Trallwng,  
Powys, SY21 7YD

[www.cprw.org.uk](http://www.cprw.org.uk), [gwybodaeth@cprw.org.uk](mailto:gwybodaeth@cprw.org.uk)



# Brych y Gro (*Sialis lutaria*)

Emrys Evans

Dywed entomolegwyr bod yna ddau fath o Frych y Gro yn ynysoedd Prydain ond bod y ddau fath mor debyg i'w gilydd fel mai anodd iawn, iawn yw dweud y gwahaniaeth rhyngddynt. Brych y Gro yw'r enw cyffredin ar y pryf *Sialis lutaria* yn ardal Ffestiniog. Yr 'Alderfly' yw ei enw yn Saesneg ac enwau eraill arno yw 'Orl Fly' a 'Hump Back'. Yr un sydd â'i enw uwch ben hyn o lith a welir o gwmpas y llynnoedd tra bo'r math arall *Sialis fuliginosa* yn dueddol o gael ei weld yng nghyffiniau afonydd. Mae'n bryf sy'n eithaf cyffredin yn ei dymor ac mae iddo ddosbarthiad eang. Daw i'r golwg ym mis Mai - weithiau yn weddol gynnar a thro arall yn nes i ddiwedd y mis - gan barhau yn amlwg hyd at ddiwedd mis Mehefin. Y fanw yw'r fwyaf o ran maint, yn dri chwarter modfedd o hyd tra mai rhyw bwtyn hanner modfedd yw'r gwryw. Mae'r pen yn ddu a'r corff yn llwyd-dywyll - bron yn ddu. Lliw yr adenydd - pedair ohonynt, sy'n wythiennog - yw gwinau gyda smotiau duon arnynt. Pan fydd yn gorffwys, mae Brych y Gro yn cau ei bedair adain yn glos ar ei gilydd fel to tŷ uwch ben ei gorff. Yn y ffurf hwn, nid yw'n annhebyg i deulu o bryfed o'r enw 'gorbryfed' mewn rhai ardaloedd, ac yn wyddonol y Trichoptera (S. Caddis Flies). Mae'r tebygrwydd hwn wedi arwain rhai i gredu mai perthyn i'r teulu eithaf lluosog hwnnw y mae. Mewn gwirionedd, er y tebygrwydd o ran ffurf, does dim perthynas o gwbl rhyngddynt. Mae Brych y Gro mewn dosbarthiad urdd cwbl wahanol. Tra bod adenydd y Trichoptera wedi'u gorchuddio â mân flew ac yn teimlo'n feddal i'r cyffyrddiad, mae adenydd Brych y Gro yn gwbl llyfn, yn sgleiniog, yn galed ac yn wythiennog.

Diddorol iawn, iawn yw cylch bywyd Brych y Gro - cylch bywyd sydd ychydig yn wahanol i unrhyw bryf arall, hyd y gwyddys. Mae'r cylch yn cychwyn gyda'r fanw yn dodwy ei hwiau, wedi i'r rheini gael eu ffrwythlonni gan y gwryw. Gwna hynny ar ryw blanhigyn megis gweiryng, neu babwryng neu'i gilydd sy'n gŵyro dros y dŵr neu'n agos ato neu efallai ar wyneb maen neu greigen yn y dŵr. Gwna hyn yn ddestlus iawn, yn ddefodol ac yn ddeddfol; nid eu hau ar wasgar a gadael iddynt gymryd eu siawns, ond yn hynod o drefnus. Gwna hyn fel bod gan y larfa, sef y bywydyn bychan, bychan a ddaw o'r ŵy, bob siawns o ddisgyn i'r dŵr neu o fedru cyrraedd y dŵr unwaith y mae wedi deor o'r ŵy.

Rhwng 500 ac 800 yw nifer yr wyau sydd gan fanw Brych y Gro i'w dodwy ac mae hi'n gwneud y gorchwyl pwysig hwn mewn dull tu hwnt o ofalus. Os mai rhyw glwt bychan, gwastad o faen neu o garreg y mae hi wedi'i ddewis i ddodwy arno, yna mae'n trefnu'r wyau'n rhesi rheolaidd twt y naill wrth ochr y llall. Os mai pabwryng neu weiryng crwn yw'r dewisedig fan, yna, rhoir yr wyau yn gylch ar gylch a hynny'n drefnus, daclus, am goes y planhigyn. Dywedir am fanw Brych y Gro, petai rhywun yn ei symud pan ar ganol y ddefod o ddodwy, a'i rhoi hi mewn man arall gerllaw, byddai hi'n dod yn ôl a gorffen yno cyn mynd ati i ddodwy clytiad arall yn rhywle gwahanol. Fel y dywed un awdur amdani, 'Un hynod o drefnus yw'r hen fenyw yna'.

Ymhen rhyw ddeng niwrnod, mae'r larfa'n deor o'r ŵy, yn disgyn i'r dŵr neu mae'n ddigon agos ato i fedru ymgripiant iddo ac ymgladdu yn y llaid ar ei waelod. Treulia'r larfa'r deuddeng mis nesaf ar wely'r llyn,







Brych y Gro

yn araf dyfu a datblygu gan fwrw'i groen bob yn hyn a hyn, nes dod yn fodfedd neu fwy o hyd. Mae'n datblygu, hefyd, i fod yn greadur milain ac ymosodol iawn, yn barod i herio creaduriaid eraill mwy nag ef ei hun, eu trechu a'u lladd ac yna eu bwyta. Ei loches yn ystod y cyfnod hwn o'i fywyd yw twnel yng ngwely'r llyn. Yno, mae'n llechu, heblaw pan fydd yn mentro allan i chwilio am ysglyfaeth - a dyna pryd y mae ei brif elyn, y pysgodyn, debycaf o daro arno. Ei liw, a rydd rhywfaint o gymorth iddo osgoi cael ei weld ar y cyrchoedd bwyd hyn, yw gwinau tywyll ar ei rannau uchaf, tra bod ei rannau isaf yn felynaidd i hufenaidd. Os llwydda i osgoi ei arch elyn a chyrraedd ei lawn dwf, mae'n gadael ei loches twnelog am y tro olaf, nid i chwilio am brae, ond i anelu am lan y dŵr ac am dir sych. Mae'n cefnu ar ei gartref gwlyb, yn ymgripian i'r tir am ychydig droedfeddi neu hyd yn oed lathenni, yn dod o hyd i glwt o dir meddal ac, ar unwaith, yn ymgladdu o'r golwg ynddo. Gall fynd, ar dro, gymaint ag wyth modfedd i'r pridd. Yno, mae'r creadur bwystfilaidd hwn yn bwrw'i groen am y tro olaf ac yn troi'n hyn

a elwir yn chwiler (*S.pupa*). Dyma'r cyfnod a'r cyflwr llongydd a disymud yn ei hanes, pan mae'r trawsnewid gwrthiol yn digwydd y tu mewn i blisgyn y chwiler. Cymer hyn rhyw bythefnos i'w gyflawni ac o'r pridd a'r llaca, mae pryf yn ei lawn faint yn tyllu ei ffordd i olau dydd gan adael o'i ôl blisg, ac, ar hwnnw, argraff holl organau a ffurf y chwiler.

Wedi'i fywyd cyfyng, tywyll, twnelog, ar wely'r llyn, mae Brych y Gro yn lledu ei adain i ryddid y bywyd golau, heulog, uwch ben y dŵr ac i wneud ei ran i ddiogelu dyfodol y llinach. Rhyfeddol yn wir yw'r trawsnewid hyn o larfa i chwiler ac yna i bryf. O greadur bwystfilaidd ac ysglyfaethus a digon hyll yr olwg - petai hi'n weddus dweud hynny am un o greaduriaid distadl y Bod Mawr - daw un o'r pryfed mwyaf dof a diniwed y gellir ei ddychmygu i rannu ein byd. Mae Brych y Gro yn greadigaeth newydd mewn mwy nag un ffordd; mae ei holl natur wedi newid, mae ei ffurf yn gwbl newydd. Prin bod dim ar ôl i'n hatgoffa o'i fywyd isel, tywyll, trahaus a lleidiog ar wely'r llyn onibai efallai, rhywfaint o'r lliw gwinau a oedd iddo yr adeg honno. Er ei fod wedi'i fagu yn y dŵr ac, ar ffurf larfa, wedi treulio cyfnod hwyaf ei fywyd, ac er bod y pryf i'w gael o gwmpas y glannau, eto, mae'n gyndyn i'w ryfeddu i fentro ar y dŵr. Mae fel petai wedi gwneud diofryd na wna gymaint â gwlychu gwadnau ei draed yn nŵr y llyn os medr mewn rhyw fodd osgoi hynny.

Os lluchir Brych y Gro ar y dŵr, heb oedi dim, mae'n anelu am y lan agosaf. Ei unig bwrpas mewn bywyd bellach yw cael hyd i gymar a gwneud ei ran ym mharhâd ei hil. Pryf diddorol iawn yw Brych y Gro.



# Ydi'r balerina binc yn dawnsio yn eich gardd chi?

Gareth Wyn Griffith a Gary Easton

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Cymru, Aberystwyth SY23 3DD, gwg@aber.ac.uk



*Hygrocybe calyptriformis*

Nid yw'r ffyngau wedi denu llawer o sylw gan y Cymry yn hanesyddol, fel y gwelir o brinder yr enwau cyffredin amdanynt. Er hynny, mae'r ffaith bod cymaint o dirwedd Cymru (tua 70%) yn lastir lled-naturiol wedi arwain at ddiddordeb cynyddol yn y ffyngau sy'n byw yn y cynefinoedd hyn. Mae sôn bod nifer mawr o Almaenwyr yn ymweld â'r Canolbarth er mwyn casglu madarch hud (*Psilocybe semilanceata*). Efallai y dylai'r Bwrdd Croeso ymdrechu i hybu'r agwedd hon ar dwristiaeth! Yn ogystal, darganfuwyd yn ddiweddar genws newydd o ffwng yn ardal Aberystwyth gyda'r enw *Cyllumyces aberensis*. Y rheswm bod y ffwng hwn wedi osgoi sylw cyhyd yw ei fod yn byw o fewn rwmn gwartheg ac yn tyfu i lai na milimetr o faint, ond eto mae'n

hanfodol bwysig i'r fuwch gan ei fod yn gallu torri i lawr seliwlos o'r borfa.

Os ymwelwch â glastiroedd sydd heb eu hail-hadu neu eu gwrteithio yn ystod yr hydref (o Awst hyd Rhagfyr), mae'n debyg iawn i chi ddod ar draws y capiau cŵyr, sef y madarch lliwgar (coch, gwyn, melyn, gwyrdd, piws, pinc) seimllyd sy'n perthyn i'r genws *Hygrocybe*. O safbwynt Ewropeaidd, mae capiau cŵyr Cymru'n bwysig iawn gan eu bod mor gyffredin. Yn yr Iseldiroedd dim ond tua 200 hectar o 'lastir capiau cŵyr' sy'n bodoli bellach gan fod cymaint o amaethyddiaeth dwys yno. Gan fod nifer helaeth o lastiroedd Cymru ar lethrau neu'n anghysbell, maent wedi cael eu rheoli mewn dull helaeth iawn a heb gael eu haredig na'u gwrteithio. Mae ambell i fynwent a lawnt hirsefydlog

yn cynnal nifer mawr o'r capiau cŵyr. Yr enwocaf yw lawnt Llanerchaeron yng Ngheredigion. Darganfuwyd 34 rhywogaeth (o'r tua 40 rhywogaeth Ewropeaidd) mewn ardal o lai na 0.25 ha. O ganlyniad, dynodwyd lawnt Llanerchaeron a hefyd Disgwylfa (bannau Brycheiniog) yn SSSI ar sail eu ffyngau.

Mae'n debyg bod nifer ohonoch heb sylwi rhyw lawer ar y capiau cŵyr yn y gorffennol. Felly, mae cyfle dros y misoedd nesaf i chi gymryd rhan yn arolwg y mudiad Plantlife ([www.plantlife.org.uk/](http://www.plantlife.org.uk/)) i gasglu gwybodaeth am eu dosbarthiad. Y balerina binc (*Hygrocybe calyptriformis*) yw un o'r delaf a'r hawsaf i'w hadnabod (llun 1). Fe'i hystyrir yn fadarchen brin iawn ond mae'n bosibl bod hyn yn ganlyniad i'r





*Hygrocybe spadicea*

prinder o bobl sydd wedi chwilio amdani. Felly os y gwelwch hi, cofiwch sôn wrth Plantlife trwy eu tudalennau gwe (neu wrthym ni) gan nodi'r lleoliad, dyddiad ayyb. Y rhywogaeth brin arall yw *Hygrocybe spadicea* (llun 2; llai nag 20 safle ym Mhrydain, 5 ohonynt yng Nghymru).

Un cwestiwn sydd wedi codi yw pam mae'r capiau cŵyr mor gysetlyd ynglŷn â'u cynefin. Trwy ein hymchwil yn Aberystwyth mae'n ymddangos eu bod yn sensitif iawn i nifer o arferion amaethyddol, yn arbennig gwrteithio a chalchu (er eu

bod yn ddigon cyffredin ar lastiroedd calchog). Maent yn ffynnu mewn priddoedd gwael gan eu bod yn gallu defnyddio nitrogen o'r hwmws ac yn methu cystadlu â'r ffyngau eraill mewn priddoedd mwy maethlon. Maent hefyd yn hirhoedlog ac yn tyfu i ffurfio cylchoedd tylwyth teg hyd at 10 m o ddiamedr. Anaml y ceir capiau cŵyr ar borfeydd sydd wedi'u haredig o fewn sawl degawd. Felly mae dyfodiad y tractor a gwrteithiau artiffisial

ers y rhyfel wedi bod yn her sylweddol iddynt. Trwy gyllid gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, rydym hefyd yn arolygu dros 50 o lastiroedd pwysicaf Cymru er mwyn darganfod a ydi'r capiau cŵyr yn ymateb i aflonyddwch ecolegol yn yr un ffordd â phlanhigion a phryfed prin. Y bwriad yw rhannu unrhyw wybodaeth newydd trwy safle gwe y Capiau Cŵyr (<http://www.aber.ac.uk/capcwyr>). Yn y cyfamser, cofiwch chwilio amdanynt a pheidiwch â gwrteithio eich lawnt!



# Rydym yn barod i gynorthwyo.

Yma yn Lloyds TSB, rydym yn barod i gynorthwyo. I ddarganfod mwy, galwch yn eich cangen lleol.

## We're pleased to help.

At Lloyds TSB, we're always pleased to help. To find out how, call in to your local branch.

BANKING WORTH TALKING ABOUT



Lloyds TSB

Lloyds TSB Bank plc Registered office: 25 Gresham Street, London EC2V 7HN. Registered in England and Wales no. 2065. Telephone: 020 7626 1500. Authorised and regulated by the Financial Services Authority and a signatory to the Banking Codes.



*Mae Aberglasney, Sir Gaerfyrddin, yn un o brosiectau adfer gerddi mwyaf cyffrous y Wlad. Mae nodweddion garddwriaethol gwych a hanes dirgel i'r gerddi. O fewn naw erw'r ardd mae chwe gardd wahanol gan gynnwys tair gardd o fewn waliau. Yn y canol, mae chwysty a llwybr rhagfur unigryw o oes Elisabeth Jaco beaidd wedi'u hadnewyddu'n llwyr. Dyma'r unig enghraifft sydd wedi goroesi yn y DU. Hefyd, mae yno gaffi gwych, siop ac arwerthiant planhigion.*

### ORIAU AGOR

Yn agored bob dydd (heblaw Dydd Nadolig)

Oriau agor yr Haf 10.00am - 6.00pm  
(mynediad olaf am 5.00pm)

Oriau agor y Gaeaf 10.30am - 4.00pm

Ffôn/Ffacs: 01558 668998

E-bost: [info@aberglasney.org.uk](mailto:info@aberglasney.org.uk)

Gwefan: [www.aberglasney.org](http://www.aberglasney.org)

gemwaith | oriel | crefftau | ystafell de | gwefan

**Y GORAU OLL O GYMRU**

Modrwyau Priodas a Dyweddio  
Aur Cymru Rhiannon  
Cynlluniau Arbennig

Oriel - Arddangosfa 'Siapse'  
Ruth Jên, Daniel Boyle, John Hine  
Anna Lawday, Stuart Neale, Tony White

Bwyd a Diod Blasus Cymreig  
Nosweithiau arbennig mis Rhagfyr

Crefftau a Chelf o Safon Uchel

Hyn i gyd a mwy ar ein Gwefan

-

Cwmni Cymraeg ers 1971

Y Ganolfan Geltaidd | Tregaron | Ceredigion | SY25 6JL

[www.rhiannon.co.uk](http://www.rhiannon.co.uk) | 01974 298415

© Rhiannon - Atgyfodi ein Llywodraeth Geltaidd™



# Craig-adwy-wynt, Sir Ddinbych - hafan i'r Glöyn Byw

John Davies



Tegeirian Llydanwyrdd (*Platanthera chlorantha*)

Mae Craig-adwy-wynt rhwng Pwllglas a Llanfair Dyffryn Clwyd, rhyw ddwy filltir i'r de o Ruthun. Mae'n un o'r safleoedd gorau am loynod byw. Cafwyd 32 o'r 34 rhywogaeth y gwyddom amdanynt yng ngogledd Cymru, yma ar y garreg galch yn ystod y degawd diwethaf. Prynwyd y warchodfa bwysig hon gan y Gymdeithas er Gwarchod Glöynod (Butterfly Conservation) yn 2001 gan sicrhau 20 erw o'r safle gydag arian y Gymdeithas ynghyd â grant gan y Cyngor Cefn Gwlad. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Mr a Mrs Steve y cynberchnogion am eu cydweithrediad parod.

Ar ben y bryncyn, mae palmant calchfaen, math arbennig o graig dyllog a llyfn. Mae'r rhan fwyaf o'r cynefin hwn yng ngogledd Lloegr gyda dim ond un neu ddwy enghraifft yng Nghymru. Oherwydd y rhigolau a'r tyllau yn y graig, mae'r 'palmant' yn rhoi lloches i amrywiaeth o blanhigion y garreg galch yn ogystal ag i rywogaethau sy'n fwy nodweddiadol o goedydd. Hefyd, mae ambell lecyn o bridd asidig wedi'i ffurfio lle mae llystyfiant wedi dechrau pydru. Ymhlith y planhigion nodweddiadol, ceir Pig-yr-aran Rhuddgoch (*Geranium sanguineum*), Tafod y Bytheiad (*Coenoglossum officinale*), Meligwellt Pendrwm (*Melica nutans*), a'r Lloer-



redynen (*Botrychium lunaria*). Mae planhigion nodweddiadol o hen goedlannau megis Marddanhadlen Felen (*Lamiastrum galeobdolon*), Bresychen y Cŵn (*Mercurialis perennis*), Briwydd Bêr (*Galium odoratum*), Suran y Coed (*Oxalis acetosella*), Tafod yr Hydd (*Phyllitis scolopendria*) a Chlust yr Arth (*Sanicula europaea*) yn dangos pa mor hir y bu'r holltau yn y graig yn rhoi lleithder a chysgod iddynt. Canlyniad anghyffredin arall o effaith y rhigolau ynghyd â phori caled gan ddefaid am flynyddoedd yw'r coed 'bonsai' naturiol, - y Ddraenen Wen a'r Onnen yn arbennig - sydd wedi gallu egino yng ngwaelod yr hollt allan o gyrraedd ceg y ddafad.

Y rheswm pennaf dros brynu gwarchodfa Craig-adwy-wynt yw'r Fritheg Berlog (*Boloria euphrosyne*) (*Pearl-bordered Fritillary*). Mae'r glöyn hwn wedi prnhau gymaint ym Mhrydain nes bod y warchodfa hon yn un o'i gadarnleoedd yng Nghymru. Yn ystod 1997, dim ond 17 safle a gafwyd ym Mhrydain a bellach, mae rhai o'r rhain wedi diflannu. Mae'r graig noeth a hen ddail marw y Rhedyn Ungoes ynghyd â digonedd o'r fioled yn gwneud y cynefin hwn yn ddelfrydol i'r lindysyn. Mae'r berthynas rhwng y rhedyn a'r fioled yn allweddol. Fel rheol, mae lindys y Fritheg Berlog yn bwytar Fioled Gyffredin



Y Fritheg Berlog – ffurf albino

(*Viola riviniana*) yn unig, tra bod rhai'r Fritheg Berlog Fach (*Boloria serene*) a'r Fritheg Werdd (*Argynnis aglaja*) yn bwydo ar amryw o fioledau gan gynnwys Fioled y Gors (*Viola palustris*) a'r Fioled Flewog (*V. hirta*).

Dangosodd ymchwil gan Gymdeithas Gwarchod y Gllglöynod fod cysgod y rhedyn ifanc ym mis Ebrill, ynghyd â rhyw 15cm o drwch o'r hen ddail o'r blynyddoedd cynt, yn codi'r tymheredd o gwmpas y fioledau gymaint â 15 neu 20 gradd yn uwch na'r tymheredd amgylchol. Mae'r Fritheg Berlog yn deffro o'i chwsg fel lindysyn yn y gwasarn dail (*leaf litter*) ynghynt na'r rhelyw o wyfynod ac felly, mae'r cysgod a'r cynhesrwydd hyn yn angenrheidiol. Gall y glöyn ifanc dorheulo ar y gwasarn sydd hefyd i raddau yn mygu



Y Fritheg Berlog (*Boloria euphrosyne*)

tyfiant planhigion eraill ar wahân i'r fioled. Fodd bynnag, os bydd y gwasarn yn rhy dew, gall hyd yn oed y fioled ddiflannu. Mae cyflenwad o neithdar gan flodau cynnar megis Glesyn y Coed (*Ajuga reptans*) a Chwerwlys yr Eithin (*Teucrium scorodonia*) hefyd yn nodweddiadol o safleoedd da i'r Fritheg Berlog.

Gwelwn felly, fod rheoli'r safle'n anodd.





Craig-adwy-wynt – rhan o'r palmant carreg galch

Mae gwirfoddolwyr yn arbrofi drwy dorri'r rhedyn ac ynna ei gribinio oddi ar fannau arbennig. Rydym yn cadw golwg ar dyfiant y rhedyn a'r fioled ac yn sylwi pryd mae'r gwyfyn benywaidd yn dodwy wyau arnynt. Dyma waith tymor hir i benderfynu ar y patrwm gorau o dorri'r rhedyn.

Cafodd y newidiadau cyflym mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif effaith andwyol ar y Fritheg Berlog. Yn weddol sefydlog o ran tiriogaeth, eto yn gallu ail sefydlu dros bellter o ychydig filltiroedd, roedd wedi'i addasu'n dda i'r patrwm clytiog o wahanol gynefinoedd yn dilyn yr hen drefn o reoli coedwigoedd. Hefyd, byddai clytwaith o redyn, yn dilyn y defnydd a wnaed ohono i'w roi o dan yr anifeiliaid. Ers yr ail ryfel byd, bu'r duedd i blannu conwydd ar raddfa fawr, lleihau llwybrau drwy'r

goedwig a manau agored eraill, ynghyd â rhoi'r gorau i dorri rhedyn, neu i'w ddifa yn gyfangwbl, yn gyfrifol am leihau'r cynefin sydd ar gael i'r glöyn hwn ac eraill. Felly, amcan y mesurau cadwraeth yw ceisio gwarchod neu ail greu rhai o'r cynefinoedd arbennig hyn - cynefinoedd sy'n newid yn naturiol os na chânt eu rheoli.

Mae nifer o loynod pwysig eraill sydd angen eu gwarchod ar y safle, gan gynnwys y Gwibiwr Llwyd (*Erynnis tages*), y Gwibiwr Brith (*Pyrgus malvae*), y Fritheg Berlog Fach (*Boloria selene*) a'r Gwrmyrn Glas (*Aricia agrestis*). Mae angen cynefinoedd arbennig ar bob un o'r rhain, cynefinoedd sydd ar gael iddynt ar Graig-adwy-wynt gyda glaswelltir llawn blodau, creigiau noeth a llwyni cysgodol. Gan nad oes pori ar y safle a chan mai dim ond ychydig o wningod sydd o gwmpas, mae llwyni a phrysgwydd yn tyfu dros y borfa agored mewn llawer lle. Mae rhai o'r coed yn werthfawr o safbwynt byd natur ond rhaid eu rheoli'n ofalus.

Bu nifer o wirfoddolwyr a chontractwyr proffesiynol yn gweithio'n galed ar y safle ers dwy flynedd. Mae'r canlyniadau'n ardderchog ac o fudd i'r glöynod ac i'r bywyd gwylt yn gyffredinol. Ond mae mwy i'w wneud a'r bwriad yw trefnu cynllun pori fydd o gymorth i reoli'r tyfiant. Bydd angen trwsio'r waliau a'r ffensys a bydd eisiau arian a gwirfoddolwyr. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ysgwyddo rhan o'r baich ac mae'r Gymdeithas Glöynod yn ddiolchgar iawn i Ymddiriedolaeth CODA am gefnogaeth.

Am fwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â Jan Miller (01352) 711198 neu Rob Whitehead (01824) 704507 neu 'Butterfly Conservation' Abertawe (01792) 642972.



# Llên y Llysiâu

Y Prosiect sy'n cloddio am yr aur o dan y rhedyn

*Y mae'r gyfres hon yn olrhain cysylltiadau llenyddol a hanesyddol gwahanol blanhigion. Sôn am y defnydd a wnaed o redyn yng ngogledd orllewin Môn y mae **Rolant Williams** yn yr ysgrif hon.*

Yn y llyfr *The Life and Works of Lewis Morris 1701 - 1765*, gan Hugh Owen, ceir disgrifiad pur fanwl o'r diwydiant lludw rhedyn *Pteridium aquilinum* ym Môn. Pwrpas y gwaith oedd cynhyrchu potash, i'w werthu yn fwyaf arbennig i'r diwydiannau gwneud sebon a gwydr a hefyd i'r todd-dai. Noda Lewis Morris fod diwydiant o'r fath yng nghyffiniau Dulas (Ynys Môn) ac yn wir dywed fod cynhyrchu lludw rhedyn yn gyffredin iawn ar hyd llawer o'r glannau cyfagos. Yn oes y Morrisiaid yr oedd Dulas yn borthladd prysur oherwydd y fasnach ymenyn, ceirch, penwaig, glo a chalch a hefyd byddai'r lludw rhedyn yn cael ei allforio oddi yno.

Yr oedd y broses o dorri a llosgi'r rhedyn ac yna glanhau a mesur y lludw yn galw am gryn ofal gan ei bod yn hanfodol bod y lludw o ansawdd arbennig os am fod o unrhyw werth masnachol. Ychwanegir hefyd na ddylid torri'r crop rhedyn yn yr un man am fwy na thair blynedd rhag gwanhau'r tyfiant.

Roedd gan bob aelwyd neu losgfan dri gweithiwr i ofalu amdani ac fel arfer byddai'r llosgfannau mor agos i'r môr ag oedd yn bosibl, er mwyn hwyluso casglu'r cynnyrch.

Yn ôl y pecaid y mesurid y lludw i'w werthu a byddai'r broses yma eto yn galw am ofal a sylw arbennig. Yr oedd yn bwysig bod y lludw'n cael ei fesur gan osgoi unrhyw wasgu neu ysgwyd diangen. Byddai hyn yn lleihau'r siawns iddo setlo a rhoi bargaen i'r prynwr a cholled i'r gwerthwr.

Yn y pedwardegau a'r pumdegau cynnar o'r ganrif ddiwethaf byddwn yn cael gryn bleser, fel llawer un arall a dyfodd i fyny o fewn cyrraedd hwylus y glannau, o gasglu

drec môr ["broc môr" i lawer ohonom]. Un o'r traethau gorau am ddrec ar ôl gwynt go dda o'r gogledd-ddwyrain oedd Porth y Gwchiaid, traeth dan gaeau Rhos Mynach. Weithiau byddai'r helfa mor dda (a'r ffordd adref mor bell!) fel y byddai'n rhaid gadael drec ar ôl i'w gasglu'n ddiweddarach. Roedd un guddfan, a ddefnyddiwn yn dra hwylus, o gerrig, ac ar siap crochan mawr a'r cwbl wedi'i orchuddio gan ddrynsi a rhedyn.

Ychydig yn ôl tra'n cerdded y glannau, bu'n rhaid i mi adael wyneb caregog traeth Porth y Gwchiaid a mynd i mewn i'r tir o achos llanw uchel, a deuthum wyneb yn wyneb â'r guddfan unwaith eto. Mae'r maint a'r siap yn debyg i'r hyn a ddisgrifir yn llyfr Hugh Owen a diau bod tyfiant y rhedyn yn y ddeunawfed ganrif mor gryf os nad yn gryfach na thyfiant heddiw. Mae'r lleoliad yn addas, ychydig o lathenni yn unig o ben y traeth a hawdd fwasai cludo'r lludw i Ddulas mewn cwch rhwyfo i'w lanhau a'i baratoi ar gyfer ei allforio. Mae mwy o weddillion o'r fath ar dir y Penrhyn uwchben cesail Morfa Dulas er nad oes cymaint o'r gwaith cerrig yn sefyll. Credaf fod yr un pwrpas gwreiddiol i'r rhain hefyd.

## Cydnabyddiaeth

Estyn yr awdur ei ddiolch i J.O Hughes, Bryngalas (Jaci Chwillan Bach) a Brian Hope, Moelfre am eu diddordeb yn y pwnc. Ymddangosodd yr erthygl gyntaf ym mhapur bro *Yr Arwydd*.

Cysylltwch â safle wêr Gymdeithas  
[www.cymdeithasedwardllwyd.org](http://www.cymdeithasedwardllwyd.org)

...ac fe welwch safle newydd arbrofol y prosiect gyda chyfle i fewnbynnu eich sylwadau. neu wrth gwrs, os yw'n well gennych, yna rhowch nodyn ar bapur a'i anfon at

Haf Meredydd, 14 Stryd Wesla,  
Porthmadog, Gwynedd LL49 9DS





# Cerddi

## Y TITW BYCHAN BLINAF UN (*Parus parvus iratissimus*)

Aderyn na welid ond yn anfnynch  
Ydyw hwn, y Titw Bychan Blinaf Un;  
Ond, bellach, y mae o'n ymwelydd cyson  
Â'n pur hoff Walia wen; yn wir,  
Y mae o, ysgatfydd, erbyn hyn  
Yn ymsefydlydd yma.



Ei gynefin ydyw meysydd parcio -  
Cyhoeddus. Ac os bydd rywbyrd ar y rheini  
Unrhyw osgo at orlenwi fe fydd o  
Yn troi'n ddirifol ymosodol.  
Bydd ei wep o yn cras-gochi,  
A bydd ynddo duedd gref i frochi  
A neidio-neidio yn ei unfan.  
Yna bydd y Titw Bychan hwn yn gweiddi  
Ei rybudd nodweddiadol:  
*“Nopaciniyr, nopaciniyr;  
Hopit, hopit, hopit.”*

O'i anwybyddu fe fydd o  
Yn cynddeir-wirioneddol-iogi  
Ac yna bydd yn rhydd-amrywio'i gri-  
Hyn i amddiffyn ei diriogaeth.  
*“Onlimi, onlimi, onlimi,  
Onlimi hiyr, onlimi hiyr, onlimi”.*

Yr unig ffordd i'w setlo, ar fy ngwir,  
Ydyw, mewn adaryddol iaith,  
Ailadrodd wrtho'n bendant,  
Yn gadarn ac yn groyw glir,  
*“Dosomadi, dosomadi,  
Dosomadi grinc, dosomadi grinc.”*  
Ac fe encilia yntau wedyn,  
Ond odid, mewn dau chwinc.

Gwyn Thomas



## CYMDEITHAS EDWARD LLWYD (bron ugain mlynedd yn ôl)

Crwydro'r maes mewn rhyw Eisteddfod  
Sylwi ar babell lwyd ei gwedd,  
Tuag ati prysur gamu  
A gweld Dafydd yn ei sedd  
O'i Randirmwyn yn llawn syniadau  
Am gadwraeth, iaith a llên,  
Gwarchod Cymru a'i thrysorau  
Hyn i gyd a'i hyfryd wên.


Tyfodd o'r plentyndod hwnnw  
Gymdeithas glodwiw Edward Llwyd,  
Denu'r Cymry, Gog a Hwntw  
A chael mil a mwy i'w rhwyd.  
Crwydro llwybrau môr a mynydd  
Rhyfeddodau ar bob cam,  
Gwarchod blodau prin y gweunydd,  
Cadw Cymru yn ddinam.

Eluned Mai, Llangadfan, Awst 2003-11-09

## LLun Pwy?

**Pwy yw'r gŵr â'r het?**  
**Cliw: gŵr cadarn fel y graig**

Afonwch air at y Golygydd - bydd  
gwobr am y llythyr gorau.



Yr ateb i'r gystadleuaeth yn Rhifyn 12 (Mehefin 2003) oedd Syr George Stapeldon.

Cafwyd dau ymateb cywir a'r ddau yn haeddu eu cyhoeddi (a'u gwobrwyo!)

Ffwrnes Blwm  
Caerffili  
CF83 1NF



Annwyl Goronwy

Llun o Syr George Stapeldon sydd yn *Y Naturiaethwr* mis Mehefin, dyn a oedd i gael cryn ddylanwad arna i fel bachgen ysgol, er na wyddwn hynny. Roedd fy nhad, a oedd yn beiriannydd mwyngloddio, wedi gorfod treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd profesiynol yn Affrica, yn awyddus iawn i mi ddewis gyrfa a fyddai'n caniatáu i mi gadw at fy ngwreiddiau. Roedd wedi trefnu i mi gael ymweld â'r Fridfa Blanhigion yng Ngogerddan. Ond 'nid oedd gwyrthiau'r Arglwydd' yno i mi'n fachgen pymtheg oed. 'Boring' oedd fy ymateb wedi gweld y rhesi planhigion yn y tai gwydr gyda'i capiau plastig yn edrych mor ddifywyd. Dallwn i ddim bod wedi bod yn fwy anghywir, nac ychwaith yn fy nhybiaeth yn yr ysgol fod botaneg yn bwnc difywyd, llai diddorol na swoleg a pheirianeg.

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, pan ges gyfle i ddechrau amaethu ar y brynau y tu ôl i Gogerddan, sylweddolais mor bwysig ac yn wir mor gyffrous oedd gwaith y Fridfa Blanhigion, IGER erbyn heddiw - Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd.

Roedd Mynydd Gorddu yn y chwedegau canol mewn cyflwr amaethyddol gwael, a'r ffridd yn arbennig yn ddim byd ond rhedyn ac eithin. Mewn hinsawdd amaethyddol wahanol iawn i heddiw ail hadwyd y tir i gyd gan weiriau a meillion Gogerddan yn seiliedig yn bennaf ar rygwellt parhaol S23 ar y tir pori a S24 yn y caeau gwair, a'r meillion gwyn mân S184. Cynrychioli arloeswr y Fridfa - George Stapeldon, mae'n debyg, oedd y llythyren S ac mae'n deyrnged i addasrwydd a gwytnwch cynhyrchiol yr hadau a feithrinwyd yng Ngogerddan ar gyfer ffermydd ucheldir Cymru, fod porfa rhygwellt 23 a'r meillion mân ar fanc Mynydd Gorddu, sydd heddiw o amgylch traed y melinau gwynt, yn dal i ffynnu'n gryf heb orfod ail hadu ers bron i ddeugain mlynedd. Eto, am resymau na alla i eu dirnad mae S23 a nifer o hadau Gogerddan yn anodd os nad yn amhosibl eu cael heddiw.

Un o broffwydi cynladwyedd amaethyddol oedd George Stapeldon a byddai'n ddiddorol clywed ei farn am rai o ddatblygiadau heddiw. Beth tybed fyddai ei farn am amaethu organig neu am dechnoleg GM? Mae enghreifftiau gwych o arloesi organig fel Rachel's Dairy, nepell o Gogerddan, sydd wedi meithrin marchnad lwyddiannus i'w cynnyrch. Ond ai'r llwybr organig yw'r ffordd ymlaen at y nod o gynladwyedd ar gyfer amaethu Cymru yn gyffredinol? I wyddonydd, mae rheolau'r Gymdeithas Bridd yn anghyfforddus o artiffisial ac fel petaent yn hannu yn fwy o ideoleg nag o reswm. Mae rhwystrau, er enghraifft, ar gywiro diffyg potash mewn planhigyn, er bod potash yn dod o ffynhonnell gwbl naturiol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar gael lleiafrif ffermydd i gydymffurfio â'r dull organig, tybed na fyddai George Stapeldon yn credu mai'r ffordd ymlaen fyddai i amaethwyr ffermydd Cymru gyfan feithrin dulliau cynladwy mewnbyn



isel yn eu hamaethyddiaeth, yn seiliedig ar fagu planhigion fyddai'n gallu ymgynnal gyda llai o gymorth artiffisial yn nhir a thywydd Cymru.

Wedyn, mae cwestiwn llosg GM. Yma eto, mae prinder gwerthuso cytbwys a gormod o addo gwyrthiau ar y naill law ac o godi bwganod ar y llaw arall. Mae angen gwahaniaethu rhwng y dadleuon gwyddonol a'r camddefnydd masnachol o'r dechnoleg gan gwmnïau fel Monsanto. Mae'n destun pryder bod yna waharddiad gwleidyddol cywir yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n llesteirio unrhyw ymchwil i'r maes, tra bod gennym sefydliad yn IGER o safon ryngwladol a allai ymchwilio i bosibiliadau'r dechnoleg yn arbennig i gynladwyedd amaethyddol yng Nghymru. Pam y dylai camddefnydd un cwmni o'r dechnoleg mewn un cnwd, yn bennaf, mewn perthynas ag un chwynladdwr, gau'n meddyliau i bosibiliadau'r dechnoleg mewn ffyrdd diogel a chyffrous mewn cyfeiriadau eraill?

Mae Cyngor Nuffield ar Biofoeseg wedi cyfeirio at fwy na dwsin o gnydau sy'n cael eu datblygu, yn bennaf mewn prifysgolion, a allai fod o gymorth mawr i ffermwyr y trydydd byd. Mae'r rhain yn cynnwys haidd i wrthsefyll sychdwr yn Affrica a thatws uchel mewn protin ar gyfer yr India. Ac yn nes adre, beth petaem, er enghraifft, yn medru ehangu gallu meillion i glymu nitrogen o'r awyr i blanhigion porfa eraill a thrwy hynny osgoi'r angen am wrtaith nitrogen o'r sach? Neu, er enghraifft, wella maethlonrwydd porfeydd naturiol ein mynyddoedd i wartheg duon? Byddai caniatáu ail sefydlu pori cytbwys ar y mynyddoedd o fudd mawr i'r ecoleg a bioamrywiaeth yn ogystal ag amaethyddiaeth yr ucheldir.

Beth fyddai George Stapeldon yn ei feddwl tybed?

Yn gywir iawn

Dafydd Huws

---

Llys Maelgwn, Pen-y-garn, Ceredigion

Annwyl Gyfaiil

Llun yw o R G Stapeldon, 'Yr Hen Stapol' i Llywelyn Phillips. Hanai o deulu o amaethwyr a morwyr o Ddyfnaint, yr olaf i adeiladu llongau pren yn Appledore. Gwyddai ei fam am weithiau Darwin, Huxley a Spencer. Bu Stapeldon ifanc yn Suez yn gweithio i'r cwmni llongau teuluol ond dychwelodd i Gaergrawnt i astudio amaethyddiaeth y tro hwn, yn lle gwyddoniaeth. Yr unig gais am swydd a wnaeth erioed oedd fel Trefnydd Amaeth Dyfnaint. Methodd, a threuliodd yr haf ar fferm arloeswr gwella tir garw o'r enw Tribble yn Nyfnaint. Tebyg bod y profiad wedi'i ysbrydoli a'i ysgogi i ddechrau ar ei yrfa chwildroadol a gwaith mawr ei fywyd, ynghyd â dylanwad Turrenson yr ecolegydd o Sweden yn nes ymlaen. Ym 1912, cafodd wahoddiad i fod yn gynghorwr botaneg amaethyddol yn Aberystwyth. Gwnaeth arolwg o borfeydd o fôr i fynydd a gwelodd fod angen hadau o'r mathau cynhenid o weiriau a geid yn y porfeydd prin, gorau. Ef oedd y dyn pan ddaeth yr awr i fod yn bennaeth y fridfa arfaethedig ym 1919 ond gwrthododd wneud cais am y swydd a bu'n rhaid i'r Coleg ei chynnig iddo. Go brin y byddai'r Fridfa annibynnol wedi'i sefydlu oni bai am ei safiad ef, p'run bynnag, gan fod Caergrawnt yn bychanu'r syniad ac yn cynnig 'gorsaf allanol' fel cyfaddawd. Cafodd ei benodi'n athro mewn botaneg amaethyddol ond gan nad oedd fawr o elfen addysgu ynddo, gadawodd y gwaith i'r darlithydd ac aeth ati i saernio'r Fridfa gyda T J Jenkin ar ei ddeheulaw, arloeswr mawr yng ngeneteg y gwairiau.

Nid gwyddonydd fel y cyfryw oedd ond gŵr gyda gweledigaeth fawr ac eang, athronydd a 'phroffwyd yr oes newydd' fel y tystia llyfr Robert Walter amdano. 'Sais efo anianawd



Celtaidd' a ysbrydolodd ei gydweithwyr ac mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn rhan bellach o hanes rhamantus llwyddiant bydeang y Fridfa. Gellir ei gyffelybu, yn ôl un ohonynt, i John Maynard Keynes, gŵr mawr anunionged arall. Credaf mai 'Y Tir, Heddiw ac Yfory' yw ei lyfr pwysicaf heb anghofio un ar Disraeli. Fy unig gof ohono yw ym Mhwillpeiran ac yntau'n ei ddillad lliwgar, gwasgod wlân wedi'i chlymu am ei ganol, yn tanio ac ail danio ei bibell, gan golli hanner y baco yn ei frwdfrydedd heintus.

Gwyn Jones

## Nodiadau

### Llysieua yng Ngheredigion Defaid, mwynau, conwydd a rhedyn

Ar ddiwrnod llwydaidd yn niwedd Mehefin, cyfarfu aelodau'r Gymdeithas Redynnau (British Pteridological Society) ger murddyn gwag ar lethr digysgod - mur o gonwydd digroeso o'n blaenau, porfa asidig a thomennydd mwyngloddio o'n hól a dim sôn am redynen yn unlle. Dyma ddechrau poeni - a oedden ni yn y lle anghywir? Y murddyn oedd hen swyddfa gwaith plwm Esgair Hir lle galwodd George Borrow 150 o flynyddoedd yn ôl ar ei daith o Fachynlleth i Bontarfynach. Roedd y lle'n ferw o brysurdeb a chafodd sgwrs gofiadwy gyda'r gweithwyr.

Ar ôl mynd trwy'r giat o'r tir glas i'r coed, daeth y rhedyn i'r golwg: *Cryptogramma crispa* (Rhedynen Bersli) mewn chwarel fach *Athyrium felix-femina* (Rhedynen Fair), *Dryopteris dilatata* (Marchredynen Lydan), *D. filix-mas* (Marchredynen Gyffredin) a nifer o ffurfiau o *D. affinis* (Marchredynen Euraid) ar y tomennydd sbwriel ac ar fin un o'r nentydd. Toc, daethom at fwynglawdd Esgair Fraith gyda thomennydd mawr o bridd tywodlyd wedi'u gwenwyno gan fetelau, bron iawn yn noeth ar wahân i ambell damaid o weiriau megis *Agrostis* (maeswellt) sy'n gallu gwrthsefyll y llygredd. Yma, gwelwyd amryw o *Ophioglossum vulgatum* (Tafod y Neidr), ambell blanhigyn o *Botrychium lunaria* (Lloerredynen), swp mawr o'r farchrawn groesryw *Equisetum x dycei* ac ambell glwstwr o *Dryopteris oreades* (Marchredynen y Mynydd).

Mewn siafft ar y llechwedd gwslom *Asplenium viride* (Duegredunen Werdd) a rhagor mewn hen gafn olwyn (rhod) gerllaw yn y coed; dyma'i unig safle yng Ngheredigion. Mae hon a llawer o'r rhedyn eraill yn blanhigion calchgar (*S. calcicoles*) neu'n dibynnu ar gyflenwad o fwynau ac, yn ôl pob tebyg, yn tyfu cystal yma am fod y gwaith cloddio yn ystod y tair canrif ddiwethaf wedi dod â mwynau a chreigiau calchog i'r wyneb. Rhaid bod y berthynas rhwng natur wenwynig y pridd a'r cyfoethogi gan fwynau yn amrywio o le i le gan effeithio ar ddsbarthiad y planhigion. Dichon bod gallu rhai planhigion i wrthsefyll halogiad metelau yn fwy nag eraill ac felly'n rhoi mantais iddynt. Roedd rhedyn calchgar llawer mwy cyffredin yn tyfu ar y mortar yn y waliau cerrig: *Asplenium ruta-muraria* (Duegredynen Goesddu, *Cystopteris fragilis* (Ffiolredynen Frau) a *Phyllitis scolopendrium* (Tafod yr Hydd). Ar lain llydan o roedir ger Afon Llest-gota lle nad oedd coed conwydd wedi'u plannu gan y Comisiwn Coedwigaeth am resymau gwarchod y tirlun, cafwyd tri o'r cnwbwfsoglau: *Lycopodium clavatum* (Cnwbwfsogl Corn Carw), *Diphasiastrum alpinum* (Cnwbwfsogl Alpaidd) a *Huperzia selago* (Cnwbwfsogl Mawr). Peth anghyffredin yw dod o hyd i'r tri gyda'i gilydd erbyn hyn - diffyg pori gan ddefaid sy'n gyfrifol am eu llwyddiant yma.



Yn gysylltiedig â'r mwyngloddiau mae Llyn Nantycagl ac yno cawsom *Isoetes lacustris* (Gwair Merllyn), *I. echinospora* (Gwair Merllyn Bach) a'u croesryw hynod brin. Mewn cafn olwyn ddŵr ar y mynydd agored, roedd *Polystichum setiferum* (Gwrychredynen Feddal), *P. aculeatum* (Gwrychredynen Galed) a'u croesryw. Ar ddiwedd y dydd, cawsom 34 rywogaeth a chroesrywogaeth o redyn a'u perthnasau, cyfanswm rhyfeddol mewn un safle a dysgwyd llawer am wahanol effeithiau dyn ar y planhigion dros y canrifoedd.

Arthur Chater, Aberystwyth

## Nodiadau

### Mamaliaid yn ystod 2003

Yn ystod mis Mehefin, gwelwyd chwe Morfil Trwyn Potel ym Môr Iwerddon rhwng Ynys Manaw a Merin Rheged (Solway Firth). Dilynodd grŵp o wylwyr, y 'Solway Shark and Sea Mammal Survey' eu hynt am dair wythnos mor bell ag aber Afon Clud (Firth of Clyde) i'r gogledd. Mae prinder gwylwyr ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac mae'n anodd cofnodi symudiadau mamaliaid y môr. Os gallwch chi helpu, byddwn yn falch iawn o glywed gennych. Gwelodd capten yr Island Princess sy'n hwylio o gwmpas Ynys Seiriol, 40 dolffin yn ystod mis Gorffennaf - mae pethau diddorol o'n cwmpas!

Darganfuwyd safle newydd i'r Pathew (Dormouse) mewn gwarchodfa natur ger Llanharan, rhwng Caerdydd a Phenybont ar Ogwr yn ddiweddar, ond mae'r bwriad i adeiladu ffordd osgoi yn bygwth y safle. Mae'r perchennog wedi gosod blychau ar eu cyfer ac mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol yn cadw golwg ar y sefyllfa. Mae gwaith monitro'r Pathew hefyd yn digwydd ar safle Coed Gelli Hir ar Benrhyn Gŵyr.

Cafwyd adroddiad o Bowys gan Phil Morgan bod John Messenger o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent wedi dod o hyd i'r Ystlum Du (Barbastrelle) yn Aberedw, Sir Faesyfed yn ystod mis Gorffennaf a bod y Dr Peter Smith wedi darganfod Ystlum Leisler i'r gogledd o Bontypŵl yng Ngwent - y cyntaf yng Nghymru (er bod cofnod o un yng Nghaergybi, y tybir iddo gyrraedd yno ar fwrdd llong). Mae Phil hefyd wedi bod yn defnyddio dulliau radio i leoli'r Ystlum Deuliw (Daubenton's Bat) mewn coedlan ger yr Afon Wysg. Os yw'r 'slumod yn dipyn o ddirgelwch i chi beth am anfon am y llyfryn *The Bats of Britain and Ireland* gan Henry Schofield a Tony Mitchell-Jones, i'w gael am £3 oddi wrth Vincent Wild Life Trust, 85 Whitehall Court, London SW1A 2EL Ffôn: 020 7930 3160.

Mae'r Dr Craig Shuttleworth yn adrodd bod gwaith newydd ei gwblhau ar y Wiwer Goch ym Môn, yn dangos bod agwedd o'i geneteg (mitochondrial DNA) yn unigryw ym Mhrydain. Pan archwiliwyd cnewyllyn y gell (nuclear DNA) gwelwyd mai ychydig iawn o amrywiad genetig sy'n y boblogaeth ym Môn. Mae'n fwriad felly i gyflwyno genoteipiau newydd i'r Ynys.

Amcangyfrifir bod rhwng 30,000 a 50,000 o ddamweiniau ar y ffordd bob blwyddyn yn cael eu hachosi gan geirw a llawer o bobl yn cael eu lladd o'r herwydd. Mae'n fwriad ceisio darganfod y llecynnau gwaethaf a cheisio gostwng y nifer o ddamweiniau. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jackie Brinton, Menter Ceirw Cymru, Blwch Post 39, Aberhonddu, LD3 8WD Ffôn: 01874 636148 Ffacs: 01874 636840.

Frances Cattanach, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. [fcattanach@cix.co.uk](mailto:fcattanach@cix.co.uk)



# LLEOEDD A'R BARDD

Rhyw flwyddyn yn ôl, gosododd **Lun Roberts** dasg i ddarllenwyr *Y Naturiaethwr* i adnabod cerddi byd natur. Roedd yr ymateb yn dda. Y tro hwn, mae Lun, sy'n awr yn byw yn Rhuthun, yn ein herio i adnabod y LLE a'r BARDD. Anfonwch eich atebion at y Golygydd (gweler y cyfeiriad ar y dudalen flaen). Bydd gwobrau i'r goreuon.

1. Mi wyddwn fod arall swyn ynot ti  
Na cherrig a pharodi ac enw i mi -  
Mae ienctid fy Nghenedl yn dy hirgof di.
2. Olion fy hil a welaf - ac aelwyd  
A foddwyd ganfyddaf,  
Ail agor craith i'r eithaf  
A wnaeth Cwm yr hirlwm haf.
3. Oblegid mi gaf yno  
Yng nghri'r ystormus wynt  
Adlais o'r hen wrthryfel  
A wybu fenaid gynt.  
A chanaf â'r hen angerdd  
Wrth syllu tua'r ddôr  
Ar greigiau .....  
A thonnau gwyllt y môr.
4. Welsoch chi mo afon Teifi'n  
Llifo'n araf drwy y cwm?  
Welsoch chi mo flodau'r eithin  
Ar y llethrau'n garped trwm?
5. Mae yno ugain mil o saint  
Ym mraint y môr a'i genlli,  
Ac nid oes dim a gyffry hedd  
Y bedd yn .....
6. Ond mae rhyw ddewin a dieflig hud  
Yn gwneuthur gweld ei wyneb i mi'n nef,  
Er nad oes dim gogoniant yn ei bryd,  
Na godidowgrwydd ar ei lannau ef -  
Dim byd ond mawnog â'i boncyffion brau,  
Dau glogwyn a dwy chwarel wedi cau.
7. O dan draed, roedd blodau'n drwch,  
Cerddem ymysg eu harddwch; .....  
Acw o lom graig, clywem gri  
Yr wylan, ferch môr heli;  
Hoyw donnai ei hadanedd,  
Llyfn, clir fel arfod llafn cledd;



8. O mwyn yw cyrraedd canol  
Y tawel gwmwd hwn  
O'm dyffryn diwydiannol  
A dull y byd a wn;  
A rhodio'i heddwch wrthyf f'hun  
Neu gydag enaid hoff, cytun.
9. Er bod yr haf, pan ddêl ei oed  
Yn deffro'r coed i ddeilio,  
Ni ddeffry dyn, a gwaith ei law  
Sy'n ddistaw ymddadfeilio.
10. Does yno ddim ond corsydd brwyn  
Medd rhai, ac ambell gorlan gerrig,  
Dim byd ond mawn a bryniau'r wŷn ....  
A gwynt mewn gwern yn deud ei gŵyn.
11. Ynysig a'i thir isel - yn îr oll  
Dan yr haul ar awel,  
O'i mewn y mae im win a mêl  
Y bywyd diwyd tawel.
12. Pert iawn yw 'i wisgoedd yr amser hyn, -  
Yr eithin yn felyn a'r drisi'n wyn,  
A'r blode trad brain yn batshe mowrion  
Ar lechweddodd gwyrdd, fel cwmwle gleishon;  
Lle mae'r gwrug ar y graig yn bwngel,  
Fe dingech fod rhywun yn tanu'r llethre.
13. Bywiol Eden y blodau, - bro y mêl,  
Bro mill a phwysiau;  
Bro llawn cnwd, bro llwyni cnau,  
A bro annwyl y bryniau.
14. I wlad y gelltydd a'r blodau gwylltion,  
Lle tyf y llys, y mefys a'r mafon .....  
Aroglau gyddfau gwyddfif yn y gwrych  
A thonnog wrid y rhos yng nghloddiau'r ardd.
15. Yng nghesail y moelydd unig,  
Cwm tecaf y cymoedd yw, -  
Cynefin y carlwm a'r cadno,  
A hendref yr hebog a'i ryw.





# Wyddoch chi?

.....bod y Fôr-wennol Fechan, un o adar prinaf Cymru, yn nythu ar y traeth ger Gronant, rhwng Prestatyn a'r Parlwr Du? Mae gelynion lu yn ei bygwth - pobl, llwynogod, adar ysglyfaethus ac ambell i lanw uchel. Er gwaetha'r rhain i gyd, cafwyd blwyddyn eithriadol o dda eleni. Daeth yn agos i gant o barau i nythu ar y safle a chafwyd y nifer mwyaf erioed o gywion - hyn ar ôl cynllun gwarchodaeth gofalus iawn.

.....pryd y daeth y Wiwer Lwyd i'r wlad hon? Gwyddom iddi gael ei rhyddhau'n fwrriadol ger Macclesfield yn sir Gaer ym 1876. Cadwyd pâr ohonynt mewn cawell i'w dangos i gyfeillion. Pan ballodd y diddordeb, agorwyd y drws! Buan iawn y daethant yn bla yn yr ardal. Efallai bod rhywbeth tebyg wedi digwydd mewn lleoedd eraill cyn hynny, ond mae tystiolaeth sicr yn brin.

.....bod 'afal prinnaf y byd' wedi'i ddarganfod ar Ynys Enlli? Mae'n debyg bod gwylwyr adar wedi dod ar draws yr afal blasus ar ddamwain. Credir ei fod yn dyddio'n ôl i gyfnod y mynachod yn y drydedd ganrif ar ddeg.

.....bod pryf copyn (corryn) mwyaf Prydain wedi'i ddarganfod eleni ar Gamlas Tennant ym Mhant y Sais ger Jersey Marine, Abertawe. Mae corff Corryn Rafftio'r Gors Galch (Fen Raft Spider) bron i fodfedd o hyd, gyda streipiau gwyn ar hyd ei ochrau. Mae'r blew ar ei goesau yn golygu y gall ymlithro dros wyneb y dŵr i ddal ei brae.

.....bod 1,800 o ffermwyr Cymru wedi ymuno â'r cynllun Tir Gofal. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn gwneud taliadau o £18 miliwn iddynt.

.....bod yr Ystlum Pedol Mwyaf (Greater Horseshoe Bat) yn dal ei dir yn Sir Benfro. Bu bron â diflannu yn ystod yr wythdegau ond, erbyn hyn, mae'n cynyddu'n sylweddol gyda thros 200 o enedigaethau eleni. Mae'r ystlum i'w weld yn Stackpole, Slebets a Llwyngwair.

.....bod y dyfrgi bellach wedi ail sefydlu dros y rhan fwyaf o Brydain - er yn brin iawn mewn llawer ardal. Ym 1977, gwnaed arolwg o 3,000 o safleoedd a chaed bod dyfrgwn mewn 6% ohonynt; erbyn 1991 roedd hyn wedi codi i 23% ac eleni roedd dyfrgwn mewn 36% o'r safleoedd.

.....bod adroddiad gan y *Field Studies Council* yn 2002 yn dod i'r casgliad nad oes fawr ddim gwaith maes yn digwydd wrth ddysgu bioleg yn ysgolion Prydain. Dywedir mai'r prif reswm am hyn yw pwysau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ofn ymddyng athrawon rhag cael eu cymryd i gyfraith o dan y ddeddf Iechyd a Diogelwch.



# Llythyrau

Bwlchtocyn, Pwllheli.

Annwyl Goronwy

Yn ei llyfr diddorol 'Ni'n Dau', mae'r awdur a'r gwyddonydd Dr Eirwen Gwynn, wrth edrych yn ôl dros gyfnod ei phlentyndod yn Llŷn yn ystod y dau ddegau, yn dwyn i gof ddwy goeden fawr oedd yn sefyll 'fel dau filwr' y naill ochr a'r llall i'r fynedfa i ardd ffrynt y tŷ oedd yn gartref iddi ar y pryd, sef Pen y Bont, Abersoch, coed a ddisgrifia fel Coed Cas gan Fwnci. Diwreiddiwyd y coed hynod hyn pan ledwyd y ffordd sy'n arwain dros bont Afon Soch i mewn i'r pentref. Bellach fel Riverside y caiff y gwesty ei adnabod, mwya'r piti.

Dod ag atgofion bore oes yn yr 'Abar' wna Coed Cas gan Fwnci i minnau ac, i blentyn, roedd ei siâp od a phigog ynghyd â'r enw Saesneg 'Monkey Puzzle' yn codi rhyw chwilfrydedd ynof.



Coeden Cas gan Fwnci (*Araucaria*)

Wrth fynd am dro ers talwm, wrth yr enw Saesneg y cyfeiriai fy Mam atynt gan ychwanegu bod y sawl oedd yn byw yn y tŷ yn siŵr o fod â chysylltiad â'r môr mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Dywedai y byddai'n arferiad gan longwyr ddod ag un o'r coed hyn yn ôl adref ar ddiwedd mordaith dramor, fel anrheg i'r teulu i'w phlannu yng ngardd y cartref. Hawdd fyddai credu hynny gan fod 'pobl môr' yn niferus iawn yn yr ardal y pryd hynny, ond tybed mai hen goel gwlad Llŷn oedd hyn? Eto, sylwais fod amryw o'r coed hyn i'w gweld ar hyd arfordir Aberteifi, ardal

arall sydd, fel Llŷn, â'r hen gysylltiad morwrol. Tybed a oedd cael un o'r coed hyn yn eich gardd ffrynt yn cael ei gyfrif fel rhyw fath o 'status symbol' o gyfnod oes y Frenhines Fictoria?!

Adeiladwyd dau dŷ sylweddol yn Abersoch ym 1900 ar waelod allt droellog ac mae Coeden Cas gan Fwnci wrth fynedfa'r ddau dŷ. Gwn fod aelodau o'r hen deuluoedd hyn wedi bod yn forwyr yn y cyfnod cynnar hwnnw.

Yn ddiweddar, fe ddadorchuddiwyd plac ar ffermdy Trygarn yn Sarn Mellteyrn, Llŷn, man geni'r artist Moses Griffith ym 1747 ac yng ngardd ffrynt y tŷ sylweddol hwn, ceir coeden dalsyth Cas gan Fwnci. Cofiwyd am gysylltiad yr artist â'r naturiaethwr Thomas Pennant ond go brin bod y goeden yno ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg ychwaith! Diddorol fyddai cael sylwadau'r arbenigwyr a pheth o gefndir a tharddiad y coed rhyfeddol hyn.

Beti Isabel Hughes

Diolch am y sylwadau difyr.

Mae'r goeden yn hanu o Chile. Daeth y gyntaf i'r wlad hon yn 1795. Casglwyd yr hadau gan Syr Archibald Menzies yn Valpariso, a chyflwynod nhw i Syr Joseph Banks, yn Kew. Mae'r goeden yn tyfu'n dda ar arfordir y gorllewin ond y mae hefyd i'w chael led-led Prydain. Mae enghreifftiau da yn Hafodunos, Llangernryw ac ym Mhlas Nannau, Dolgellau.

Gol.



Annwyl Goronwy

Mewn ymateb i'ch cais am gyfraniadau i'r Naturiaethwr, dyma ymdrech bitw i lenwi bwloch petai gwir angen.

1. Tra'n cerdded yn ardal Nanhyfer ar 25.10.03, synnais weld cenawon ar y coed cyll a blagur y dail newydd yn wyrdd cyn i'r hen ddail orffen disgyn. Yna, wrth chwilio dan gastanwydden bêr, darganfod bod y wiwer lwyd wedi achub y blaen arnom. Yn ffodus, roedd un neu ddau glwstwr pigog newydd ddisgyn ond heb agor. Ond o, y siom! Disgwylwn weld y ffrwyth yn frown a blasus yr olwg ond, er iddo lenwi'r plisgyn roedd yn wyn a diflas a heb aeddfedu o gwbl.

Ai'r newid yn yr hinsawdd sy'n cymhlethu cydbwysedd natur fel hyn neu ai dyma'r drefn arferol a finnau heb sylwi o'r blaen?

2. Tra'n ciniawa dan goeden dderwen wrth gerdded yn Nyffryn Aeron yn ystod un o gyfarfodydd maes Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas, deuthum o hyd i blu'r barcud ar lawr yn ein hymyl. Mae'n amlwg iddo fod yn gloddesta ar hen sgerbwdd oedd gerllaw. A yw adar yn colli eu plu yn rheolaidd yn ystod cyfnod penodol neu adeg o'r flwyddyn? Amgaaef y cenawon a chastan bêr. Roedd rhai o'r cenawon wedi agor mwy na'r rhain ond ofnaf na fyddent yn goroesi yn y post.

Diolch am y *Naturiaethwr* - mae'n bleser ei dderbyn.

Yn ddiidwyll  
Dilys Parry

Diolch am y llythyr.

1. Y coed cyll. Yn sicr, mae'r tymhorau'n newid, a thyfiant y gwanwyn yn datblygu'n gynharach o flwyddyn i flwyddyn. Ond, mae gweld dail newydd cyn i'r hen rai ddisgyn, yn anarferol yn fy mhrofiad i. Rhaid cofio bod y cenawon, neu'r 'cynffonnau wryn bach' sy'n cael eu ffurfio tua diwedd yr haf, yn aros yn dyn ac yn galed drwy'r gaeaf ac yna'n agor i fwrw eu paill tua Chwefror a Mawrth.

2. Y Gastanwydden Bêr. Mae'r enw Saesneg 'Spanish Chestnut' yn ein hatgoffa mai coeden o dde Ewrop a gwledydd Môr y Canoldir yw hon, er ei bod wedi ymgartrefu'n dda yn yr ynysoedd hyn (mae'n llai cyffredin yn yr Alban ac yn weddol brin yn Iwerddon). Yn Ffrainc, defnyddir y cnau i fwydo gwartheg a moch. Yng ngogledd Ewrop, mae'r cnau'n gyndyn i aeddfedu a phlenir y coed yn bennaf am eu harddwch. Yma, yng Nghymru, mae'r cnwd cnau yn anwadal, rhai'n aeddfedu'n dda ac eraill yn methu. Bu Dilys yn anlwcus!

3. Plu'r Barcud. Mae adar yn bwrw eu plu ac yn tyfu rhai newydd bob hyn a hyn er mwyn adnewyddu rhai sydd wedi treulio neu ar gyfer y tymor nythu. Mae'r hwyaid yn colli plu'r adenydd i gyd gyda'i gilydd ar ôl y tymor magu gan fethu â hedfan am gyfnod. Ond mae'r rhan fwyaf o adar yn adnewyddu eu plu yn raddol gydol eu hoes. Tybed a oedd y Barcud a welodd Dilys wedi bod mewn sgarmes?

Gol.



# Adolygiadau

## *Dysgl Bren a Dysgl Arian*

R Elwyn Hughes

Y Lolfa 2003

317 tud.

ISBN 0-86243-660-5 £14.95

Yn y gyfrol gynhwysfawr hon, trafodir hanes maeth a bwyd yng Nghymru. Rhennir y llyfr yn chwech adran a gwelir ôl ymchwil manwl ar bob un. Ysgolor yn y Gwyddorau Naturiol yw R Elwyn Hughes ac mae'n awdur nifer helaeth o gyhoeddiadau ar hanes maetheg a gwyddoniaeth. Yn ei ragymadrodd, cyfeiria at ei fwriad i ysgrifennu hanes maetheg yng Nghymru dros y canrifoedd ond sylweddolai y byddai'n ormod o dasg. Yr hyn a wna yn y llyfr yw trafod chwech agwedd a berthynai i'r Bwydydd Cymreig: 1) Tair gwedd ar fwyd y Cymru, 2) Hanes y Sgyrfi, 3) Melltith y Mallryg, 4) Diodydd Bonedd a Gwreng, 5) Bwyta'n Wyllt, Cynhaliath Byd Natur, 6) Llyfrau Coginio Cymraeg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn ôl yr awdur, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am gyflwr a statws maethegol y boblogaeth Gymraeg yn y cyfnodau cyn yr ugeinfed ganrif. Dywedir bod yn rhaid dibynnu ar dystiolaeth anuniongyrchol e.e. data am y cnydau a gynhyrchwyd, marchnata ayyb neu dystiolaeth anecdotaidd. Nodir bod gorbwyslais ar ddieta phrinder maeth a lluniaeth trigolion cyffredin yn niwedd y ddeunawfed ganrif ond bod tystiolaeth o'r cyfnodau cynharach yn ansicr. Ymdrinir yn fanwl â 'Bwyd y Cestyll' ac, yn gysylltiedig â hyn, trafodir y tri chyfansoddyn lluniaethol sef protin, caloriau a fitamin C. Gwelir cyfeiriadau at fanylion bwyd yn y cestyll ar gyfer y milwyr oedd yn bresennol. Yn niwedd y bennod, ceir tablau manwl i nodi cymeriant dyddiol y pen ym 1861 ac 1991.

Ar ôl bwyd y cestyll, trafodir bwyd y plastai. Cafwyd y wybodaeth hon yn aml o'r canu moliant lle roedd y beirdd yn cyfeirio at 'fwydydd egsotig' y cyfnod. Mae amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau coginio a llenyddiaeth ar gael sy'n profi arferion bwyta'r cyfnod yn y plastai. Drwy gyfeirio at wahanol awduron ac adroddiadau o'r cyfnod, ymdrinir yn fanwl â'r bara, yr adar, y cigoedd, y llysiau ayyb a ddefnyddid a'r dulliau o'u cadw a'u coginio; - adran gynhwysfawr, addysgiadol a diddorol. Hefyd, cyfeirir at y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r newid ym mhatrwm bwyta, yn arbennig diet y bobl gyffredin. Nodir ymdrechion i drafod coginio a bwydydd yn wyddonol tua 1820 ond, erbyn tua 1860, cyfeirir at ddadansoddiad cemegol o natur a phriodoleddau bwyd o safbwynt gwyddonol. Cyfeirir at waith Edward Smith yn teithio Cymru ac fel y llwyddodd i gael gwybodaeth am fwydydd 'Y Werin Gymreig'.

Yn y bennod ar hanes Sgyrfi, ceir ymdriniaeth fanwl ar fitamin C. Faint ohonom sy'n gwybod faint o'r fitamin hwn sydd mewn dail briallu a'r defnydd a wnaed ohonynt? Un ddeilen yn cynnwys 10 miligram o'r fitamin! Trafodir y Sgyrfi ac olrheindir yr hanes yn fanwl ac, yn ôl yr awdur, 'oni bai am ddyfodiad y tatws rhwng 1750 ac 1900, mae'n bur amheus faint ohonom fyddai ar ôl i drafod y materion hyn'. Yn yr adran 'Tatws i Bawb', ceir hanes y datblygiad o 1660 ymlaen ac fel yr oedd tatws yn ddanteithfwyd ar y dechrau. Ceir manylion am dyfu tatws yng Nghymru a'r dylanwad ar y diet. Trafodir y diffyg fitamin C ar garcharorion ac ar breswylwyr y tlotai a nodir bod gan llywodraeth y cyfnod bolisi oedd yn sicrhau bod y diet yn cyfateb i'r 'sefyllfa leol'. Wrth gloi'r bennod,



cyfeiria'r awdur at bwysigrwydd dail a phlanhigion gwyllt yn y cyfnodau cyn-hanesyddol ac yna at datws rhwng y ddeunawfed a'r ugeinfed ganrif.

Yn y bennod 'Hanes Rhyg yng Nghymru', gwelir nodiadau manwl ar ddatblygiad y Rhyg (Rye) a'i le yn y diet. Ceir sylwadau ar wahanol fathau o fara drwy'r canrifoedd a phwysigrwydd Rhyg yn economi Cymru. Trafodir y cysylltiad rhwng mallrygedd ac ymddygiad h.y. afiechydon newrolegol, hysteria ayyb. Diddorol yw darllen am y damcaniaethau am y diwygiadau crefyddol a'r symptomau a gysylltir â mallrygedd newrolegol.

Yn y bennod ar 'Diodydd Bonedd a Gwreng', trafodir yr angen am ddŵr yn y corff a dadansoddir y gwahanol ddiodydd drwy'r canrifoedd. Cymherir y diodydd yng Nghymru a Lloegr. Eglurir pwysigrwydd bragod, sef cwrw wedi'i felysu â mêl ond, ychydig o wybodaeth am wenyn a mêl a geir yn economi Cymru yn yr oesoedd cynnar. Yn ôl yr awdur, 'dim ond gan yr uchelwyr yr oedd mêl mewn bri - mae'n anodd credu bod medd erioed wedi bod yn ddiodydd gyffredin ymhlith y werin Gymreig' ond, nodir bod diod griafol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Yn y bennod ar 'Bwyta yn Wyllt', cyfeirir at nodweddion y dyn cyntefig, sef casglu planhigion ac anifeiliaid gwyllt, yr 'hel â'r carw' cynnar. Ond, roedd ymwybyddiaeth o blanhigion 'da a drwg' yn hanfodol rhag bwyta cynnyrch anaddas ac i ddeall gwerth y bwyd naturiol. Rhestrir nifer o blanhigion gwyllt y gellid eu defnyddio yn y gegin e.e. dail Dant y Llew mewn salad, blagur Helyglys ifanc yn lle Asparagws, dail Danadl Poethion, gwreiddiau Dail Arian ayyb - peth o'r wybodaeth hon wedi'i chasglu o lyfrau fel '*The Cottager's Companion*' William Salisbury, '*Cottager's Manual*' J C Loudon (1840). Cymherir y patrymau yng Nghymru â'r hyn a ddefnyddid yn Iwerddon. Rhestrir eto nifer o lysiau a gofnodwyd gan 'Rutty - *A Natural History of the County of Dublin*' (1772). Ceir cyfeiriad at Edward Lhuyd a'i ymchwil ond siomedig oedd y wybodaeth am flodau a bwydydd - hynny, yn wir, am nifer helaeth o astudiaethau a chyfeirir at waith Lewis Morris, Môn. Yn ôl yr awdur, y cyfeiriad mae'n debyg sydd fwyaf cynhwysfawr yw'r un a gofnodwyd gan Iolo Morgannwg. Er hynny, nid oes sicrwydd faint o goel y gellir ei roi ar yr hyn a restrir mewn gwahanol adroddiadau. Ond, er yr holl ddefnydd o blanhigion, gwelir bod traddodiad ymhlith y Cymry i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt - cwningod, adar a physgod. Yn ôl yr ymchwil, gwelir lleihad yn y teuluoedd a ddibynnai ar fwyd natur. Manylir ar blanhigion fel yr Efwr, Criafolen, gwreiddiau Tegeiran, mes ayyb. Cyfeirir at 'Argyfyngau a Bwydydd Ymylol'. Trafodir achosion a symbylai pobl i droi at ffynonellau eraill o fwyd mewn cyfnodau o newyn a chynni. Ond, yn ôl yr awdur, 'cyndyn iawn oedd y Cymry o syrthio yn ôl at fyd natur am ffynonellau ategol'. Tri rheswm a gofnodir - ceidwadaeath gysefin y Cymru, ofn gwenwyndra a'r ansicrwydd rhwng planhigion meddyginiaethol a phlanhigion cynhaliol.

Hefyd, trafodir llenyddiaeth coginio Cymraeg hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfraniad tra diddorol, a bron yn ddiethriad, adlewyrchir y duedd at baratoi bwydydd ar gyfer y breintiedig. Ar derfyn y llyfr, ceir rhestr fanwl o lyfrau'r cyfnod.

Cyfrol gynhwysfawr ar arferion bwyta'r Cymru yw Dysgl Bren a Dysgl Arian. Yn y rhagymadrodd, cyfeiria'r awdur at y ffaith ei fod wedi bod yn crynhoi nodiadau ar y pwnc ers deng mlynedd. Hawdd credu hynny oherwydd manylder y gwaith. Ceir tudalennau o gyfeiriadaeth a nodiadau manwl ar ddiwedd pob pennod ac, yn sicr, dengys hyn y manylder a'r wybodaeth sy'n y llyfr. Mae'n gyfrol arbennig o werthfawr ar hanes y Cymru a'u dull o dderbyn maeth. Cyfrol na ellir ei hepgor os am wneud astudiaeth neu waith ymchwil ar fwyd y Cymry. Mae'r termau'n ddiethr i'r darllenydd cyffredin ac, ar adegau, yn anodd i'w darllen yn rhwydd. Mae dros 300 tudalen o ffeithiau, ystadegau a dadansoddiad manwl wedi'u rhoi ar gof a chadw. Diolch am y gyfrol.

Beryl Lloyd



## *The High Summits of Wales - A Guide to Walking the Welsh Hewitts*

**Graham Uney**

**Gwasg Logaston - 1999**

**322 tud. £14.95**

Peidiwch â chael eich camarwain gan deitl y llyfr difyr hwn gan mai yr 'High Summits' yw yr **HEWITTS** sef **Hills of England, Wales and Ireland above Two Thousand feet**.

Rhennir y llyfr yn ddwy ran - y cyntaf yn disgrifio'r gwahanol fynyddoedd a'r ail yn olrhain sut y bu i'r awdur lwyddo i'w cerdded i gyd mewn un daith. Mae'n rhaid dweud iddo lwyddo i wneud yr hanner cyntaf yn ddifyr i bawb ac nid yn unig i'r rhai fyddai'n bwriadu cerdded y copaon. Yn ogystal â thrafod yr amrywiol lwybrau, mae ganddo wybodaeth eang o Hanes Cymru, Hanes Mynydda, Daearyddiaeth, Botaneg a Chwedlau am y gwahanol ardaloedd o amgylch y copaon. Ac, rwy'n falch o ddweud ei fod yn parchu enwau Cymraeg (gyda rhai cyfieithiadau) e.e. Llyn Tegid.

Byddai'r llyfr hwn yn ddefnyddiol iawn fel llawlyfr i'r rhai hynny sy'n trefnu teithiau. Ceir ynddo ddyfyniadau difyr allan o hen lyfrau fel 'Pennant' a cheir aml i gyfeiriad at ein 'Lhuyd' ni! Mae'r mapiau gan Brian Byron yn anarferol o ddifyr gydag effaith 3D ac mae'r lluniau yn yr hanner cyntaf o hen gardiau post, brasluniau ayyb, yn ychwanegu at y mwynhad. Ond, rhaid dweud nad yw safon y lluniau yn yr ail hanner gystal ag yr ydym wedi arfer ei ddisgwyl yn y math hwn o lyfr. Maent wedi'u tynnu gan yr awdur tra'n gwneud y daith hir hon ac, ar y cyfan, maent yn siomedig. Mae'n amlwg nad oedd y tywydd o'i blaid.

Wedi dweud hyn, fodd bynnag, mae hanes y daith yn ddigon difyr gan ei fod yn sylwi a thrafod y bywyd gwyllt a'r planhigion y daeth ar eu traws ac yn mynegi ambell i gyffro fel gweld Boda Tinwen am y tro cyntaf. Cefais i brofiad tebyg uwch ben Llangollen.

Mae £15 yn bris eithaf drud am lyfr clawr meddal ond fe'i hargraffwyd ar bapur safonol ac o'r herwydd, mae'n llyfr sy'n bleser ei ddarllen.

Dafydd Meirion Jones

## *Gwraig Orau O'r Gwagedd*

**Enid Pierce Roberts**

**Gwasg Pantycelyn. Dim dyddiad.**

**100 tud.**

**Pris £5.00**

Llyfr clawdd meddal yw hwn wedi'i argraffu'n ddeniadol. Ceir 100 tudalen ynddo gyda nifer o luniau du a gwyn ynghyd â geirfa a mynegai i'r ryseitiau a'r meddyginiaethau yn y cefn. Ar ôl rhagarweiniad, cawn bennod yn rhoi cip olwg ar ardal Ystymcolwyn a'i drigolion cyn troi at brif gynnwys y llyfr, sef bwydydd a meddyginiaethau. Ceir rhestr hir a manwl o bob math o ryseitiau a meddyginiaethau.

Y wraig yn y llyfr yw Merryell Williams (1629 -1703) a briododd John Williams, gŵr cefnog iawn a oedd yn byw ym mhlasty Ystymcolwyn ger Meifod. Tirfeddiannwr oedd gydag amryw o stadau a'i galluogai ef i fyw yn fras.

Roedd Ystymcolwyn yn dŷ nobl iawn gyda gardd fawr wedi'i hamgylchynnu gan wal o briddfeini uchel i gysgodi'r ardd a chadw gwres y dydd i mewn. Roedd amrywiaeth o



ffrwythau, llysiau a pherlysiâu'n cael eu tyfu ar gyfer y teulu a phawb oedd yn gweini arnynt. Merryell Williams oedd brenhines yr ardd ac yr oedd yn hyddysg yng ngwerth meddyginiaethol yr holl berlysiâu. Ymddengys bod boneddigesau'r cyfnod hwnnw'n cymryd cryn ddiddordeb mewn perlysiâu ac yn ymwybodol o'u gwerth iachusol. Roedd ganddynt ryseitiau ar gyfer bron pob anhwylder a byddent yn cynnig y gwahanol foddion i drigolion yr ardal yn ogystal ag i'w teuluoedd.

Cymerai Merryell Williams gryn ddiddordeb mewn coginio ac aeth ati i gasglu ryseiiau oedd yn eiddo i'w theulu a'r rhai a gafodd gan berchnogion plastai eraill. Cofnododd y cyfan a chyrrhaeddodd y llawysgrifau hyn ein Llyfrgell Genedlaethol ymhen amser.

Synnais wrth ddarllen mai cig oedd y prif fwyd gan ei fod yn rhatach ac yn llawer haws ei gynhyrchu na bara. Ymddengys felly eu bod wedi darganfod hanfodion yr 'Atkins diet' ymhell cyn i'r creadur hwnnw gael ei eni!

Yn oes y meicrodon, mae'n anodd amgyffred pa mor gyntefig oedd y cyfarpar ar gyfer coginio yn yr ail ganrif ar bymtheg. Gwnaed yr holl gelfi yn lleol gan y saer a'r gof. Rhaid oedd coginio ar dân coed syml ynghanol y llawr oherwydd nid oedd grât yn y gegin tan dri chwarter canrif ar ôl marwolaeth Merryell Williams. Diddorol oedd dysgu mai un dull o goginio adar fel brain a gwylanod oedd eu lapio, heb eu pluo, mewn clai ac wedyn eu gosod ar y tân ei hun i'w rhostio. Er na ddywedir hynny, credaf mai dim ond cywion brain a gwylanod oedd ar fin gadael y nyth, a ddefnyddid.

Fel y byddech yn tybied, mae amryw o'r ryseitiau'n cynnwys dogn go dda o berlysiâu a sbeisys. Rhaid oedd wrth yr ychwanegion hyn, wrth gwrs, oherwydd nid oedd y cigoedd bob amser yn ffres. Mae'r ryseitiau'n dueddol o fod yn rhai cymhleth. Er enghraifft, dyma rysait ei phwddin reis:

'Cymerwch hanner pwys o reis a'i ferwi mewn chwart o laeth newydd nes bydd y reis yn feddal iawn; rhowch gaead tynn ar y llestr a'i adael dros nos. Bore drannoeth, cymerwch 6 ŵy a 4 gwynwy a'u cymysgu i'r reis gyda hanner pwys o siwet biff wedi ei falu'n fân, nytmeg wedi ei gratio, 2 neu 3 llwyaid o siwgr, bron beint o hufen, ychydig o resins a chyrens. Rhowch ef mewn dysgl yn y popty a bydd awr yn ddigon i'w grasu.'

Nid wyf yn credu y byddwn i'n hoffi powlaid ohono ar ôl cinio'r Sul, gwell gennyf o lawer bwddin reis fy mam!

Mae'r holl feddyginiaethau a gynigir yr un mor gymhleth. Amheuaif yn fawr hefyd a fyddai'r mwyafrif ohonynt o unrhyw les. Cymherwch y rysait at wella llyngyr:

'Toddwch a chymysgwch ynghyd geiniogwerth o dyrpentin a'r un faint o thus, eu teunu ar ledr tenau, ei osod ar y bogail a thorri twll ar ganol y plastr ar gyfer y bogail. Ymhen dwy awr bydd y llyngyr wedi mynd.'

Yr hyn sy'n gyffredin i'r holl ryseitiau yw'r addewid eu bod yn siŵr o wella'r anhwylder. Mae'r llyfr yn ddiddorol a darllenadwy dros ben, fel y byddech yn disgwyl gan awdur mor brofiadol. Credaf y byddai o ddiddordeb mawr i'r rhai sy'n ymddiddori yng nghrefftau'r cartref, megis coginio a meddyginiaethau, yr oes a fu. Yn bersonol, nid wyf yn meddwl y byddaf yn profi yr un o'r ryseitiau, gwell gennyf rai Delia Smith o lawer!

Elfed H Evans



## *Wild Flowers of Britain and Ireland*

Marjorie Blamey, Richard Fitter, Alastair Fitter

A&C Black 2003

ISBN 0-7136-5944-0

482 tud. Lluniau lliw ar bob tud.

Clawr meddal £16.99

Pan oeddwn i'n hogyn, ychydig iawn o lyfrau da oedd ar gael i adnabod blodau. Llyfrau da, sylwch! Erbyn hyn, mae'r silffoedd yn gwegian a bydd rhywun yn gofyn i mi byth a hefyd pa un yw'r gorau. Fy ateb bob tro yw 'yr un sy'n eich siwtio chi'. Mae rhai yn hoffi disgrifiadau manwl, eraill yn dibynnu ar 'allweddau' technegol, rhai yn gofyn am ffotograffau lliw, paentiadau lliw i eraill, darluniau manwl du a gwyn i un a mapiau dosbarthiad i'r llall - ac felly 'mlaen.

Mae enwau awduron y gyfrol hon yn gwarantu safon uchel - Richard ac Alastair Fitter (tad a mab) yn fotanegwyr ac awduron hynod brofiadol a Marjorie Blamey yn artist cydnabyddedig. Gyda llaw, mae Marjorie Blamey yn 85 oed a Richard Fitter yn 90, felly does dim diffyg profiad!

Mae hwn yn llyfr sylweddol gyda 482 o dudalennau. Ar y dudalen dde, mae lluniau lliw gyda'r enwau Saesneg yn unig; ar y dudalen chwith, mae disgrifiad o bob rhywogaeth, ynghyd â'r enw Lladin. Syniad da yw'r mapiau bychain ar ymyl y ddalen yn dangos dosbarthiad y planhigyn dros wledydd Prydain ac Iwerddon.

Ar y cyfan, mae'r llyfr yn dilyn y drefn wyddonol gyfoes, gyda theulu'r Blodyn Menyn (Ranunculaceae) ar y dechrau ac yn gorffen gyda'r gweiriau. Mae'r rhedyn yn dilyn ar ddiwedd y llyfr.

Mae'r tudalennau rhagarweiniol yn ddefnyddiol. Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng planhigion blodeuol a rhedyn, eglurir y drefn o ddsbarthu planhigion yn wyddonol a cheir sylwadau buddiol ar ddsbarthiad ac ecoleg. Mae rhestr termau ynghyd â lluniau bychan defnyddiol. Ceir cyfres o symbolau i ddynodi prinder ac mae rhestr o lyfrau a chymdeithasau ar gyfer y rhai sydd am dreiddio ymhellach i 'fyd y blodau'.

Yn wahanol i'r rhelyw o lyfrau o'r fath, mae'r coed i gyd wedi'u casglu at ei gilydd, waeth beth fo'u teulu ac, yn rhyfeddach fyth, mae'r gweiriau, yr hesg a'r brwyn i gyd mewn un adran - ond wedi'u dosbarthu yn ôl ffurf y fflurgainc (inflorescence). Er nghraifft, ceir

Flowers in erect stout spikes - Grasses

Flowers in erect stout spikes - Sedges

Flowers in erect slender spikes - Grasses

Flowers in erect slender spikes - Sedges

- efallai y bydd y cynllun hwn yn help i adnabod rhai o'r planhigion hyn sy'n gallu bod mor anodd i'w henwi.

Syniad gwreiddiol arall yw neilltuo 7 tudalen ar ddiwedd y llyfr ar gyfer planhigion arbennig (*specialities* yw'r gair) Ynysoedd Sili, gorllewin Cernyw ac Iwerddon; ac mae dwy dudalen o'r planhigion sydd (yn ôl pob tebyg) wedi marw o'r tir.

Mae'r argraffu'n glir ar bapur da a gellir cario'r llyfr mewn poced (fawr).

Ychydig iawn o wallau a welais wrth bori'n frysiog drwy'r gyfrol. Ar dud. 133, does dim enw gyferbyn â llun rhif 3, 'Barren Strawberry' ac ar y mapiau, mae Ynys Môn i bob pwrpas wedi suddo o dan y tonnau.

Dyma ychwanegiad diddorol i'r nifer mawr o lyfrau sy'n ein helpu i adnabod y blodau; edrychaf ymlaen at ei ddefnyddio. Yn ôl y broliant, efallai mai dyma'r arweiniad gorau erioed i'r blodau gwylltion. Efallai'n wir - amser a ddengys.

G.W.






Daeth y gyfrol gyntaf *Anifeiliaid y Maes Hefyd* a dwy ddawn adnabyddus ynghyd i greu cyfrol unigryw – dawn y dewin geiriau Gwyn Thomas, a lluniau gwyth Ted Breeze Jones o fyf natur.

Dyma'r ail gyfrol – YLI – y mae yma fyrdd o ryfeddodau!

36 tudalen lliw llawn. £5.95



# YLI ...

## DAU ANRHEG NADOLIG DELFRYDOL!

Yn eich siop lyfrau lleol nawr

Hanes bywyd a gwaith  
**J. Lloyd Williams** – y gwerinwr a'r  
ysgolhaig, y gwyddonydd a'r athro,  
y llenor a'r Cymro.


Roedd yn fotanegydd wrth reddf gyda  
diddordeb arbennig ym mlodau'r  
mynydd ac yn ei elfen yn sgrialu dros y  
creigiau yn chwilio am blanhigion  
Arctig-Alpaidd!

168 tudalen (8 mewn lliw). A5.  
£12.50



**Gwasg Dwyfor**

Pen-y-groes, Caernarfon • Ffôn: 01286 881911





Gwyliau cerdded  
wedi eu harwain  
gan arbenigwyr neu  
yn annibynnol yng  
Ngogledd Sbaen

• Y Picos de Europa  
• Y Pyreneau  
• Mynyddoedd  
Cantabria



TEL 0161 773 5335  
info@picoverde.com

[www.picoverde.com](http://www.picoverde.com)

## PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH CYRSIAU ADNABOD PLANHIGION AC ECOLEG

### A hoffech ddysgu mwy am sut i adnabod planhigion?

Waeth a ydych yn ymddiddori eisoes yn y maes, neu'n ddechreuwr pur, bydd y cyrsiau hyn yn rhoi cyfle i chi ddysgu mwy am ecoleg dwy ardal arbennig, ac am y planhigion sy'n tyfu ynddynt. Gallent hyd yn oed gynrychioli'r cam cyntaf i yrfa newydd, gan fod prinder aruthrol o unigolion gyda'r sgiliau adnabod planhigion sydd eu hangen ym meysydd cadwraeth a gwaith amgylcheddol.

**Mae dau gwrs ar gael**, a'r ddau wedi eu dysgu gan Gymry Cymraeg. Bydd holl adnoddau'r cwrs ar gael yn y ddwy iaith, a rhagwelir y bydd cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a phobl di-Gymraeg yn cymryd rhan. Y mae hefyd wefannau cynhwysfawr ar gyfer y ddau gwrs:

Adnabod Planhigion / Plant Identification yn Nganolbarth Cymru (pump dydd yn ystod gwyliau'r Pasg, aros yn Prifysgol Cymru Aberystwyth)

<http://www.aber.ac.uk/gwydd-cym/Planhigion/>

Ecoleg Ddaearol / Terrestrial Ecology yn y Burren, Iwerddon (saith dydd yn ystod mis Medi, aros yng Nghanolfan Maes Turlough)

<http://www.aber.ac.uk/gwydd-cym/modiwlau/iwerddon/>

Mae'r niferoedd yn gyfyngedig ar gyfer y ddau gwrs. I sicrhau lle, gorau po gyntaf i chi fynegi'ch diddordeb gan ofyn am fwy o fanylion gan :

Canolfan Edward Llwyd, Adeilad Cledwyn,  
Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Cymru,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DA.

E-bost: [pc-cell@aber.ac.uk](mailto:pc-cell@aber.ac.uk)

Ffon: (01970) 621828, Ffacs: (01970) 622307



## Lluniau'r Clawr

### Clawr blaen:

Dafydd Dafis, Rhandirmwyn, Llywydd a sylfaenydd Cymdeithas Edward Llwyd, yn astudio Lili'r Wyddfa ar Glogwyn Du'r Arddu, Yr Wyddfa, Mai 2003

*Llun: Ifor Williams*

### Clawr ôl:

Lili'r Wyddfa (neu Brwynddail y Mynydd) *Lloydia serotina*

*Llun: Goronwy Wynne*

## Cymdeithas Edward Llwyd

Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd yn 1978 a hi yw Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwir y Gymdeithas ar ôl Edward Llwyd, a anwyd yn 1660 ac a alwyd yn ei gyfnod "y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop".

Cymraeg yw iaith y Gymdeithas, ac y mae dros 1,200 o aelodau led-led Cymru a thu hwnt. Prif ddibenion y Gymdeithas yw astudio byd natur, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a chreigiau, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru ac ymgychu dros eu gwarchod. Mae'r Gymdeithas yn:

- trefnu cyfarfodydd awyr-agored ym mhob rhan o Gymru, i astudio ac i gerdded
- cynnal cyfarfodydd gwaith cadwriaethol
- trefnu darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol
- cynnal pabell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol
- cyhoeddi Y Naturiaethwr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi llyfrau ar enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion
- cynnig grantiau (£600) bob blwyddyn am waith gwreiddiol ym myd natur
- lleisio barn gyhoeddus ar faterion amgylcheddol
- trefnu pris gostyngol gyda nifer o siopau dillad ac offer awyr agored

Mae aelodaeth yn agored i bawb o bob oed sydd â diddordeb ym myd natur.

Dyma'r tâl blyneddol:

Unigolyn - £12

Teulu - £18

I ymaelodi neu am ragor o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth:

Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 4LJ.

**Dosberthir yn rhad i aelodau Cymdeithas  
Edward Llwyd  
Pris i'r cyhoedd Rhifyn arbennig £3.50**

**Cyhoeddir Y Naturiaethwr yn rhannol trwy  
gymhorthdal gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru**

